

# Cyngor Sir Fynwy
# Cynllun Lleol Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011-2021
# Adroddiad Monitro Blynyddol
# Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

# Cyngor Sir Fynwy

# Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig 2011 - 2021

## Adroddiad Monitro Blynyddol

### Cyfnod Monitro 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**Cyfarwyddiaeth Menter**

**Cyngor Sir Fynwy**

**Neuadd y Sir**

**Brynbuga**

**NP15 1GA**

**Ffôn: 01633 644644**

**E-bost: planningpolicy@monmouthshire.gov.uk**

# Tudalen Cynnwys


| | Tud. |
|---|---|
| **1.** Crynodeb Gweithredol | 1 |
| **2.** Cyflwyniad | 9 |
| **3.** Gwybodaeth ar y Cyd-destun | 13 |
| **4.** Proses Monitro y Cynllun Datblygu Lleol | 21 |
| **5.** Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi | 24 |
| **6.** Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd | 103 |
| **7.** Casgliadau ac Argymhellion | 126 |
| Atodiad 1 | 137 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae angen i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu lleol.

1.2 Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac yn y pen draw yn penderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n anelu i arddangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r effaith a gaiff y Cynllun Datblygu Lleol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun a all ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

1.3 Hwn yw'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn cwmpasu cyfnod 10 mlynedd y cynllun 2011 – 2021, gyda gwerth deng mlynedd o fonitro cwblhau erbyn mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, fel y nodir yn llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2020, yn egluro'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yn ymwneud â dyddiau dod i ben y Cynllun Lleol, bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau i fod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes caiff ei ddisodli gan Gynllun Datblygu Lleol pellach.

**Canfyddiadau Allweddol yr Wythfed Proses Monitro Blynyddol 2020-21**

**Gwybodaeth am y Cyd-destun**

1.4 Mae Adran 3 yn crynhoi deunydd cyd-destun perthnasol a gyhoeddwyd yn y cyfnod monitro presennol, sy'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan bennaf, bydd goblygiadau'r newidiadau yn y cyd-destun yn digwydd dros gyfnod hirach ac fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn ystod y cyfnod monitro cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 diweddaraf ar Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar 28 Medi 2021, cyn dod i rym a'i gyhoeddi'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, ar 23 Tachwedd 2021 ysgrifennodd Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd, at awdurdodau lleol i'w hysbysu er mwyn i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn llawn amcanestyniadau newid hinsawdd ar eu hardaloedd eu hunain, bod Llywodraeth Cymru yn gohirio gweithredu TAN15 newydd a'r Map Llifogydd Cynllunio tan 1 Mehefin 2023 ar gyfer penderfyniadau Rheoli Datblygu, Yn y cyfamser, mae'r TAN15 diweddaraf yn parhau yn sail polisi ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fel y dywedwyd mewn llythyr pellach a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2021[1].

[1]https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/letter-local-authorities-on-the-pause-of-tan-15- 15-december-2021.pdf

**Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi**

1.5 Mae Adran 5 yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol a pholisïau cefnogi cysylltiedig y Cynllun yn cyflawni ar y targedau monitro a deilliannau allweddol a ddynodwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ffurfio barn wybodus ar gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deilliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithlonrwydd polisïau yn ystod y cyfnod monitro presennol yn seiliedig ar y graddiad goleuadau traffig a ddefnyddiwyd yn yr asesiad.

1.6 Drwyddi draw, mae'r cynllun yn gweithio'n effeithlon gyda mwyafrif y targedau monitro yn cael eu cyflawni, cynnydd bach i 57 o raddiad gwyrdd 54 y llynedd. Bu gostyngiad bach yn nifer y dangosyddion na chyrhaeddodd y targed eleni, ond mae cyfiawnhad priodol, ac ni chodwyd unrhyw bryderon (26 o gymharu gyda 29 y llynedd). Arhosodd graddiadau coch a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ar 3 am yr ail flwyddyn yn olynol. Rhoddir sylwadau pellach islaw.

| | |
|---|---|
| Targedau/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni | **57** |
| Targedau/deilliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithrediad y polisi. | **26** |
| Targedau/deiliannau monitro* ddim yn cael eu cyflawni gyda phryderon dilynol dros weithredu polisi. | **3** |
| Ni fedrir dod i unrhyw gasgliad oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael neu ddim data perthnasol yn ystod y cyfnod monitro | **7** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny

**Canfyddiadau Allweddol yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

1.7 Dengys canlyniadau'r broses fonitro fod llawer o'r targedau dangosydd a deilliannau monitro yn cael eu cyflawni (graddiad golau traffig gwyrdd), gan ddangos bod polisïau perthnasol y Cynllun yn perfformio yn ôl y bwriad. Mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos nad yw gwahanol ddangosyddion polisi yn cael eu cyflawni ond heb unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi, fel y manylir yn Adran 5 (graddiad golau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod cyfiawnhad dros y rhesymau am y perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn cynrychioli unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r fframwaith polisi neu'r strategaeth ar hyn o bryd. I'w nodi'n neilltuol yn y cyfnod monitro hwn:

- Mae gan chwech o'r saith safle tai strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ganiatâd cynllunio, gyda gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar bedwar ohonynt (Deri Farm, y Fenni; Fairfield Mabey, Cas-gwent; Rockfield Farm, Gwndy; a Melin Bapur Sudbrook). Mae un safle wedi ei gorffen yn rhannol (Heol Wonastow, Trefynwy gyda'r cam sydd ar ôl yn Drewen Farm yn aros datrysiad ffosffadau sut y

gellir ei datblygu ymhellach. Rhoddwyd caniatâd i'r seithfed safle yn SAH6 Vinegar Hill, Gwndy ym mis Mehefin 2022 a chaiff felly ei gofnodi fel caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

- Mae cynnydd yn parhau ar weithredu dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol, gyda 65% o'r anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd (236 uned). Roedd safleoedd mawr ar hap yn cyfrif am 22% o'r anheddau a gwblhawyd (80 uned) a safleoedd bach am y 13% arall (45 uned).
- Roedd caniatâd i anheddau yn ystod 2021/22 yn is nag a gofnodwyd yn unrhyw gyfnod monitro blaenorol ar 39 annedd, i gyd yn rhai marchnad gyffredinol. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau yn cynnwys fod caniatâd cynllunio eisoes gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol gyda'r Cynllun wedi cyrraedd diwedd ei gyfnod, felly pwysigrwydd datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn sydyn. Yn ychwanegol, mae cyflwyno'r mesurau ym mis Ionawr 2021 i reoli lefelau ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, sy'n gorchuddio cyfran fawr o'r Sir, wedi effeithio ar ein gallu i roi caniatâd cynllunio mewn cyfran sylweddol o'r Sir. Mae swyddogion ac Aelodau Cabinet yn gweithio'n galed i sicrhau datrysiad i'r her hon.
- Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn sylweddol is nag mewn cyfnodau monitro blaenorol ac mae'r isaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gyfrif am 23.1% o ganiatâd preswyl. Eto, mae hyn yn adlewyrchu Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol sydd eisoes â chaniatâd cynllunio ac effaith cyfyngiadau ffosffadau ar ddatblygiad.
- Mae gan y Sir gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, gan ddangos y cedwir digon o dir cyflogaeth i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd. Mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ymchwilio pam nad yw'r safleoedd cyflogaeth gweddilliol wedi dod ymlaen hyd yma a bydd yn ystyried p'un ai a ddylent gael ei dad-ddyrannu ai peidio neu os byddai ymyriadau eraill yn sicrhau eu darparu.
- Bu cynnydd o ran caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda 19 caniatâd wedi ei roi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth defnydd B ledled y Sir yn cynnwys nifer o gynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig (7 cais).
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer cyfanswm o 17 cyfleuster twristiaeth, yn amrywio o westai, llety gwyliau i safleoedd glampio. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Cynaliadwy (Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol i'r sector bwysig yma o'n heconomi.
- Bu cwymp mewn cyfraddau unedau gwag mewn pedair ardal siopa ganolog sef y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga a ni fu unrhyw newid mewn dwy ganolfan, Rhaglan a Magwyr, gyda Magwyr heb fod ag unrhyw unedau gwag am yr ail flwyddyn yn olynol.
- Mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa yn cydymffurfio'n gyffredinol gyda'r trothwyon a ddynodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Brif Ffryntiadau Siopa.
- Cafodd 13 cais cynllunio eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden, yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn cynnwys estyniad i Ysgol Gynradd Brynbuga, a standiau newydd 100 a 50 sedd yng Nghlwb Pêl-droed Tref Cas-gwent. Hefyd nodir, er nad yn enilliad, y gwelliant i'r cyfleuster claddu presennol ar Safle Claddedigaethau Naturiol Brynbuga.

- Cymeradwywyd pump cais yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle, yn cynnwys dau borth ceir solar yn Ysgol Gyfun Cas-gwent a Thŷ Menter, Wales 1, Magwyr a phaneli solar a phympiau gwres ffynhonnell aer ar gyfer y 15 tŷ newydd (SAH11(ii) yn Well Lane, Devauden.

1.8 Y mae, fodd bynnag, dri deilliant monitro polisi nad ydynt yn mynd rhagddynt fel y bwriadwyd yn ymwneud â chyfraddau darpariaeth tai ac unedau manwerthu gwag yn Ardal Siopa Ganolog Trefynwy (graddiad golau traffig coch).

**Strategaeth a Thai**

- Mae cofnodion cyflenwi tai ar gyfer y cyfnod cynllun 10 mlynedd 2011-2021 yn nodi diffyg o 1,500 cartref (33.3%) o gymharu gyda gofyniad y Cynllun 10-mlynedd o 4,500 annedd. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar mae % y diffyg wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol ddod ymlaen. Gellir priodoli'r diffyg hwn i raddau helaeth i gyfnod cyflwyno safleoedd tai strategol, llawer ohonynt yn parhau i ddarparu cartrefi nawr sy'n cyfrannu at ddarpariaeth tai y Cynllun Datblygu Lleol Newydd: mae'n werth nodi fod caniatâd cynllunio gan 1,263[2] o gartrefi ac roeddent i fod i gael eu hadeiladu yn y dyfodol agos. Mae effeithiau cyfyngiadau ffosffadau yn awr hefyd yn effeithio ar ddechrau gwaith ac felly gwblhau ar safleoedd. Cafodd 361 annedd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Oherwydd y pwysigrwydd a roddir i gyflenwad tir tai, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei thrafod islaw yn yr adran argymhellion.

**Tai Fforddiadwy**

- Cafodd 35 o gartrefi fforddiadwy eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, gan gyfrif am 9.7% o'r cyfanswm anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd (361). Mae hyn yn llawer is na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 96 o gartrefi fforddiadwy bob blwyddyn. Mae cofnodion darpariaeth tai ar gyfer cyfnod 10 mlynedd y cynllun 2011 – 2021 yn dweud fod y Cynllun wedi sicrhau 658 o gartrefi fforddiadwy o gymharu â tharged o 960 o gartrefi fforddiadwy (diffyg o 302 o gartrefi fforddiadwy). Yn gymesur, mae'r diffyg hwn bron yn union yr un fath â'r diffyg yng nghyfanswm darpariaeth tai. Ymhellach, nid oedd unrhyw ganiatâd cynllunio newydd ar gyfer 5 neu fwy o anheddau yn ystod y cyfnod monitro oedd wedi sbarduno darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle. I raddau helaeth gellir priodoli'r diffyg hwn i gyfnod arweiniol safleoedd tai strategol, llawer ohonynt yn parhau i gyflenwi cartrefi yn awr sy'n cyfrannu at ddarpariaeth tai y Cynllun Datblygu Lleol Newydd: mae'n werth nodi fod 280 o gartrefi fforddiadwy gyda chaniatâd ac i fod i gael eu hadeiladu yn y dyfodol agos.[3] Mae effaith cyfyngiadau ffosffadau yn awr

0

[2] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys safleoedd yn nalgylch Gwy uchaf sy'n annhebygol o ddod ymlaen yn y dyfodol agos nes caiff datrysiad ffosffadau ei ddynodi a'i weithredu.

[3] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys safleoedd yn nalgylch Gwy uchaf sy'n annhebygol o ddod ymlaen yn y dyfodol agos nes y caiff datrysiad ffosffadau ei ddynodi a'i weithredu.

hefyd yn effeithio ar ddechreuadau ac felly gwblhau safleoedd. Felly rhagwelir y bydd y tueddiad is hwn o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn parhau yn y tymor byr yn disgwyl cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Gan y bu cynnydd yn y cyfraddau unedau gwag am dair blynedd yn olynol yn ardal siopa ganolog Trefynwy, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd. Er mai dim ond cynnydd bach iawn fu mewn cyfraddau unedau gwag yn Nhrefynwy o 15.4% i 15.5% yn y cyfnod monitro hwn, mae hyn yn gynnydd drwyddi draw o 10.1% yng nghyfnod monitro 2018.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

1.9 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd sy'n helpu i ddangos y rhyng-gysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

1.10 Mae rhai o'r canfyddiadau mwyaf nodedig penodol i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Ni thorrwyd y lefel amcan blynyddol o nitrogen deuocsid yn 2021/22. Am y bumed mlynedd yn olynol ni chafodd ei dorri ym Mrynbuga.
- Mae Sir Fynwy wedi'i lleoli mewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Goch Defonaidd Brynbuga, Hen Dywodfaen Goch Defonaidd Eilaidd Wysg a Chalchfaen Garbonifferaidd ddeheuol Wysg a Gwy. Roedd gan bob un o'r tri chorff dŵr statws da am nifer yn unol â data Cylch 3 (2021) Arsylwi Dyfroedd Cymru.
- Disgynnodd lefelau llif dŵr dan lefel llif yr haf yn nwy o'r tair gorsaf fonitro; yr Afon Gwy am 38 diwrnod a'r Afon Wysg am 38 diwrnod, dros ddau gyfnod. Arhosodd yr Afon Mynwy uwchben lefel llif yr haf.
- Mae'r data diweddaraf ar wastraff a gyhoeddwyd ar gyfer 2020-2021 yn awgrymu fod 62% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn wedi gostwng ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol a ddangosodd fod 64.6% yn cael ei ailgylchu neu ei gompostio.
- Ni chafodd unrhyw dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch ei golli i ddatblygiad mawr yn ystod y cyfnod monitro.
- Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2021) fod cyfanswm gwariant blynyddol twristiaeth yn £182.79 Miliwn dros gyfnod 2021. Mae hyn yn cymharu gyda £81.16 Miliwn yng nghyfnod 2020, yn gyfartal â chynnydd o 122.2%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y cyfnod blaenorol ac yn dangos yr adferiad ers effaith pandemig Covid-19 ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch.

**Casgliadau ac Argymhellion**

1.11 Yn gyffredinol, dengys Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22 fod cynnydd da yn parhau wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth yn parhau'n gadarn drwyddi draw. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae cyfraddau cronnus cwblhau anheddau ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofyniad y Cynllun ac yn parhau yn fater o gonsyrn os yw anghenion tai Sir Fynwy i gael eu cyflawni. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd oedi wrth gyflenwi yn hytrach na phroblem gyda'r safleoedd heb fod yn digwydd o gwbl.

1.12 Er fod gan bob un o saith dyraniad tai strategol y Cynllun Datblygu Lleol ganiatâd cynllunio[4] erbyn hyn ac y byddant yn parhau i fod â ròl bwysig mewn cyfraddau cyflenwi a chwblhau tai yn y tymor byr, mae'r gostyngiad yn yr anheddau a gafodd ganiatâd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn achos pryder. Dengys dadansoddiad o'r anheddau y rhagwelir gaiff eu cwblhau, mewn ymgynghoriad gyda'r diwydiant adeiladau tai, yr amcangyfrifir y bydd cyfraddau cwblhau yn parhau'n sefydlog am gwpl o flynyddoedd ac yna y byddant yn gostwng i lefelau is (253 uned – 2025/26 a 166 uned yn 2026/27), gyda dim ond safleoedd strategol a safleoedd bach yn cyfrannu at y rhagolwg yn 2026/27. Fodd bynnag nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n cael ei ddatblygu fydd yn gwella cyflenwad tir tai wrth i'r cynllun symud ymlaen i gael ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'r oedi rhwng y ddau gynllun yn faes o bryder ar gyfer ei oblygiadau ar ddarpariaeth tai yn y Sir.

1.13 Bu nifer yr anheddau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro hefyd yn is nag mewn unrhyw gyfnod monitro blaenorol ac er fod hyn yn rhannol oherwydd bod caniatâd gan y Safleoedd Strategol ystyrir bod y cyfyngiad ar ffosffadau yn ffactor.

1.14 Rhannwyd pryderon tebyg am lefel y tai fforddiadwy a gafodd eu sicrhau a'u cwblhau yn y cyfnod monitro. Unwaith eto, ystyrir bod hyn yn dangos cyfuniad o'r safleoedd strategol a gafodd ganiatâd adeiladu ac yn cael eu hadeiladu a chyfyngiadau ar ddatblygu oherwydd cyfyngiadau ffosffadau. Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd cynllunio newydd yn ystod y cyfnod monitro a sbardunodd gyflenwi tai fforddiadwy ar-safle. Fodd bynnag, gwnaed peth cynnydd mewn cwpl o safleoedd Prif Bentref gyda 9 annedd fforddiadwy wrthi'n cael eu hadeiladu yn SAH11(ii) Well Lane, Devauden a 4 annedd fforddiadwy yn SAH11(ix)(a) Tir tu ôl i Carpenters Arms, Llanisien.

1.15 Fel y gellir gweld o'r dadansoddiad yn Adran 5, mae'r cyhoeddiad yn ystod y cyfnod monitro diwethaf am broblemau ansawdd dŵr ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Gwy a'r Afon Wysg yn parhau i fod â goblygiadau ar gyfer datblygu cyfredol yn y Sir.

[4] Cafodd SAH6 Vinegar Hill ganiatâd ym Mehefin 2022 a chaiff felly ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf. Mae safle SAH4 Heol Wonastow, Trefynwy, wedi ei gwblhau'n rhannol, gyda'r cam gweddilliol yn Drewen Farm yn aros datrysiad ar fater ffosffadau cyn y gellir symud ymlaen.

Mae'r Cyngor yn ymroddedig i geisio datrys mater ffosffadau ac mae wrthi'n trafod gyda sefydliadau allweddol yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a'r diwydiant adeiladu i geisio datrysiadau hyfyw ac amserol. Nodir i Dŵr Cymru gyhoeddi rhaglen fuddsoddi yn ddiweddar i geisio mynd i'r afael â lliniaru ffosffadau i alluogi datblygiad yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r goblygiadau tymor byr ar gyflenwi cartrefi newydd yn codi pryderon. Byddir yn parhau i adolygu'r sefyllfa hon gyda Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill.

1.16 Mae'r materion hyn yn cyfnerthu'r angen i symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i roi fframwaith polisi parhaus a dull trin materion tai a fforddiadwyedd y sir. Cyrhaeddodd y Cyngor gam Strategaeth a Ffefrir proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn Haf 2021, gydag ymgynghori gyda rhanddeiliaid yng Ngorffennaf ac Awst 2021, ynghyd â'r ail alwad am safleoedd ymgeisiol. Yn dilyn hyn, bu nifer o heriau a effeithiodd ar gynnydd y Cynllun Newydd ac sydd angen eu hystyried ymhellach, sef gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i Strategaeth a Ffefrir Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth[5] a phroblemau gyda ffosffadau ac ansawdd dŵr afonydd Gwy a'r Wysg.

1.17 Oherwydd pryderon gyda chyflenwi tai a deilliannau cysylltiedig, mae cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn parhau yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ar 27 Medi 2022, cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i symud y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ymlaen gyda strategaeth twf a gofodol newydd. Caiff Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ei hadrodd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2022 ar gyfer cymeradwyaeth i gael ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad statudol/ymgysylltu ym mis Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023. Bydd y cyfarfod hwn hefyd yn ceisio cytundeb y Cyngor i Gytundeb Cyflenwi Diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, fydd yn diwygio amserlen y prosiect ar gyfer paratoi'r Cynllun i'w gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Gweinidog yn Llywodraeth Cymru.

1.18 Yng nghyswllt y cynnydd dilynol mewn unedau gwag yn ardal siopa ganolog Trefynwy, mae'n werth nodi mai dim ond yn y prif ffryntiad siopa y bu cynnydd mewn unedau gwag, gyda gostyngiad mewn cyfraddau mewn ffryntiadau eilaidd. Gall hyn, yn rhannol adlewyrchu effaith parhaus pandemig Covid-19 ar y stryd fawr ar draws Prydain, yn arbennig oherwydd golli rhai cadwyni cenedlaethol tebyg i Peacocks o ganol y dref.

1.19 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[6] a gyhoeddwyd mewn ymateb i bandemig Covid-19 yn cydnabod, er y dylai datblygiadau masnach barhau i ganoli ar ganol trefi, y dylid

---

[5] Cododd Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru bryderon sylweddol am y lefel twf a gynigid yn y Strategaeth ynghyd â chydymffurfiaeth cyffredinol' gyda pholisïau 1 a 33 Cymru'r Dyfodol 2040, gan awgrymu y byddai twf yn Sir Fynwy yn tanseilio twf yn ardal dwf genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Yn anarferol, mae Llywodraeth Cymru yn rhagnodi uchafswm twf o 4,275 annedd dros gyfnod y Cynllun (285 annedd y flwyddyn) sy'n is na'r gofyniad blynyddol ar gyfer anheddau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Fabwysiadwyd o 450 annedd y flwyddyn a gofyniad anheddau ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir o 507 annedd y flwyddyn.

[6] Adeiladu Lleoedd Gwell - Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 (Llywodraethh Cymru 2020) – https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-adferiad-covid-19; llythyr LlLlC ar hawliau datblygu dros dro yng nghanol trefi, 30 Mawrth 2021 – https://gov.wales/coronavirus-covid-19-new-temporary-permitted-development-rights-support-economic recovery.html

galluogi canolfannau manwerthu a masnachol i weithredu mor hyblyg ag sydd modd. Bydd hyn yn sicrhau fod canolfannau manwerthu a masnachol yn y dyfodol yn hybiau gweithgaredd cymdeithasol ac economaidd ac yn ganolbwynt ar gyfer ystod amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau/digwyddiadau diwylliannol sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Dylai'r dull gweithredu hwn alluogi'r system cynllunio i fod yn ymatebol, hyblyg a phragmatig i gynorthwyo gyda'r adferiad o Covid-19. Caiff unrhyw effeithiau ar hyn ar ganol trefi y Cyngor eu cofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

1.20 Yn lleol, rhoddodd y Cyngor nifer o fesurau interim ar waith pan oedd pandemig Covid-19 ar ei anterth, tebyg i drwyddedau caffes stryd a blaenoriaeth i symudiadau cerddwyr mewn canol trefi, ac mae llawer ohonynt wedi aros yn eu lle ers codi cyfyngiadau Covid. Yn ychwanegol mae'r Cyngor, drwy ei dîm Adfywio, wedi cyflwyno cais am gyllid i sicrhau cyfran o gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i Neuadd y Farchnad a'r Neuadd Sirol, dau adeilad allweddol yng nghanol y dref yn ogystal â gwelliannau i Stryd Mynwy a Stryd Blestium. Cyflwynwyd cais i gronfa Codi'r Gwastad hefyd ar gyfer prynu 7-43 Heol Casnewydd, Cil-y-coed, gwelliannau parth cyhoeddus i ganol tref Cil-y-coed a Chanolfan Llesiant Cil-y-coed.

1.21 Er, ac eithrio Trefynwy, bod cyfraddau unedau gwag ar y stryd fawr yn sefydlog ac yn is na chyfartaledd Prydain Fawr (14.5% ym Mehefin 2021, Local Data Company), cydnabyddir fod gan fywiogrwydd y stryd fawr rôl allweddol yng nghymeriad ac apêl ein trefi marchnad. Mae cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn anelu i gefnogi canol trefi, a chyflwynodd Sir Fynwy gais cynhwysfawr am y cyllid grant hwn. Mae'r argyfyngau costau byw a chostau ynni yn peri bygythiadau ychwanegol i fusnesau wrth i gostau gynyddu a gwariant cwsmeriaid yn gostwng. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'r arolygon blynyddol ar fanwerthu.

1.22 Yn unol â hynny, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau i ddatblygu gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ar ddiwedd 2022/dechrau 2023.
2. Parhau i weithio gyda'r sefydliadau perthnasol i geisio datrysiad i faterion ffosffadau ac ansawdd dŵr yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Wysg a Gwy.
3. Parhau i weithio gydag adrannau eraill y Cyngor a rhanddeiliaid eraill i ymchwilio opsiynau ar gyfer cynyddu nifer y tai fforddiadwy a gaiff eu cyflenwi.
4. Cyflwyno'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyngor.
5. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

# 2 Cyflwyniad

## 2 Cyflwyniad

2.1 Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r sail ar gyfer monitro effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Lleol ac sydd yn y pen draw yn penderfynu os oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw arddangos i ba raddau y caiff strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu cyflawni ac os yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithlon. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu effaith y Cynllun Datblygu Lleol ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol y Sir ac yn dynodi unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun a fedrai ddylanwadu ar weithrediad neu adolygiad y Cynllun.

2.2 Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses creu cynllun. Mae'n rhoi'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a ffurfio polisi, gweithredu polisi, gwerthuso ac adolygu'r cynllun.

### Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy

2.3 Dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ei fabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Sir Fynwy ar 27 Chwefror 2014. Mae'r Cynllun hwn yn rhoi'r fframwaith defnydd tir sy'n ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau am ddatblygu yn y Sir yn y dyfodol, yn cynnwys ceisiadau cynllunio.

2.4 Hwn yw'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy ac mae'n seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

### Statws y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig

2.5 Eglurodd llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 24 Medi 2022 nad yw'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 ynghylch y cyfnod y mae cynllun mewn grym yn weithredol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd cyn 2016. Bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016, yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Sir Fynwy, yn parhau i fod y Cynllun ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes y caiff ei ddisodli gan Gynllun Datblygu Lleol pellach. Croesewir yr eglurhad hwn ac mae'n sicrhau fod fframwaith polisi yn parhau yn ei le tra bod y gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn mynd rhagddo ac y gall dyraniadau presennol yn y Cynllun Datblygu Lleol na chawsant ganiatâd cynllunio hyd yma symud ymlaen drwy bolisïau'r Cynllun Mabwysiedig, gan roi fframwaith polisi ar gyfer datblygiad economaidd parhaus a chyfleoedd ar hap.

## Y Gofyniad ar gyfer Monitro

**Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004**

2.6 Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol, dan adran 61 Deddf 2004, i gadw pob mater dan adolygiad y disgwylir y byddant yn effeithio ar ddatblygiad ei ardal. Yn ychwanegol, dan adran 76 y Ddeddf, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu gwybodaeth ar y materion hyn ar wedd Adroddiad Monitro Blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Mae paratoi Adroddiad Monitro Blynyddol felly yn rhan ganolog o broses statudol y cynllun datblygu.

2.7 Er mwyn monitro perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson, dylai cynlluniau gael eu hystyried ar set safonol o ddangosyddion monitro a thargedau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar y cynnwys sydd ei angen mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015**

2.8 Cafodd Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) eu diwygio i symleiddio rhai agweddau o weithdrefnau'r cynllun datblygu lleol; fodd bynnag nid ydynt yn effeithio ar broses monitro'r Cynllun. Dan Reoliad 37 mae angen i'r Adroddiad Monitro Blynyddol:

- dynodi polisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu;
- Ac ar gyfer pob polisi:
- dynodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
- dynodi'r camau (os oes rhai) y bwriedir iddynt gael eu cymryd i alluogi gweithredu'r polisi;
- ymchwilio os oes angen diwygio'r cynllun i gael polisi newydd neu ddiwygio'r polisi.
- monitro darpariaeth tai o gymharu â thrywydd arfaethedig y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer tai.

**Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Rhifyn 3, Mawrth 2020)**

2.9 Mae'r Llawlyfr yn nodi y dylai'r fframwaith monitro ganolbwyntio ar y polisïau allweddol hynny sy'n sylfaenol i gyflenwi'r cynllun ac mae'n nodi nifer o ddangosyddion sydd eu hangen ym mhob fframwaith monitro, sydd yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi tai fforddiadwy a thai marchnad a dosbarthiad gofodol tai o gymharu gyda strategaeth twf a hierarchaeth aneddiadau Cynllun. Roedd rhifyn diweddaraf y Llawlyfr (Mawrth 2020) yn cyflwyno dull monitro trywydd tai yn lle'r gofyniad i fonitro cyflenwad tir tai pum mlynedd. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn cynnwys dangosyddion lleol penodol.

**Fframwaith Monitro Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy**

2.10 Mae Fframwaith Monitro ym Mhennod Wyth y Cynllun Datblygu Lleol sy’n cynnwys cyfres o 51 dangosydd, gyda thargedau cyfatebol a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach, yng nghyswllt polisïau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn dangos y cysylltiadau rhwng themâu’r cynllun, amcanion, polisïau strategol a pholisïau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â rheoliadau uchod Llywodraeth Cymru a chanllawiau ar fonitro. Y Fframwaith Monitro yw sail yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’u diwygiwyd 2011)**

2.11 Yn ychwanegol, mae’n rhaid i’r Cynllun Datblygu Lleol a’r Adroddiad Monitro Blynyddol gydymffurfio gyda Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae Adendwm yr Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (2014) yn dynodi set arall o ddangosyddion (61) i’w defnyddio i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er bod cysylltiad rhyngddynt, cânt eu gosod allan ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi y cynllun Datblygu Lleol a chawsant eu defnyddio yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynllun Datblygu Lleol.

2.12 Mae cwblhau’r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cydymffurfio gyda’r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun drwy’r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y’u diwygiwyd).

**Fformat a Chynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol**

2.13 Cafodd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gynllunio i fod yn ddogfen gryno a hygyrch y gellir eu defnyddio fel pwynt cyfeirio cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

2.14 Mae strwythur yr Adroddiad Monitro Blynyddol fel sy’n dilyn:

**Adran 1 Crynodeb Gweithredol –** Crynodeb ysgrifenedig cryno o’r canfyddiadau monitro allweddol.

**Adran 1 Cyflwyniad –** Amlinelliad o’r gofyniad am, diben a strwythur yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Adran 3 Gwybodaeth Cyd-destun –** Trosolwg byr o’r wybodaeth cyd-destun perthnasol a fedrai, er ei fod tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi’r Cynllun Datblygu Lleol. Rhoddir gwybodaeth cyd-destun polisi penodol yn yr adran dadansoddi polisi berthnasol.

**Adran 4 Proses Fonitro’r Cynllun Datblygu Lleol –** Esbonio’r broses fonitro a gynhaliwyd.

**Adran 5 Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol –** Dadansoddiad Polisi – Dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol wrth gyflawni’r nodau/deilliannau a

thargedau a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gweithredu pellach.

**Adran 6 Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd –** Asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu â dangosyddion monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

**Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion –**Trosolwg o ganfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol gyda chyfeiriad at y dadansoddiad yn yr adrannau blaenorol a, lle'n berthnasol, yn rhoi argymhellion ar faterion sydd angen eu hystyried ymhellach.

**Cyhoeddi –** Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Monitro'r Dyfodol**

2.15 Dylai strwythur bras yr Adroddiad Monitro Blynyddol barhau'r un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn hwyluso dadansoddi rhwng adroddiadau olynol. Fodd bynnag, gan fod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol a geir gan y Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithlon neu'n hen. Felly, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a defnyddir Adroddiadau Monitro Blynyddol fel modd o ddynodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

**Adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol**

2.16 Argymhellodd Adroddiad Monitro Blynyddol Sir Fynwy 2016 fod y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei adolygu'n gynnar fel canlyniad i'r angen i drin y diffyg yn y cyflenwad o dir tai a hwyluso dynodi a dyrannu tir tai ychwanegol. Mae paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd wedi parhau yn argymhelliad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol, a ddechreuodd ym mis Mai 2018.

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd**

2.17 Cyrhaeddwyd cam Strategaeth a Ffefrir proses y cynllun yn haf 2021. Mae hyn yn nodi sut y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn trin materion a heriau allweddol sy'n wynebu'r Sir a hefyd yn rhoi ystyriaeth i effeithiau Covid-19 a chyhoeddi amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ym mis Gorffennaf a mis Awst 2021. Ers hynny, bu'r Cyngor yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, yn neilltuol ymateb Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru a gododd bryderon sylweddol am y lefel twf a gynigid a 'chydymffurfiaeth gyffredinol' y Strategaeth gyda pholisïau 1 a 33 Cymru'r Dyfodol 2040. Mae'r materion yn ymwneud â ffosffadau ac ansawdd dŵr yn effeithio ar yr Afon Gwy a'r Afon Wysg hefyd wedi parhau i godi goblygiadau ar gyfer twf arfaethedig yn y rhannau o'r Sir yr effeithir arnynt. Cynigir y bydd adroddiad i'r Cyngor ym mis Medi 2022 yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i'r cynnig ar gyfer symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

# 3 Gwybodaeth am y Cyd-destun

3 Gwybodaeth am y Cyd-destun

3.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destun perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro presennol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol ar y lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Caiff unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd eu hamlinellu lle'n briodol. Caiff tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd eu gosod, ynghyd â chynnydd ar ganllawiau cynllunio atodol allweddol.

3.2 Caiff gwybodaeth ar y cyd-destun sy'n benodol i faes polisi penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol ei roi yn yr adran dadansoddi berthnasol ar gyfer hwylustod ac felly ni chaiff ei adrodd yn fanwl yma.

3.3 Adeg yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn mae'n dal yn anhysbys beth fydd effaith llawn pandemig Covid-19 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Rhoddir adroddiad ar unrhyw oblygiadau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol**

3.4 Cyhoeddwyd fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar 28 Medi 2021, cyn iddo ddod i rym a'i gyhoeddi'n ffurfiol ar 1 Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, ar 23 Tachwedd 2021 ysgrifennodd Julie James, Gweinidog Newid Hinsawdd, at awdurdodau lleol i'w hysbysu er mwyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol roi ystyriaeth lawn i effaith amcanestyniadau newid hinsawdd ar eu hardaloedd perthnasol, bod Llywodraeth Cymru yn gohirio dyddiad dod i rym TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer cynllunio tan 1 Mehefin 2023. Mae'r TAN 15 (2004) presennol a'r Map Cyngor Datblygu i barhau yn y cyfamser fel y fframwaith ar gyfer asesu risg llifogydd. Yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Lleol Newydd mae'r Gweinidog, mewn llythyr pellach ar 15 Rhagfyr 2021, yn dweud pan gaiff cynlluniau eu hadolygu fod yn rhaid i'r ystyriaethau risg llifogydd sy'n bwydo i'r strategaeth aneddiadau a dyraniadau safle gydymffurfio gyda'r TAN 15 newydd a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. SFCA fydd prif ffynhonnell tystiolaeth i lywio'r elfennau hynny o'r cynllun a pholisïau risg llifogydd penodol lleol.

**Siarter Creu Lleoedd Cymru**

3.5 Lansiwyd Siarter Creo Lleoedd Cymru gan y Gweinidog yng Nghynhadledd Cynllunwyr RTPI Cymru ar 23 Medi 2020. Cafodd y Siarter ei datblygu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cysylltiad gyda Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae'r Siarter yn adeiladu ar gryfhau'r ffocws ar greu lleoedd mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru ac yn anelu i roi dealltwriaeth gyffredinol o'r ystod o ystyriaethau a aiff i greu lle. Sefydlwyd

rhaglen waith yn dilyn lansio'r siarter. Mae hyn naill ai yn weithgaredd presennol sy'n cynnwys y thema creu lle neu waith newydd lle gellir defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i helpu cefnogi'r gweithgaredd. Llofnododd Cyngor Sir Fynwy y Siarter yn y cyfnod monitro cyfredol.

## Cyd-destun Rhanbarthol

### Cynlluniau Datblygu Strategol

3.6 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Bydd hyn yn caniatáu i faterion mwy na lleol tebyg i'r galw am dai, ardaloedd chwilio am safleoedd cyflogaeth strategol a chefnogi seilwaith trafnidiaeth, sy'n torri ar draws nifer o awdurdodau cynllunio lleol, gael eu hystyried a'u cynllunio mewn ffordd integredig. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn cyfarch materion traws-ffiniol ar lefel ranbarthol ac mae'n rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol gyda Cymru'r Dyfodol.

3.7 Cytunodd Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 29 Ionawr 2018 y dylai gwaith ddechrau ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth, sy'n cynnwys Sir Fynwy. Sefydlwyd Grŵp Prosiect[7] gyda'r dasg o ddatblygu opsiynau allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, yn cynnwys ei ffiniau, llywodraethiant, amserlen a chwmpas. Yn ddilynol, mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) yn mandadu paratoi Cynllun Datblygu Strategol ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru drwy Gyd-bwyllgor Corfforedig. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r rheoliadau yn gosod y weithdrefn ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu datblygu a byddant yr un fath â'r rheoliadau ar gyfer y Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rhoddir adroddiad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol am gynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

### Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Fargen Ddinesig

3.8 Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardal o Dde Ddwyrain Cymru, yn cynnwys y deg awdurdod lleol, yn cynnwys Sir Fynwy. Mae'r awdurdodau lleol hyn yn cydweithio i geisio trin materion sy'n effeithio ar y rhanbarth i gyd tebyg i fod heb waith a chysylltiadau cludiant gwael, gyda'r nod o gydweithio a chydweithredu ar prosiectau a chynlluniau ar gyfer yr ardal. Mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas- Ranbarth yn datblygu'r Fargen Ddinesig i gyllido prosiectau sy'n anelu i gynyddu gallu cystadleuol y rhanbarth dros y 20 mlynedd nesaf. Bydd y Fargen Ddinesig yn helpu i

[7] Roedd Grŵp Prosiect y Cynllun Datblygu Strategol yn cynnwys penaethiaid cynllunio a rheolwyr polisi cynllunio o'r 10 awdurdod cynllunio lleol yn Ne Ddwyrain Cymru.

hybu twf economaidd drwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i waith a rhoi'r cymorth mae busnesau ei angen i dyfu. Bydd hefyd yn sefydlu

llywodraethiant cryf ar draws y rhanbarth drwy Gyd Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd Cynllun Busnes Strategol pum mlynedd i ysgogi'r buddion economaidd a chymdeithasol mwyaf ei gytuno ym mis Mai 2018 gan y 10 awdurdod lleol sy'n bartneriaid. Mae'r buddsoddiad yn gyfle sylweddol i Sir Fynwy a'r rhanbarth.

3.9 Cafodd nifer o brosiectau eu cymeradwyo o fewn Sir Fynwy ac er fod rhai ohonynt yn rhai i'r rhanbarth cyfan, mae dau benodol i'r Sir:

- Bydd arian buddsoddiad y Brifddinas-Ranbarth yn cefnogi datblygu technoleg sterileiddio plasma llugoer a thechnoleg dadhalogi yn Creo Medical.
- Parcio a Theithio Cyffordd Twnnel Hafren – creu maes parcio ychwanegol gyda 150-200 lle ar ochr ddeheuol gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren ac ailgyflunio maes parcio presennol yr orsaf i gynnwys gofodau ychwanegol beic a theithio, mynediad mwy diogel ar gyfer cerdded a beiciau ac ailwampio'r gyfnewidfa bws-rheilffordd.

3.10 Gwnaeth Cyngor Sir Fynwy gais llwyddiannus yn ystod y cyfnod monitro cyfredol ar gyfer cyllid y Brifddinas-Ranbarth i gefnogi cyflenwi safle tai strategol SAH6 y Cynllun Datblygu Lleol yn Vinegar Hill, Gwndy. Bydd hyn yn galluogi cyflawni cynllun sy'n cydymffurfio'n llawn gyda pholisi cynllunio er pwysau hyfywedd oedd wedi golygu nad oedd y safle wedi dod ymlaen. Caiff y cynnydd ar agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, cynigion y Fargen Ddinesig ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol eu hystyried ymhellach mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol lle'n briodol.

**Ffordd Liniaru'r M4**

3.11 Cyhoeddwyd y penderfyniad ym mis Mehefin 2019 na fyddai Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd rhagddi, yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd. Caiff y llwybr ar draws Sir Fynwy ei ddiogelu yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Dywedodd Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog Economi a Seilwaith Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi penodi comisiwn arbenigol (Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) gyda'r dasg o wneud argymhellion am ddatrysiadau amgen i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Ne Ddwyrain Cymru. Cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad ym mis Tachwedd 2020, gan wneud 58 argymhelliad, cafodd Bwrdd Cyflenwi Burns ei greu yng ngwanwyn 2021 i ddod â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cynnwys Cyngor Sir Fynwy ynghyd i gyflenwi'r argymhellion. Caiff manylion pellach yng nghyswllt cynnydd ar yr argymhellion eu cynnwys yn y dadansoddiad polisi ar gyfer trafnidiaeth.

3.12 Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin 2021 y byddai diogeliad coridor llwybr TR111 ar gyfer ffordd liniaru'r M4 yn cael ei ddileu. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu na fydd angen i awdurdodau lleol ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer datblygiadau cynllunio yn yr ardal. Rhoddir ystyriaeth i hyn wrth ddatblygu y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Cyd-destun Lleol**

**Asesiad a Chynllun Llesiant Sir Fynwy**

3.13 Dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd angen i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi Cynllun Llesiant erbyn mis Mai 2018. Gan gymryd lle'r Cynllun Integredig Sengl, roedd y cynlluniau i edrych ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pob sir ac mae ganddo gysylltiadau clir gyda'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Fynwy ym mis Chwefror 2018 ac mae'n gosod yr amcanion ar gyfer gweithio partneriaeth ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus tan 2023.

3.14 Yn 2021, symudodd y pump awdurdod lleol yng Ngwent i ffwrdd o gael pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar wahân i gael un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent, gyda'r cyfarfod cyntaf ym mis Medi 2021. Yn Ionawr 2022 cyhoeddwyd diweddariad ar Asesiad Llesiant Sir Fynwy ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda dyddiad cau o 18 Chwefror 2022. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 5 Mai 2022 a chaiff ei ddefnyddio i ddatblygu Cynllun Llesiant Gwent a gyhoeddir erbyn mis Mai 2023 i gynnwys y cyfnod hyd at 2028. Mae'r Cynllun Llesiant wedi llywio paratoadau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Ysgolion 21ain Ganrif Sir Fynwy**

3.15 Cafodd gwaith ar ddwy Ysgol 21ain Ganrif ei gwblhau yn y Sir, Ysgol Gyfun Trefynwy ac Ysgol Gyfun Cil-y-coed. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Aecom a Morgan Sindalll i gyflenwi prosiect Band B Ysgolion 21ain Ganrif, Ysgol oed 3-19 y Fenni. Dechreuodd y prosiect ar y safle ar 25 Gorffennaf 2022, disgwylir cwblhau gwaith adeiladu'r ysgol yn haf 2024 gyda'r ymchwil bresennol i gael ei dymchwel a caeau chwaraeon i gael eu cwblhau erbyn mis Mai 2025. Mae ein hysgol derfynol, Ysgol Cas-gwent, ym Mand C ac ni fydd gwaith yn dechrau ar y prosiect hwn am o leiaf 3 blynedd arall. Mae cynnydd ar ysgolion yn y Sir yn adlewyrchu blaenoriaeth gorfforaethol allweddol o blant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a neb yn cael eu gadael ar ôl.

**Argyfwng Hinsawdd**

3.16 Ym mis Mai 2019 datganodd Cyngor Sir Fynwy fod Argyfwng Hinsawdd. Mae'r Cyngor yn edrych ar ollwng ei allyriadau carbon, yn cynnwys drwy ostwng ei ddefnydd ynni, cynhyrchu pŵer solar ac annog ceir trydan. Y targed yw gostwng allyriadau carbon y cyngor i sero erbyn 2030. Yn ystod haf 2019, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu a strategaeth i nodi sut y byddid yn cyflawni hyn. Cafodd y cynllun gweithredu ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Hydref 2019 ac mae ganddo ddeg amcan eang yn canolbwyntio ar ynni, trafnidiaeth, mannau gwyrdd, gwastraff a chaffael. Cyhoeddwyd diweddariad ar bob un o'r camau gweithredu yn y cynllun ym mis Mehefin 2021 gyda mwyafrif y camau gweithredu yn symud ymlaen fel y bwriadwyd neu'n dangos peth cynnydd.

3.17 Cyhoeddwyd Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Chynllun Gweithredu diwygiedig ym mis Tachwedd 2021. Nod y ddogfen hon yw diweddaru'r strategaeth ond nid yw'n newid y sylwedd. Rhoddir adroddiadau ar gynnydd parhaus ar y cynllun gweithredu mewn

Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol a bydd yn llywio'r paratoadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad ar Dwf Economaidd ac Uchelgais**

3.18 Cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad ar uchelgais economaidd ym mis Tachwedd 2019. Mae hyn yn nodi cyfeiriad teithio y Cyngor a'r cyfuniad o fesurau sydd eu hangen ar gyfer twf economaidd/ffyniant cynaliadwy, yn cynnwys prosbectws buddsoddi, cyswllt agos gyda'r sector busnes, arddangos diwylliant o blaid busnes ac ymyriadau cynnull tir i sicrhau fod safleoedd cyflogaeth ar gael. Roedd diweddariad o'r datganiad uchelgais economaidd a'r prosbectws buddsoddi hefyd dan ystyriaeth i gyfrif am bandemig COVID. Ymgynghorwyd â busnesau ar y rhain yn hydref 2021 gyda dyddiad cau ar gyfer sylwadau o 8 Tachwedd 2021. Mae'r mwyafrif o ymatebwyr yn credu fod y dogfennau yn dynodi'r heriau allweddol sy'n wynebu economi Sir Fynwy ac felly ni fwriedir gwneud unrhyw newidiadau i'r dogfennau yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried sut mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn perfformio ar y dangosyddion cyflogaeth presennol, a bydd gan y Cynllun Datblygu Lleol Newydd rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol a bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflawni twf economaidd cynaliadwy.

## Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

**Gweithgaredd Economaidd**

3.19 Caiff data allweddol ar weithgaredd economaidd ar gyfer Sir Fynwy a Chymru o ddyddiad sylfaen y Cynllun Datblygu Lleol o 2011 i'r cyfnod monitro cyfredol ei ddangos yn y tablau isod. Dengys y data y gostyngodd y canran o bobl economaidd weithgar sydd mewn cyflogaeth i 77.8% yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, ar yr un pryd mae'r canran o'r economaidd weithgar sy'n ddiwaith wedi parhau ar 2.9%. Mae'r gyfran o bobl economaidd weithgar sy'n ddiwaith yn y Sir yn parhau'n is na ffigur Cymru. Mae cyflog gros gweithwyr llawn-amser sy'n breswyl yn y Sir yn barhau ar lefel uwch yn Sir Fynwy nag yng Nghymru drwyddi draw (+20.7%). Ni ystyrir fod y newidiadau o'r fath yn ddigon arwyddocaol i fod ag unrhyw oblygiadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y dangosyddion economaidd hyn eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol a chofnodir unrhyw oblygiadau posibl.

**Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **73.8%** | **66.7%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **74.2%** | **67.6%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **73.0%** | **69.5%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **74.5%** | **69.3%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **78.8%** | **71.1%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **76.5%** | **71.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **78.0%** | **72.7%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **77.7%** | **73.1%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **79.5%** | **73.7%** |
| Ebrill 2020-Mawrth 2021 | **78.3%** | **72.2%** |
| Ebrill 2021-Mawrth 2022 | **77.8%** | **73.6%** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Awst 2022)

**Economaidd Weithgar - Diwaith**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| Ebrill 2011-Mawrth 2012 | **5.1%** | **8.4%** |
| Ebrill 2012-Mawrth 2013 | **5.6%** | **8.3%** |
| Ebrill 2013-Mawrth 2014 | **5.1%** | **7.4%** |
| Ebrill 2014-Mawrth 2015 | **4.9%** | **6.8%** |
| Ebrill 2015-Mawrth 2016 | **3.3%** | **5.4%** |
| Ebrill 2016-Mawrth 2017 | **2.9%** | **4.4%** |
| Ebrill 2017-Mawrth 2018 | **3.5%** | **4.9%** |
| Ebrill 2018-Mawrth 2019 | **3.0%** | **4.5%** |
| Ebrill 2019-Mawrth 2020 | **2.7%** | **3.7%** |
| Ebrill 2020-Mawrth 2021 | **2.9%** | **4.0%** |
| Ebrill 2021-Mawrth 2022 | **2.9%** | **3.8%** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Awst 2022)

**Cyflog Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Preswylfa)**

| | Sir Fynwy | Cymru |
|---|---|---|
| 2011 | **£560.3** | **£455.1** |
| 2012 | **£530.7** | **£454.9** |
| 2013 | **£579.5** | **£475.3** |
| 2014 | **£582.1** | **£480.0** |
| 2015 | **£610.5** | **£487.6** |
| 2016 | **£619.4** | **£499.2** |
| 2017 | **£619.6** | **£505.9** |
| 2018 | **£638.5** | **£518.6** |
| 2019 | **£649.6** | **£540.7** |
| 2020 | **£642.90** | **£541.70** |
| 2021 | **£688.80** | **£570.60** |

Ffynhonnell: Nomis (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, Gorffennaf 2022)


3.20 Ymddengys y bu adferiad mewn enillion yn ystod y cyfnod monitro diwethaf yn dilyn gostyngiad bach yn Sir Fynwy yn ystod y cyfnod monitro diwethaf, gydag enillion cyfartalog yn Sir Fynwy yn cynyddu gan 7.1% o gymharu â 5.3% ar gyfer Cymru drwyddi draw. Gall y gostyngiad hwn fod yn rhwydd fel canlyniad i'r cyfnodau clo yn gysylltiedig gyda phandemig Covid-19. Mae tystiolaeth yn parhau i awgrymu fod incwm menywod

economaidd weithgar sy'n breswyl o fewn y Sir yn sylweddol is nag ar gyfer dynion o fewn yr un categori. Mae'n annhebyg bod hyn yn rhywbeth y gall y system cynllunio defnydd tir ddylanwadu'n uniongyrchol arno, fodd bynnag rhoddir ystyriaeth bellach i hyn, os yn berthnasol, drwy adolygiad y Cynllun.

**Prisiau Tai**

3.21 Fel y dangosir yn y graff isod, dengys data'r Gofrestrfa Tir fod prisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol. Fel canlyniad, roedd prisiau cyfartalog yn chwarter 1 2022 (Ionawr i Mawrth) ar £334,148 yn uwch na phris llinell sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Os yw'r data ar dueddiadau prisiau cyfartalog tai a gofnodwyd yn fwy na'r sbardun a ddynodwyd ar gyfer ymchwiliad pellach a nodir yng nghyswllt Polisi S4, bydd y Cyngor yn ystyried ailasesu'r dystiolaeth hyfywedd oedd yn sail i'r targedau polisi tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth bellach i hyn yn yr adran dadansoddi polisi yn cyfeirio at Bolisi S4.

3.22 Gallai nifer o ddigwyddiadau diweddar a chynigion, yn cynnwys dileu tollau pont Hafren ym mis Rhagfyr 2018, cynlluniau ar gyfer Metro De Ddwyrain Cymru ynghyd â chyfleoedd ehangach yn gysylltiedig gydag agenda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y cynnydd mewn costau byw yn ogystal â phandemig Covid-19 gael effeithiau posibl ar brisiau tai yn Sir Fynwy. Nodir yn y graff y bu gostyngiad mewn prisiau tai yn ail chwarter 2020. Mae hyn yn dechrau'r cyfnod clo oherwydd Covid-19 yn chwarter cyntaf y flwyddyn honno. Ers hynny, bu adferiad mewn prisiau tai ac maent wedi parhau i godi'n gyson dros chwarteri eraill y cyfnod monitro. Bydd unrhyw effeithiau o'r fath yn parhau i gael eu hystyried mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol a thrwy broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.




Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai y Deyrnas Unedig, y Gofrestrfa Tir (Gorffennaf 2022)

## Crynodeb

3.23 Fel y manylir uchod, daeth cynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol diwygiedig/newydd i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, a gall rhai ohonynt fod â goblygiadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ac ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn y dyfodol. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol yn parhau i roi diweddariad ar ddeunydd cyd-destun perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

# 4 Proses Fonitro y Cynllun Datblygu Lleol

**4 Proses Fonitro y Cynllun Datblygu Lleol**

**Sut caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro?**

4.1 Mae Adran 5 yn rhoi dadansoddiad manwl o effeithlonrwydd fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol wrth gyflawni'r nodau/deilliannau polisi a'r targedau a ddynodwyd, ynghyd ag argymhellion priodol ar gyfer gweithredu pellach. Rhoddir ystyriaeth hefyd i unrhyw faterion cyd-destun am bolisïau penodol a gododd dros y cyfnod monitro a fedrai effeithio ar weithrediad polisi. Yn gydnaws gyda fframwaith fonitro y Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad ei grwpio yn ôl polisïau strategol y Cynllun a chaiff ei strwythuro fel sy'n dilyn:

| | |
|---|---|
| **Nodau/Deilliannau Monitro** | Mae'r nod/deilliant monitro yn dynodi yr hyn y mae pob polisi strategol yn ceisio ei gyflawni. Caiff amcanion sy'n cefnogi hynny, rheoli datblygu a pholisïau dyrannu safleoedd hefyd eu gosod i arddangos y cysylltiadau rhwng y polisïau. |
| **Gwybodaeth am y cyd-destun** | Caiff gwybodaeth arwyddocaol ar y cyd-destun ei chyhoeddi dros y cyfnod monitro ei amlinellu lle'n berthnasol i bolisi strategol neilltuol. Bydd hyn yn galluogi'r Adroddiad Monitro Blynyddol i benderfynu os yw newidiadau cyd-destun wedi effeithio ar berfformiad polisi. Gall hyn gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, cynlluniau, polisïau neu strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol a fedrai effeithio ar gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol tebyg i amodau economaidd. Mae unrhyw newidiadau o'r fath y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Dangosyddion, targedau a sbardunau** | Caiff perfformiad polisi a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro yng nghyswllt y dangosyddion a thargedau/sbardunau perthnasol ar gyfer ymchwiliad pellach ei nodi ar gyfer pob polisi strategol.<br><br>Cafodd y targedau a sbardunau ar gyfer rhai dangosyddion eu his-rannu i alluogi monitro'r dangosyddion hyn yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion yn ymwneud â'r polisïau strategol dilynol:<br>• S1 Strategaeth Ofodol<br>• S3 Safleoedd Tai Strategol<br>• S4 Tai Fforddiadwy<br>• S6 Manwerthu<br>• S8/S9 Menter ac Economi/Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth<br>Mae cyfanswm nifer y targedau a sbardunau yn y fframwaith monitro wedi cynyddu'n ddilynol.<br><br>Lle'n berthnasol caiff data dangosydd a gofnodir mewn |

| | |
|---|---|
| | Adroddiadau Monitro Blynyddol ei roi yn y tablau. Rhoddir cod lliw ar gyfer data o'r fath (h.y. coch, oren, gwyrdd) i'w gwneud yn rhwydd adnabod tueddiadau. |

| | |
|---|---|
| **Dadansoddiad** | Yng nghyswllt y dangosyddion, targedau perthnasol, sbardunau a deilliannau monitro, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu os yw polisïau strategol y Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys adnabod ac ymchwiliad pellach ar unrhyw bolisi sy'n methu cyrraedd ei darged a/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbardun. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith fod polisi yn cyrraedd ei lefel sbardun yn awtomatig yn golygu fod y polisi yn methu. Bydd y dadansoddiad yn ystyried os y gallai perfformiad o'r fath fod oherwydd amgylchiadau allanol neu os y gellid cyfiawnhau hynny yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol.<br><br>Mae'r dadansoddiad yn eithrio'r targedau dangosyddion hynny heb unrhyw geisiadau cynllunio neu gwblhau i asesu yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn gyfanswm o 2 yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. |
| **Argymhellion** | Gan roi ystyriaeth i'r dadansoddiad polisi, rhoddir argymhellion priodol yn cynnwys datganiad o unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol sydd eu hangen. Os canfyddir fod unrhyw bolisïau yn methu, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn gosod argymhellion clir ar beth, os unrhyw beth, sydd angen ei wneud i drin hyn.<br><br>Bydd ystyried y Cynllun Datblygu Lleol ar yr holl wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod monitro yn galluogi'r Cyngor i benderfynu os oes angen adolygiad o'r Cynllun. |

**Graddiad Goleuadau Traffig Perfformiad Polisi**

4.2 Caiff graddiad 'goleuadau traffig' ei gynnwys ar gyfer dangosyddion perthnasol fel sy'n dilyn fel cymorth gweledol i fonitro effeithlonrwydd polisïau strategol y Cyngor ac i roi trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi:

| | |
|---|---|
| (gwyrdd) | Targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni |
| (oren) | Nid yw targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithredu'r polisi |

| | |
|---|---|
| | Nid yw targedau polisi/deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd gyda phryderon dilynol am weithrediad y polisi |

| | |
|---|---|
| | Ni fedrid dod i unrhyw gasgliad oherwydd data cyfyngedig neu nad oedd unrhyw ddata perthnasol yn ystod y cyfnod monitro |

*Caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun

**Dangosyddion Newydd**

4.3 Mewn achosion lle methodd y Cyngor fonitro dangosydd neu lle cafodd dangosydd ei ddisodli, rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a, lle'n briodol, dynodir dangosydd arall. Gall hefyd fod achosion lle bydd angen diwygio'r dangosydd, er enghraifft, i wella eglurdeb y dangosydd neu ei ailalinio gyda'r setiau data perthnasol. Mewn achosion o'r fath rhoddir esboniad yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol a chaiff y dangosydd ei ddiwygio fel sy'n addas.

**Sbardunau ar gyfer Adolygu'r Cynllun**

4.4 Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddechrau adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol bob pedair blynedd. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai'r amgylchiadau eithriadol olygu fod angen adolygu'r cynllun yn gynnar:

- Newid sylweddol mewn amodau allanol
- Newid sylweddol mewn polisi neu deddfwriaeth genedlaethol
- Newid sylweddol mewn amgylchiadau lleol e.e. cau safle cyflogaeth sylweddol sy'n
- gwanhau'r economi lleol
- Newid sylweddol mewn pwysau neu anghenion datblygu a strategaethau buddsoddi buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat mawr
- Pryderon sylweddol am ganlyniadau'r Adroddiad Monitro blynyddol yn nhermau effeithlonrwydd/gweithredu polisi a chyflenwi safleoedd.

4.5 Rhoddir ystyriaeth i'r holl faterion hyn wrth benderfynu os oes angen adolygiad llawn neu rannol o'r Cynllun.

4.6 Fel y manylir ym mharagraffau 2.16-2.17, dechreuodd adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ac y dylai hyn fod ar wedd gweithdrefn ddiwygio llawn, h.y. Cynllun Datblygu Lleol newydd.

**Fframwaith Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

4.7 Mae'r Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar amcanion monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn dynodi 17 amcan a 62 dangosydd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff hyn ei nodi yn Adran 6 yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

# 5 Monitro’r Cynllun  Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi

**5. Monitro’r Cynllun Datblygu Lleol – Dadansoddiad Polisi**

5.1 Mae’r adran hon yn rhoi asesiad manwl o p’un a yw polisïau strategol y Cynllun a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn gweithredu fel y’u bwriadwyd ac os yw amcanion a strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Caiff argymhellion addas eu rhoi wedyn, ynghyd â’r camau gweithredu angenrheidiol i drin unrhyw broblemau gweithredu polisi a ddynodwyd drwy’r broses monitro. Yn gydnaws gyda’r Cynllun Datblygu Lleol, caiff y dadansoddiad ei roi yn nhrefn y polisïau strategol.

## Strategaeth Ofodol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Datblygiadau tai newydd i gael eu dosbarthu yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun Datblygu Lleol |
| **Polisi Strategol:** | S1/S2 Dosbarthiad Gofodol Darpariaeth Tai Newydd |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3 a 4 |

**Newidiadau yn y Cyd-destun**
Nid oes unrhyw newidiadau cyd-destun ar gyfer y cyfnod hwn.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| Cyfran datblygiadau tai newydd a ddarparwyd yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1/hierarchaeth aneddiadau fel y'i nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb â'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2: | Nifer y tai a gaiff eu cwblhau +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y tablau ym Mholisi S2 mewn unrhyw 1 flwyddyn | **Anheddau a gafodd eu cwblhau** |
| | **a) Prif drefi 41%**<br><br>*(2014-15: 27%)*<br>*(2015-16: 40.2%)*<br>*(2016-17: 38.2%)*<br>*(2017-18: 71.3%)*<br>*(2018-19: 60.3%)*<br>*(2019-20: 60.11%)*<br>*(2020-21: 54.2%)* | | **43.5%** |
| | **b) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br><br>*(2014-15: 43%)*<br>*(2015-16: 8.1%)*<br>*(2016-17: 19.3%)*<br>*(2017-18: 5.4%)*<br>*(2018-19: 16.9%)*<br>*(2019-20: 24.43%)*<br>*(2020-2021: 32.7%)* | | **45.98%** |
| | **c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br><br>*(2014-15: 6%)* | | **5.26%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2015-16: 37.2%)*<br>*(2016-17: 21.4%)*<br>*(2017-18: 12.2%)*<br>*(2018-19: 16.7%)*<br>*(2019-20: 3.65%)*<br>*(2020-21: 2.6%)* | | |
| | **d) Gwledig Cyffredinol 16%**<br>*(2014-15: 24%)*<br>*(2015-16: 14.5%)*<br>*(2016-17: 21%)*<br>*(2017-18: 11.1%)*<br>*(2018-19: 6.1%)*<br>*(2019-20: 11.79%)*<br>*(2020-21: 10.5%)* | | **5.26%** |

**Dadansoddiad – Anheddau a gafodd eu cwblhau**

Cofnodwyd y cafodd cyfanswm o 361 annedd eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro hwn, gyda 326 ohonynt yn gartrefi marchnad a 35 yn gartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn cymharu gyda chyfanswm o 419 annedd a gafodd eu cwblhau yng nghyfnod monitro 2020-2021 a 356 annedd a gafodd eu cwblhau yng nghyfnod monitro 2019-2020. Caiff dadansoddiad pellach ar y gyfradd cwblhau gyffredinol ei nodi yng nghyswllt Polisi S3.

Roedd cydberthynas glir o effaith Covid-19 ar y gyfradd cwblhau a'r safleoedd newydd a ddaeth ymlaen yn y cyfnod monitro blaenorol oherwydd cyfnodau clo a chau llawer o safleoedd adeiladu. Sylweddolir y bydd yn cymryd peth amser i'r diwydiant datblygu sicrhau adferiad o effeithiau Covid-19. Mae problemau ansawdd dŵr yng nghyswllt ffosffadau yn effeithio ar yr Afon Gwy a'r Afon Wysg, gydag angen i ddatblygiadau ddangos gwella neu niwtraliaeth. Mae datrysiadau'n cael eu hymchwilio ond nid oes unrhyw ddatrysiad strategol ar gyfer ffosffadau ar hyn o bryd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar nifer y safleoedd tai sy'n dod drwy'r system cynllunio. Mae hefyd nifer fawr o ffactorau economaidd ehangach sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth tai uwchben a thu hwnt i'r system cynllunio.

**a) Prif Drefi**

O'r 361 annedd a gofnodwyd fel cael eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, roedd 43.5% (157 annedd) ym mhrif drefi'r Sir. Mae hyn ychydig yn uwch na'r targed a ddynodwyd o 41% ond o fewn ystod derbynioldeb 10%. Yng Nghas-gwent yr oedd y nifer fwyaf a gafodd eu cwblhau ar 96 uned neu 61% o'r nifer a gwblhawyd yn y prif drefi. Roedd 37% yn y Fenni gyda chwblhau 58 a dim ond 2% yn Nhrefynwy gyda chwblhau 3.

O'r anheddau a gwblhawyd yng Nghas-gwent, roedd y mwyafrif yn ymwneud â safle a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn Fairfield Mabey (SAH3) lle cafodd 88 annedd eu cwblhau, cafodd 4 arall eu cwblhau mewn safle ar hap fawr arall yn Osborn International. Roedd gweddill yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd bach ***. Yn y Fenni cafodd 51 annedd eu cwblhau ar safle Deri Farm (SAH1) a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, gyda 6 arall wedi eu cwblhau drwy addasu hen gapel Pen-y-Fal. Roedd yr annedd olaf a gwblhawyd ar safle bach ***. O'r anheddau a gwblhawyd yn Nhrefynwy, roedd un ar safle bach*** gyda'r ddwy arall yn adeiladau wedi eu haddasu. Mae effaith y mater ffosffadau ar ddatblygu yn Nhrefynwy yn achos consyrn.

Roedd yr holl anheddau a gwblhawyd yn y prif drefi yn gartrefi marchnad.

Mae canran yr anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro sef 43.5% yn is nag yn y pedwar cyfnod monitro blaenorol (2020 – 21, 54.2%, 2019 – 20, 60.11%, 2018-19, 60.3% a 2017-18, 71.3%). Serch hynny mae'n parhau'n uwch nag yn y tri chyfnod monitro cyntaf (2016 – 2017, 38.2%, 2015 – 2016, 40.2% a 2014 – 2015, 27%). Ystyrir fod y tueddiadau hyn yn dangos faint o amser a gymerir i ddyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol symud ymlaen i ddarparu anheddau. Caiff hyn hefyd ei adlewyrchu gan gyfraniad dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol i ffigurau cwblhau y prif drefi. Roedd dau safle a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrif am 88.5% o'r nifer a gafodd eu cwblhau yn y prif drefi, gan ddarparu 139 annedd rhyngddynt (Fairfield Mabey a Deri Farm). Caiff manylion pellach ar gynnydd y dyraniadau hyn a dyraniadau eraill y Cynllun Datblygu Lleol eu nodi yn y dadansoddiad o safleoedd tai strategol (Polisi S3).

Oherwydd yr uchod, er na ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cyflenwi tai newydd yn y Prif Drefi, gyda'r rhan fwyaf o'r safleoedd strategol a ddyrannwyd naill ai wedi eu cwblhau neu wrthi'n cael eu hadeiladu, cydnabyddir fod ffosffadau yn effeithio ar gyflenwi cartrefi newydd yn Nhrefynwy.

Dros y tymor hirach fel y caiff dyraniadau Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol eu hadeiladu, bydd nifer y tai a gaiff eu cwblhau yn y Prif Drefi yn gostwng. Fodd bynnag. mae'n ymddangos y bydd safle Fairfield Mabey, Cas-gwent yn darparu cyflenwad cyson o dai yn y Prif Drefi dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, er fod pryderon am ddatblygiadau pellach yn y Fenni a Threfynwy oherwydd y broblem gyfredol gyda ffosffadau.

**b) Aneddiadau Glannau Hafren**

Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn cyfrif am 46% (166 uned) o'r anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro, gyda 133 ohonynt yn gartrefi cyffredinol ar y farchnad a 33 yn gartrefi fforddiadwy. Mae hyn yn uwch na'r targed a ddynodwyd o 33% ac yn uwch na'r ystod derbynioldeb 10%. Cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyflawni yn ddilynol. Cofnododd Cam 1 dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol yn Rockfield Farm, Gwndy (SAH5) 49 annedd yn cyfrif am fwyafrif yr anheddau a gwblhawyd (29.5%), gyda 12 ohonynt yn rhai fforddiadwy. Roedd Melin Bapur Sudbrook (SAH7) yn cyfrif am 24.7% arall o'r anheddau a gwblhawyd a chofnodwyd cwblhau 41. Roedd safle Heol yr Eglwys, Cil-y-coed (a gymeradwywyd drwy'r polisi safleoedd heb eu dyrannu) yn cyfrif am 44 annedd arall a gwblhawyd (26.5%), gyda 21 ohonynt yn anheddau fforddiadwy. Cofnododd safle ar hap Hen Iard Longau, Sudbrook*** (cwblhau 24, 14%, hefyd nifer resymol o gwblhau. Roedd yr 8 annedd arall a gwblhawyd yn 6 annedd ar safleoedd bach a dau gynllun newid

| |
|---|
| defnydd sengl.<br><br>Disgwylir i Gam 1 safle Rockfield Farm, Gwndy (SAH5), safle hen Felin Bapur Sudbrook (SAH7) a safle 'heb ei ddyrannu' yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed symud ymlaen ymhellach yn y cyfnod monitro nesaf a byddant yn parhau i gyfrannu'n sylweddol at yr anheddau a gaiff eu gwblhau yn y rhan hon o'r Sir. Cymeradwywyd cais Materion a Gadwyd yn y cyfnod monitro blaenorol ar Heol Crug, Porthysgewin (SAH2) ond nid yw wedi dechrau eto. Rhagwelir y caiff yr anheddau cyntaf eu cwblhau yn 2023/24. Yn yr un modd, er y bu cynnydd yn arafach na'r disgwyl ar ddyraniad tai strategol SAH6 – Tir yn Vinegar Hill, cyflwynwyd cais cynllunio am 155 uned yn y cyfnod monitro diwethaf a chafodd caniatâd cynllunio ei roi yn amodol ar lofnodi Cytundeb A106 ar 16 Mehefin 2022 a chaiff ei gofnodi fel caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Rhagwelir y caiff yr anheddau cyntaf eu cwblhau ar y safle yn 223/24. Caiff manylion pellach ar gynnydd y rhain a dyraniadau eraill y Cynllun Datblygu Lleol ei roi yn y dadansoddiad o'r safleoedd tai strategol (Polisi S3).<br><br>Ystyrir bod rhagori ar y targed o fewn y dangosydd hwn yn dangos problem gydag amseru/cymalau gyda chyflenwi strategaeth ofodol y Cynllun, yn hytrach na phroblem gydag effeithlonrwydd y strategaeth ei hun. Er fod cyfran uwch o gyfanswm wedi cwblhau na'r cyfnodau monitro cynharach, lle'r oedd yn is na'r targed o 33%, mae rhagori ar y targed yn y cyfnod monitro cyfredol yn dangos nifer o ddyraniadau mawr yn y Cynllun Datblygu Lleol yn darparu cartrefi. O'r herwydd, ni ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau yn ardal Glannau Hafren. Cydnabyddir mai'r safleoedd yn Rockfield Farm, Gwndy, Melin Bapur Sudbrook, Heol yr Eglwys, Cil-y-coed a safle Hen Iard Longau Sudbrook oedd mwyafrif a gafodd eu cwblhau, gyda'r cyfan yn cydymffurfio gyda'r strategaeth ofodol. Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun. |
| **c) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 19 annedd (17 cartref marchnad, 2 cartref fforddiadwy) yn ystod y cyfnod monitro o fewn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, yn cyfrif am 5.26% o'r holl anheddau a gwblhawyd yn y Sir. Mae hyn yn is na'r targed a ddynodwyd o 10%, ond o fewn ystod hyblygrwydd +/- 10%. Felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>Roedd mwyafrif yr anheddau a gafodd eu cwblhau y safle a ddyrannwyd yn Cwrt Burrium, Brynbuga (SAH10(i)) ac mae'n awr wedi ei orffen gyda 7 annedd (37%) yn cael eu darparu yn y cyfnod monitro, dau ohonynt yn gartrefi fforddiadwy. Cafodd 5 annedd pellach eu cwblhau ar safle bach*** ym Mrynbuga yng Ngwesty'r Three Salmons. Arweiniodd diwygiad heb fod yn sylweddol at brif gynllun ar hap** yn Llan-ffwyst at gwblhau 6 annedd ychwanegol. Mae'r un annedd sydd ar ôl yn ysgubor a gafodd ei haddasu.<br><br>Mae'r gyfradd cwblhau yn uwch nag yn y ddau gyfnod monitro blaenorol (2020/21, 2.6% a 2019/20 3.65%). Ystyrir bod hyn yn dangos cwblhau dyraniad safle Brynbuga SAH10 – Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn ystod y cyfnod monitro. Nid yw'r gwaith ar safle SAH10(iii) – Tir yn Heol Cas-gwent, Rhaglan wedi dechrau ato, cais Materion a Gadwyd a gafodd serch hynny ei gyflwyno dros y cyfnod monitro. Felly gwnaed cynnydd ar y dyraniad hwn.<br>Oherwydd y cynnydd a wnaethpwyd ar weddill y dyraniadau yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd, ni ystyrir fod unrhyw broblemau sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y |

Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau, a gyflenwyd o'r haen yma o'r hierarchaeth aneddiadau. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.

**d) Gwledig Cyffredinol**

Cofnodwyd cwblhau cyfanswm o 19 annedd yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd Gwledig Cyffredinol y Sir, sy'n cynnwys y Prif Bentrefi a'r Mân Bentrefi a restrir ym Mholisi S1, yn ogystal â chartrefi yng nghefn gwlad. Mae'r anheddau hyn yn cyfrif am 5.26% o'r cyfanswm a gwblhawyd yn y Sir o gymharu gyda'r targed a ddynodwyd o 16%. Mae hyn ychydig tu allan i'r lwfans hyblygrwydd +/- 10% ac felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.

Mae'r holl anheddau a gwblhawyd yn yr ardaloedd Gwledig Cyffredinol yn gartrefi marchnad.

Roedd pedair annedd (21%) yn y Prif Bentrefi, gyda dwy annedd sengl, un newid defnydd ac adferiad.

Cyfrannodd Mân Bentrefi hefyd gyda phedair annedd (21%), un annedd sengl ac addasu tair ysgubor.

Roedd yr 11 arall (58%) yn anheddau a gyflenwyd yng nghefn gwlad. Roedd y mwyafrif ohonynt (10 o'r unedau) yn ymwneud ag addasu neu newid defnydd adeilad presennol, gyda'r uned ychwanegol yn annedd gweithwyr gwledig.

Ni chofnodwyd cwblhau unrhyw anheddau pellach ar safleoedd SAH11 – Prif Bentrefi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Fodd bynnag, mae SA11(ii) – Tir ger Well Lane, Devauden (15 annedd) a safle Carpenter's Arms, Llanisien (SAH11(ix)(a) (8 annedd) yn cael eu hadeiladu ac yn dod rhagddynt yn dda a disgwylir y byddant yn cyfrannu at gwblhau yn yr haen yma o'r hierarchaeth aneddiadau yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r gyfradd cwblhau ychydig yn is na'r hyn a gyflawnwyd dros y cyfnodau monitro blaenorol, gyda chyfraddau'n amrywio'n flaenorol o 6.1% i 24%, sydd i gyd serch hynny wedi bod o fewn lwfans hyblygrwydd +/- 10%. Er bod ffigur eleni o 5.26% yn is na'r lwfans hyblygrwydd o 10%, ni ystyrir fod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt cwblhau anheddau yn yr ardaloedd Gwledig Cyffredinol fel y'i nodir ym Mholisi S1 yn neilltuol gan y bydd cyflenwi'r safleoedd a ddyrannwyd yn Devauden a Llanisien yn sicrhau cwblhau yn y cyfnod monitro nesaf. Drwy gyflenwi'r safleoedd hyn, ynghyd â chyfleoedd parhaus ar gyfer addasu safleoedd bach a datblygiad mewnlenwi, rhagwelir y bydd y gyfran cwblhau yn yr aneddiadau hyn yn nes at y ffigur targed o 16% yn y cyfnod monitro nesaf. Er y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater yn agos er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros gyfnod y Cynllun.

| Argymhellion |
| --- |
| a) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro, fodd bynnag, gweler sylwadau yng nghyswllt safleoedd tai strategol a ddyrannwyd (Polisi S3). |
| b) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| c) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| d) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Caiff nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau ei fonitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth ofodol
** Safle ar hap fawr >10 annedd
*** Safle ar hap fach <10 annedd

| **Dangosydd** | **Targed** *(Perfformiad yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | **Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach** | **Perfformiad 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021** |
|---|---|---|---|
| Cyfran datblygiadau tai newydd a ganiateir yn unol â strategaeth ofodol Polisi S1/hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2* | Dylai lleoliad datblygiadau preswyl newydd gyfateb i'r gofynion a nodir yn y Tablau i Bolisi S2: | Nifer caniatâd tai yn +/- 10% o'r gofynion a nodir yn y tablau i Bolisi S2 mewn unrhyw un flwyddyn | **Anheddau a gafodd ganiatâd** |
| | **e) Prif drefi 41%**<br>*(2014-15: 81%)*<br>*(2015-16: 31%)*<br>*(2016-17: 30.2%)*<br>*(2017-18: 59.61%)*<br>*(2018-19: 29.6%)*<br>*(2019-20: 13.5%)*<br>*(2020-21: 54.2%)* | | **23.1%** |
| | **f) Aneddiadau Glannau Hafren 33%**<br>*(2014-15: 11%)*<br>*(2015-16: 10%)*<br>*(2016-17: 54.1%)*<br>*(2017-18: 24.15%)*<br>*(2019 - 20: 61.8%)*<br>*(2020-21: 32.7%)* | | **23.1%** |
| | **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd 10%**<br>*(2014-15: 1%)*<br>*(2015-16: 37%)*<br>*(2016-17: 5.2%)*<br>*(2017-18: 10.26%)*<br>*(2018-19: 8.0%)*<br>*(2019-20: 2.4%)*<br>*(2020-21: 2.6%)* | | 5.1% |
| | **h) Gwledig Cyffredinol 16%** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2014-15: 7%)*<br>*(2015-16: 22%)*<br>*(2016-17: 10.5%)*<br>*(2017-18: 5.98%)*<br>*(2018-19: 9.2%)*<br>*(2019-20: 22.3%)*<br>*(2020-21: 10.5%)* | | **48.7%** |
| **Dadansoddiad – Caniatâd Anheddau** | | | |
| Roedd caniatâd anheddau yn Sir Fynwy yn ystod 2021-22 yn is nag a gofnodwyd yn unrhyw un o'r cyfnodau monitro blaenorol ar 39 annedd. Yr isaf yn eu plith oedd 86 annedd yng nghyfnod monitro 202-21 a 212 annedd yn 2015-16. Mae hyn yn cymharu â'r uchaf lle cyrhaeddodd 1,238 yn 2017-2018. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau, un ohonynt oedd bod caniatâd cynllunio eisoes gan y mwyafrif o'r Safleoedd Strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n debyg bod hefyd gysylltiad rhwng y gostyngiad mewn caniatâd anheddau yn y cyfnod monitro presennol gydag effaith sylweddol lefel ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy ar gyflenwi cyfredol datblygiad. Mae problemau ansawdd dŵr yn ymwneud â ffosffadau yn effeithio ar yr Afon Gwy a'r Afon Wysg, gyda gofyn i ddatblygiadau arddangos gwella neu niwtraliaeth. Caiff datrysiadau eu hymchwilio ond nid oes datrysiad strategol ar gyfer ffosffadau ar hyn o bryd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar nifer y cartrefi sy'n dod drwy'r system cynllunio. Gall ffactorau eraill hefyd fod wedi arwain at ostwng niferoedd caniatâd ar gyfer anheddau newydd, yn cynnwys effaith parhaus pandemig diweddar Covid-19 ar y diwydiant datblygu.<br><br>Roedd yr holl anheddau a ganiatawyd yng nghyfnod monitro 2021-21 yn ymwneud â chartrefi marchnad.<br><br>**e) Prif Drefi**<br><br>O'r 39 annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro, roedd 23.1% (9 uned) ym Mhrif Drefi y Sir sef y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent. Mae hyn yn is na'r lwfans hyblygrwydd +/10% o'r targed a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (41%) ac felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. | | | |

| |
|---|
| Roedd y caniatâd yn cynnwys 7 cais, i gyd wedi eu dosbarthu fel safleoedd bach, yn cyfrannu at lwfans safleoedd bach y Cynllun O'r rhain, roedd 4 cais yn cyfeirio at newid defnydd ac addasiadau am 6 uned. Roedd y 3 cais arall yn anheddau adeilad newydd, gan ddarparu cyfanswm o 3 uned. Felly roedd datblygiadau adeiladu newydd yn gyfanswm o 33% ac addasiadau/newid defnydd yn 67% o'r caniatâd yn y Prif Drefi.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o'r caniatâd anheddau a gofnodwyd yng Nghas-gwent ar 44% (4 cartref) gyda'r Fenni yn 33% (3 cartref) a Threfynwy 22% (2 gartref).<br><br>Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn ystod y cyfnod monitro presennol yn sylweddol is na'r cyfnodau monitro blaenorol a'r isaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae canran cyfanswm caniatâd yn y Prif Drefi ar draws y Sir hefyd wedi gostwng i 23.1% o gymharu gyda'r cyfnod monitro blaenorol (54.2%).<br><br>Fel y rhagwelwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol cynharach, mae cyfran caniatâd yn y prif drefi wedi gostwng oherwydd bod y Safleoedd Tai Strategol a ddyrannwyd yn y Fenni, Trefynwy a Chas-gwent wedi cael caniatâd cynllunio mewn cyfnodau monitro blaenorol. Mae problemau gyda ffosffadau ac ansawdd dŵr yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy hefyd yn effeithio ar gyflenwi cartrefi ym mhrif drefi y Fenni a Threfynwy.<br><br>Oherwydd hyn ni ystyrir bod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd anheddau a roddwyd yn y Prif Drefi. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.<br><br>Rhoddir diweddariad ar gynnydd safleoedd a ddyrannwyd yn y Prif Drefi yn y dadansoddiad o'r polisi safleoedd strategol (Polisi S3). |
| **f) Aneddiadau Glannau Hafren**<br>Roedd 9 o'r 39 annedd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y cyfnod monitro mewn aneddiadau yng Nglannau Hafren, yn gyfartal â 23.1%. Mae hyn yn is na'r targed a ddynodwyd ar gyfer yr ardal hon (33%) ond cael a chael o fewn yr ystod hyblygrwydd +/- 10%. Roedd yr holl 9 uned a gafodd ganiatâd yng Nghil-y-coed. Nid oedd unrhyw aneddiad arall yng Nglannau Hafren wedi cael caniatâd ar gyfer unedau preswyl yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Safleoedd bach oedd y cyfan o'r anheddau a gafodd ganiatâd yng Nglannau Hafren. Roedd 3 caniatâd yn anheddau adeiladu newydd yn gyfanswm o 4 uned a 3 caniatâd yn ymwneud â newid defnydd i breswyl yn cyfrif am 5 annedd.<br><br>Mae'r gyfran ddatblygu a ganiateir yn aneddiadau Glannau Hafren yn uwch nag yn y cyfnod monitro blaenorol (15.1%). |

| |
|---|
| Mae un dyraniad tai strategol pellach yng Nglannau Hafren na chafodd ei gofnodi hyd yma – Tir yn Vinegar Hill, Gwndy. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar 16 Mehefin 2022 felly caiff ei gofnodi fel caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf ac mae'n debygol y bydd yn arwain at gyfran uwch o ganiatâd yn ardal Glannau Hafren yn 2022-23 oherwydd fod yr holl safleoedd tai strategol eraill eisoes â budd caniatâd cynllunio. Rhoddir diweddariad ar gynnydd safleoedd a ddyrannwyd yng Nglannau Hafren a'r Sir yn y dadansoddiad o'r polisi Safleoedd Strategol (Polisi S3).<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y Cynllun.. |
| **g) Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>Roedd 2 uned (5.1%) o'r holl unedau a gafodd ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro yn Aneddiadau Gwledig Eilaidd y Sir. Mae hyn o fewn ystod dangosydd 10% targed y Cynllun Datblygu Lleol o 10%, felly ni chyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>Roedd y ddwy annedd yn adeiladau wedi eu haddasu, un yn Rhaglan ac un ym Mrynbuga.<br><br>Mae'r gyfran o ganiatawyd o fewn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn alinio'n fras gyda'r ffigur targed o 10%. Cafodd pob un o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd ganiatâd, SAH10(ii) Tir i dde Lon Ysgol, Penperllenni a SAH10(i) Cwrt Burrium, Brynbuga ill dau wedi eu cwblhau a rhoddwyd caniatâd amlinellol ar SAH10(iii) Tir yn safle Heol Cas-gwent, Rhaglan. Er fod y gyfran o'r holl anheddau a ganiatawyd yn fras debyg i'r ffigur targed, dylid nodi fod problemau ffosffadau ac ansawdd dŵr yn nalgylch yr Afon Wysg hefyd yn effeithio ar gyflenwi cartrefi yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd.<br><br>Oherwydd yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem sylweddol gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd am anheddau a roddwyd yn yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth gofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |
| **h) Gwledig Cyffredinol**<br>Roedd 19 (48.7%) o bob annedd a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn ardaloedd gwledig y Sir. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r targed o 16% a ddynodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol. Felly, cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach.<br><br>Mae'r cynnydd cyffredinol yn y gyfran yn fwy o adlewyrchiad o ostyngiad yn y nifer o anheddau a gafodd ganiatâd yn y Prif Drefi nag unrhyw gynnydd gwirioneddol yn yr aneddiadau Gwledig Cyffredinol. Mae'n debyg mai ffactorau eraill tebyg i effaith barhaus Covid-19 a lefelau ffosffadau afonydd, wedi'i gyfuno gyda mwyafrif y Safleoedd Strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, yw'r achosion mwyaf tebygol mewn cynnydd yn y gyfran o'r nifer o anheddau gyda chaniatâd yn yr ardaloedd gwledig.<br><br>Roedd mwyafrif y canitâd mewn ardaloedd gwledig yn ymwneud â cheisiadau addasu/newid defnydd (15 annedd) mewn amrywiaeth o aneddiadau gwledig ledled Sir Fynwy. Roedd dau ganiatâd arall yn ymwneud ag adeiladu newydd (un mewn Prif Bentref a'r llall yn fudd net o ddymchwel un annedd yn ddwy annedd arall) a'r ddau yn ymwneud |

| |
|---|
| ag adeiladau oedd wedi eu his-rannu.<br><br>Er y cafodd y sbardun ei gyrraedd, o gofio am yr uchod, ni ystyrir fod unrhyw broblem gyda gweithredu strategaeth ofodol y Cynllun yng nghyswllt caniatâd anheddau a roddwyd yn aneddiadau gwledig y Sir. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y strategaeth ofodol dros weddill cyfnod y cynllun. |

| **Argymhelliad** |
|---|
| e) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| f) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| g) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| h) Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

**Caiff nifer yr anheddau a gafodd eu cwblhau a nifer y caniatâd a roddwyd eu monitro er mwyn cael darlun cynhwysfawr o weithrediad y strategaeth ofodol

## Darpariaeth Tai

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro** | Darparu 4,500 uned annedd (yn cynnwys 960 uned annedd fforddiadwy) yn y Sir dros gyfnod y cynllun. |
| **Polisi Strategol:** | S2 Darpariaeth Tai |
| **Amcanion Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3 a 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | H1-H9, SAH1-SAH11 |

**Newidiadau Cyd-destun**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn cwmpasu cyfnod 10-mlynedd y cynllun 2011-2021, gyda gwerth 10 mlynedd o gyflenwi tai yn cael ei fonitro yn erbyn gofyniad tai 10 mlynedd o 4,500 uned a gyrhaeddwyd ym mis Mawrth 2021. Fodd bynnag, fel y nodir yn llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2020, yn egluro'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yn cyfeirio at ddyddiau gorffen y Cynllun Lleol, bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau i fod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio nes y caiff ei ddisodli gan Gynllun Datblygu Lleol pellach.

Fel canlyniad i gyflwyno targedau ansawdd dŵr yn gysylltiedig gyda dalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, mae angen i geisiadau cynllunio a gyflwynwyd yn y dalgylchoedd hyn arddangos niwtraliaeth neu wella ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad at y corff dŵr. Mae hyn yn parhau i fod â goblygiadau sylweddol ar gynigion datblygu o fewn y dalgylchoedd afon yr effeithiwyd arnynt. Fodd bynnag, gwneir cynnydd da wrth drin problem ffosffadau a datrysiadau a ymchwiliwyd i hwyluso parhau i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer anheddau ychwanegol marchnad gyffredinol a fforddiadwy a adeiladwyd dros gyfnod y cynllun * | Hyd at 488 annedd i'w hadeiladu bob blwyddyn 2013-2021 *(2014-15: 205)* *(2015-16: 234)* *(2016-17: 238)* *(2017-18: 279)* *(2018-19: 443)* *(2019-20: 356)* *(2020-21: 419)* | 10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am ddwy flynedd yn olynol | **361** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Lefel flynyddol tai a gwblhawyd wedi ei fonitro ar y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol** | Gwahaniaeth rhwng gwir nifer cwblhau blynyddol a'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol *(2014-15: -245 uned (-54.4%))* *(2015-16: -216 uned (-48%))* *(2016-17: -212 (-47.1%))* *(2017-18: -171 uned (-38%))* *(2018-19: -7 uned (-1.6%))* *(2019-20: -94 uned (-20.9%))* *(2020-21: -31 uned (-6.9%)* | Tanygyflawni ar nifer cwblhau blynyddol ar ddwy flynedd yn olynol | **-89 uned (-19.8%)** |
| 3. Cyfanswm cronnus nifer y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro ar y gofyniad cronnus** | Gwahaniaeth rhwng nifer cronnus y tai a gwblhawyd a'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronnus *(2014-15: -769 uned (-42.7%))* *(2015-16: -985 uned (-43.8%))* *(2016-17: -1197 (-44.3%))* *(2017-18: -1368 uned (-43.4%))* *(2018-19: -1375 uned (-38.2%))* *(2019-20: -1469 (-36.3%))* *(2020-21: -1500 (-33.3%))* | Tangyflawni ar nifer y tai a gwblhawyd mewn dwy flynedd olynol | **-1,500 (33.3%) wedi'u cofnodi ar gyfer 10 mlynedd o fonitro yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol**<br><br>**Darparwyd 361 pellach yn ystod y cyfnod monitro.** |
| 4. Dwysedd tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd ♦ | Cyflawni'r dwysedd targed a nodir ym mholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH10 | Caniatâd cynllunio a roddwyd nad ydynt yn ateb y dwyseddau hyn | **Dim ceisiadau wedi eu penderfynu yn y cyfnod monitro** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Adolygu Astudiaeth Anghenion Llety a Safleoedd Sipsiwn/Teithwyr i gael eu cwblhau o fewn dwy flynedd o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol | Os dynodir angen safle(oedd) ychwanegol ceisio dyrannu safle addas erbyn y Gwanwyn 2017 | Angen a ddynodwyd heb ei gyflawni erbyn Gwanwyn 2017 | **Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr 2017. Caiff cynnydd ar ddiwallu angen ei drafod isod.** |

**Dadansoddiad**

1. Er i'r dull ar gyfer monitro cyflenwi tai newid yn ystod cyfnod monitro 2019-20, mae'r dangosydd hwn yn dal i gael ei gynnwys gan ei fod yn mesur y nifer a gwblhawyd o gymharu â'r targed ar gyfer cwblhau (488) ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014 yn hytrach na 2011, dechrau cyfnod y Cynllun. Mae'r dangosydd hwn felly'n rhoi ystyriaeth i unrhyw dan/gor gyflawni yn nhair blynedd gyntaf cyfnod y Cynllun cyn ei fabwysiadu.

Adeiladwyd 361 annedd yn ystod y cyfnod monitro (326 marchnad gyffredinol a 35 fforddiadwy).

Roedd 65% o'r holl anheddau a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd (236 uned), yn cynnwys Deri Farm, y Fenni (51), Fairfield Mabey, Cas-gwent (88), Melin Bapur Sudbrook (41), Rockfield Farm, Gwndy (49) a Chwrt Burrium, Brynbuga (7). Roedd safleoedd mawr ar hap yn cyfrif am 80 uned arall (22%) a safleoedd bach am y 45 uned arall (13%). Roedd safle Heol yr Eglwys yng Nghil-y-coed a ganiatawyd drwy bolisi safleoedd heb eu dyrannu yn cyfrif am ychydig dros hanner yr holl anheddau a gwblhawyd gyda 44 uned (55%) a safle'r Hen Iard Longau yn Sudbrook yn cyfrif am 24 cwblhad (30%).

Cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyflawni am yr ail flwyddyn o'r bron gan fod nifer yr anheddau a gwblhawyd wedi bod 10% yn is na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol am dair blynedd yn olynol. Fodd bynnag, bu'r nifer a gafodd eu cwblhau a gofnodwyd yn ail hanner cyfnod monitro'r cynllun yn sylweddol uwch na'r hyn a gyflawnwyd yn ystod hanner cyntaf cyfnod monitro'r cynllun (cwblhau 1,529 yn 2018-2022 o gymharu â chwblhau 956 yn 2014-2018) sy'n adlewyrchu cyflenwi safleoedd strategol y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r ffigurau cyfredol o anheddau a gwblhawyd, ynghyd â'r gyfradd cwblhau o 2,174 annedd a gofnodwyd yn y saith cyfnod monitro ers mabwysiadu (cwblhau 205 yn 2014-2015; cwblhau 234 yn 2015-2016; cwblhau 238 yn 2016-2017; cwblhau 279 yn 2017-18; cwblhau 443 yn 2018-2019; a chwblhau 356 yn 2019-2020; cwblhau 419 yn 2020-2021) yn golygu y cafodd 2,535 annedd eu cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun.

Mae cynnydd safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i gyfrif am y lefel uwch o anheddau a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn o gymharu gyda chyfnodau monitro blaenorol. Disgwylir i hyn barhau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i'r safleoedd gael eu hadeiladu a rhagwelir y bydd cyfradd cwblhau ar safleoedd ar hap yn gostwng. Mae gan y cyfyngiadau ar ddatblygiad yn gysylltiedig â phroblemau ffosffadau ac ansawdd dŵr yn nalgylchoedd yr Afon Gwy a'r Afon Wysg hefyd oblygiadau am gyflenwi parhaus datblygiad yn y Sir. Byddir yn parhau i gadw golwg agos ar gyfraddau cyflenwi, yn neilltuol gan fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd diwedd ei

gyfnod ac fel sylfaen tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd

2&3 Ym mis Mawrth 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau yn y ffordd y caiff darpariaeth tai ei fonitro. Roedd y newidiadau yn dileu'r polisi cyflenwad tir tai pum mlynedd ac yn cyflwyno datganiad polisi yn ei le yn ei gwneud yn glir mai'r trywydd tai, a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, fyddai'r sail ar gyfer monitro cyflenwi'r gofynion tai y cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff y ffordd y dylai hyn gael ei wneud ei osod yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) (Mawrth 2020).

Mae'n ofynnol i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny, yn cynnwys Sir Fynwy, a fabwysiadodd eu Cynllun Datblygu Lleol cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac felly hyd yma heb baratoi trywydd tai, ddefnyddio'r dull gofyniad blynyddol Cyfartalog fel y prif ddangosydd i fesur cyflenwi tai, ac i gynnwys y dull trywydd o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn gyfystyr â 450 annedd y flwyddyn, gofyniad y Cynllun Datblygu Lleol o 4,500 annedd wedi'i rannu gan gyfnod 10 mlynedd y Cynllun. Dyma'r ffigur y caiff cyflenwi anheddau'r Cynllun Datblygu Lleol ei fonitro arno. Daeth cyfnod y Cynllun i ben ar ddiwedd 2021, fodd bynnag yn unol â llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ym mis Medi 2020, yn egluro'r darpariaethau yn Neddf Cynllunio Cymru 2015 yng nghyswllt dyddiadau dod i ben y Cynlluniau Lleol, bydd cynlluniau a fabwysiadwyd cyn 4 Ionawr 2016 yn parhau i fod y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio nes cânt eu disodli gan Gynllun Datblygu Lleol pellach. Ystyrir felly fod parhau i fonitro cyflenwi tai yn y Sir yn ymarfer defnyddiol ac mae'n rhoi data defnyddiol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Mae'r cyntaf o ddangosyddion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn mesur lefel flynyddol cwblhau anheddau o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Dywed y Llawlyfr fod yn rhaid i hyn gael ei gyflwyno'n glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn termau rhifyddol a chanrannol (plws/minws %) ac mai'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod tan-gyflenwi nifer blynyddol yr anheddau a gwblheir ar ddwy flynedd yn olynol. Fel y dangosir yn y tabl islaw, er bod y Cynllun wedi tan gyflawni ym mlynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun, roedd nifer yr anheddau a gwblhawyd yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar yn llawer nes at y gofyniad Blynyddol Cyfartalog – 7 uned (-1.6%) yn 2018/19 -94 uned (-20.9%) yn 2019/20, -31 (-6.9%) yn 2020/21 a -89 (-19.8%). Mae hyn yn bennaf oherwydd pa mor gyflym y daeth y safleoedd strategol ymlaen. Fodd bynnag, mae cyfraddau cwblhau wedi gostwng ymhellach yn y cyfnod monitro hwn gyda 361 o anheddau wedi eu cwblhau. Mae dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn parhau i wneud y cyfraniad mwyaf at gyfraddau cwblhau gyda phob Safle Strategol â chaniatâd cynllunio[8] erbyn hyn. Fodd bynnag, bu gostyngiad amlwg yng nghyfraniad y safleoedd bach gan ostwng i 45 uned eleni o gymharu gyda 85 uned ar gyfartaledd yn y 5 mlynedd flaenorol. Gall hyn fod yn gysylltiedig gyda'r broblem ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Gwy a'r Afon Wysg a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar ddatblygiad.

Fodd bynnag, cafodd y sbardun ar gyfer adolygu'r Cynllun ei gyrraedd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol ac mae'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn mynd rhagddo.

[8] Cafodd SAH6 Vinegar Hill ganiatâd ym mis Mehefin 2022 a chaiff felly ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

## Nifer Flynyddol Anheddau a Gwblhawyd o gymharu â'r Adroddiad Monitro Blynyddol

| | Monitro'n cyfrannu at ofyniad tai 10-mlynedd o 4,500 uned | | | | | | | | | | Cyfnod AMB 2020/2021 | Trywydd 5 mlynedd 2022/23 – 2026/27 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Cynllun Datblygu Lleol | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10* | | | | | | |
| Blwyddyn | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** |
| Gwir nifer safleoedd cronfa tir | 90 | 193 | 118 | 73 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | | |
| Gwir nifer safleoedd dynodedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 89 | 279 | 252 | 217 | 236 | | | | | |
| Gwir nifer safleoedd ar hap | 74 | 55 | 53 | 33 | 135 | 128 | 107 | 80 | 0 | 121 | 80 | | | | | |
| Gwir nifer safleoedd bach | 90 | 94 | 59 | 99 | 99 | 74 | 83 | 84 | 104 | 81 | 45 | | | | | |
| Nifer disgwyliedig safleoedd dyranedig | | | | | | | | | | | | 204 | 250 | 261 | 171 | 87 |
| Nifer disgwyliedig safleoedd ar hap | | | | | | | | | | | | 111 | 127 | 8 | 5 | 0 |
| Nifer disgwyliedig safleoedd bach | | | | | | | | | | | | 79 | 79 | 79 | 79 | 79 |
| **Cyfanswm Gwir Nifer Cwblhau** | **254** | **342** | **230** | **205** | **234** | **238** | **279** | **443** | **356** | **419** | **361** | **394** | **428** | **468** | **255** | **166** |
| Gofyniad Blynyddol Cyfartalog (Seiliedig ar Ofyniad Blynyddol Cyfartalog llinell syth) | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | 450 | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| Nifer cwblhau o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | -196 | -108 | -220 | -245 | -216 | -212 | -171 | -7 | -94 | -31 | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |
| %+/-Nifer cwblhau o gymharu â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | -43.6 | -24.0 | -48.9 | -54.4 | -48.0 | -47.1 | -38.0 | -1.6 | -20.9 | -6.9 | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

*Daeth cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol i ben yn 2020-21 – parhaodd monitro er gwybodaeth.

Mae ail ddangosydd y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn mesur cyfanswm cronnus nifer yr anheddau a gwblhawyd a gaiff ei fonitro ar y gofyniad cronnus (AAR Cronnus), Eto, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn dweud fod yn rhaid cyflwyno hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn termau rhifyddol a hefyd ganran (plws/minws x %) ac mai'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach ddylai fod tan-gyflawni'r nifer a gwblhawyd ddwy flynedd yn olynol. Bu tan-gyflawni ar y nifer cronnus a gwblhawyd ers dechrau cyfnod y Cynllun ac felly cafodd y sbardun ei gyrraedd. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar, mae'r % o dan-gyflawni wedi gostwng yn gyson wrth i safleoedd strategol ddod ymlaen. Mae dadansoddiad mwy manwl o gynnydd ar safleoedd strategol ar gael yn yr adran ar Safleoedd Tai Strategol (Polisi S3).

Cofnodwyd cwblhau gwerth deng mlynedd yn ystod cyfnod monitro 2020-21, gyda'r Cynllun yn cyflenwi diffyg o -1,500 uned (33.3%) ar y pwynt hwnnw o gymharu gyda gofyniad y Cynllun 10 mlynedd o 4,500 uned. Fodd bynnag, fel y nodir uchod cafodd 361 uned arall eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro a chânt eu cynnwys yn y tabl isod er gwybodaeth.


**Nifer Gronnus a Gwblhawyd o gymharu gyda'r AAR Cronnus**

| | Monitro yn cyfrannu at ofyniad tai 10-mlynedd o 4,500 uned | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn y Cynllun | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10* | |
| Blwyddyn | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
| Gwir nifer cronnus cwblhau safleoedd cronfa dir | 90 | 283 | 401 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 | 474 |
| Gwir nifer cronnus cwblhau safleoedd a ddyrannwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 36 | 125 | 404 | 656 | 873 | 1109 |
| Gwir nifer cronnus cwblhau safleoedd hap | 74 | 129 | 182 | 215 | 350 | 478 | 585 | 665 | 665 | 786 | 866 |
| Gwir nifer cronnus cwblhau safleoedd bach | 90 | 184 | 243 | 342 | 441 | 515 | 598 | 682 | 786 | 867 | 912 |
| **Cyfanswm Cwblhau Cronnus** | 254 | 596 | 826 | 1031 | 1265 | 1503 | 1782 | 2225 | 2581 | 3000 | 3361 |
| Gofyniad Cyfartalog Cronnus Blynyddol | 450 | 900 | 1350 | 1800 | 2250 | 2700 | 3150 | 3600 | 4050 | 4500 | N/A |
| Nifer cwblhau o gymharu â'r AAR Cronnus | -196 | -304 | -524 | -769 | -985 | -1197 | -1368 | -1375 | -1469 | -1500 | N/A |
| +/-% Nifer cwblhau cronnus o gymharu a'r AAR Cronnus | -43.6 | -33.8 | -38.8 | -42.7 | -43.8 | -44.3 | -43.4 | -38.2 | -36.3 | -33.3 | N/A |

*10 mlynedd o fonitro'r Cynllun Datblygu lleol a gofnodwyd yng nghyfnod 2020-21 – parhau monitro er gwybodaeth.

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i elfennau cyflenwad tai, yn cynnwys dyraniadau safle, safleoedd ar hap mawr a bach, gael eu monitro ar wahân a'u cynnwys mewn graff i'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Paratowyd trywydd tai mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp

Rhanddeiliaid Tai a chaiff ei ddangos yn y tabl a'r graff isod. Caiff gwybodaeth fanwl am amseriad a chyfnodau safleoedd yn y trywydd eu cynnwys yn Atodiad 1. Gan y cyrhaeddwyd diwedd cyfnod y Cynllun, mae'r gwaith hwn yn mynd i gyfnod y Cynllun newydd yn cynnwys cyfnod pum mlynedd 2022-2027.



Dengys yr wybodaeth hon yn glir fod mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun Datblygu Lleol yn dod o’r gronfa dir o safleoedd yn y Cynllun blaenorol. Mewn blynyddoedd diweddar, fodd bynnag, wrth i’r Safleoedd Strategol gael caniatâd maent wedi cyfrannu’n sylweddol at y cyfanswm a gwblhawyd, gyda’r tueddiad hwn yn parhau am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, wrth i’r safleoedd hyn cael eu hadeiladu a dim ond nifer fach o gyfleoedd ar hap yn dod i’r amlwg, efallai oherwydd nifer gyfyngedig safleoedd tir llwyd yn y Sir a phroblemau ffosfadau yn cyfyngu ar ddatblygiad, rhagwelir y bydd cyfraddau cwblhau yn gostwng ymhellach. Fodd bynnag, nid yw’r rhagolygon hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad o’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fydd yn gwella cyflenwad tir tai wrth i’r cynllun symud ymlaen i gael ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae’r amserlen rhwng y ddau gynllun yn faes o gonsyrn oherwydd ei oblygiadau ar gyflenwi tai yn y Sir.

---

4. Ni chafodd unrhyw geisiadau cynllunio eu penderfynu ar safleoedd tai a ddyrannwyd yn ystod y cyfnod monitro.

---

5. Mae’r Cyngor yn ymroddedig i fonitro anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr a pharatowyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a gyflwynwyd i Weinidog Cymru yng nghyfnod monitro 2016-2017. Nod yr asesiad oedd rhoi data a fyddai’n nodi anghenion lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i alw a dymuniad preswyl ehangach. Canfyddiad allweddol yn yr asesiad oedd bod amcangyfrif angen heb ei ddiwallu am wyth llain hyd 2021, yn seiliedig ar orlenwi, defnydd heb awdurdod a tebygrwydd atgasedd diwylliannol at dai confensiynol.

Oherwydd hyn, bwriad y Cyngor yw gwneud darpariaeth ar gyfer safle(oedd) addas i ddiwallu angen na chafodd ei ddiwallu drwy weithio gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ganfod eu dewis am ddarpariaeth safle (preifat neu’r Cyngor). Mae canfyddiadau’r broses Asesiad yn awgrymu fod dymuniad o fewn llawer o’r gymuned S ipsiwn a Theithwyr am ddarpariaeth safle preifat yn Sir Fynwy. Lle mae angen, bydd y Cyngor yn gweithio gyda a chefnogi aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi a datblygu safleoedd preifat addas i drin yr angen nas diwallwyd a ddynodwyd yn unol â fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

Bu cynnydd yn nhermau symud ymlaen ag argymhellion yr Asesiad, yn cynnwys paratoi a mabwysiadu Polisi Llety Lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, a gafodd ei gymeradwyo a’i fabwysiadu gan Benderfyniad Un Aelod Cabinet ar 28 Chwefror 2018. Roedd angen mabwysiadu’r polisi cyn y gellid ystyried dynodi safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Cytunwyd ar yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mai 2016 ac mae’n cynnwys y cyfnod pum mlynedd 2016-2021. Daeth hyn i’r casgliad yr amcangyfrifir fod angen na chaiff ei ddiwallu yn Sir Fynwy am wyth llain breswyl barhaol hyd 2021. Yn unol â’r fframwaith monitro, nid oedd yr angen a ddynodwyd wedi ei gyflawni erbyn gwanwyn 2017 felly cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. fodd bynnag, ers 2017 cafodd nifer o geisiadau cynllunio ei penderfynu sy’n trin yr angen nas diwellir a ddynodwyd yn yr Asesiad. Rhoddir manylion pellach isod.

Fel yr adroddwyd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, gwrthodwyd dau gais am lety Sipsiwn/Teithwyr yng nghyfnod 2016-17. Roedd y ceisiadau yn cyfeirio at safle preifat i sipsiwn yn cynnwys 5 llain ychwanegol a datblygiad cysylltiedig ar dir yn Llangyfyw a safle preifat 4 llain yn Llancaio. Ystyriwyd fod y ddau gynnig yn groes i bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol yng nghyswllt datblygiad yng nghefn gwlad ac ystyriwyd fod yr ymgeiswyr wedi methu dangos fod amgylchiadau eithriadol a fyddai’n drech ar fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

| |
|---|
| Cafodd cais Llangyfyw (DC/2015/01424) ei ganiatáu yn ddilynol mewn apêl ym mis Hydref 2017 ar gyfer safle parhaol ar gyfer 7 llain a datblygu cysylltiedig yn arwain at 5 llain ychwanegol.<br><br>Gwrthodwyd y safle preifat 4 llain i sipsiwn yn Llancaio (DC/2016/00297) mewn apêl yn mis Rhagfyr 2017, yn bennaf ar sail risg llifogydd. Cytunodd yr arolygydd yng nghyswllt sail (g) yn unig, yn ymwneud â chyfnod o gydymffurfiaeth gyda'r Hysbysiad Gorfodaeth, yn ymestyn y cyfnod o 2 fis i 12 mis. Cafodd y penderfyniad hwn ei herio yn yr Uchel Lys gan yr ymgeisydd a fethodd ddechrau 2021.<br><br>Cafodd cais cynllunio am safle i un teulu o deithwyr gyda un llain ar dir i'r gogledd ddwyrain o Llanwytherin (DM/2018/00205) ei wrthod ar sail diogelwch priffordd yn ystod cyfnod monitro 2018-19. Apeliodd yr ymgeisydd wedyn yn erbyn y penderfyniad gyda gwrandawiad apêl ym mis Chwefror 2019. Gwrthodwyd yr apêl ar sail diogelwch priffordd.<br><br>Yn ystod y cyfnod monitro diwethaf cafodd cais cynllunio ar gyfer newid defnydd tir ar gyfer dau gartref parc a hyd at 4 carafan deithiol (safle teulu preifat) ei gymeradwyo ar dir ger Sunnybank, Crug (DM/2019/01480), er bod amod 3 y caniatâd yn dweud na ddylai unrhyw ran o'r safle gael ei ddefnyddio gan garafanau teithiol ac amod 4 yn cyfyngu'r safle i ddefnydd personol. Ceisiodd cais DM/2020/00883 amrywio amod 3 a 4 i ganiatáu 4 llain deithio ar y safle a dileu'r cyfyngiad ar ddefnydd personol. Cafodd hyn benderfyniad hollt gydag amod 3 yn ymwneud â charafanau teithiol yn cael ei gymeradwyo a gwrthod dileu y cyfyngiad personol (13/10/2020). Bu hyn yn destun addasiad pellach ar amod cais yn y cyfnod monitro diwethaf i ddiwygio'r bobl a enwir a all breswylio ar y safle (DM/202100311), a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro hwn (26/05/2021).<br><br>Defnyddir polisi H8 y Cynllun Datblygu Lleol sy'n seiliedig ar feini prawf i ystyried unrhyw gais am lety Sipsiwn/Teithwyr sy'n codi yn Sir Fynwy. Diweddarwyd yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i fod yn sylfaen ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac mae gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn disgwyl cymeradwyaeth. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 2. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 3. Parhau i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Parhau i ddynodi safleoedd i'w cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd i drin yr angen a ddynodwyd yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig (amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru). |

*Dangosyddion Craidd

** Yn dilyn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd Astudiaethau Argaeledd Tir Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd, cafodd y dangosydd hwn ei newid i adlewyrchu gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020).

***Mae'r dangosydd yn cyfeirio at safleoedd dyrannu SAH1 – SAH10 yn unig. Felly mae'n eithrio safleoedd Prif Bentref a ddyrannwyd (SAH11).

♦ Diwygiwyd i ddileu cyfeiriad at 'cyfartalog' ar gyfer eglurhad. Mae'r dangosydd yn anelu i fonitro dwysedd ar safleoedd a ddyrannwyd, yn hytrach na dwysedd cyfartalog.

.

## Safleoedd Tai Strategol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cyflenwi'r safleoedd tai strategol yn unol gyda pholisi strategol S4 a pholisïau dyrannu safle SAH1-SAH7. |
| **Polisi Strategol:** | S3 Safleoedd Tai Strategol |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3 & 4 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | SAH1-SAH7 |

**Newidiadau mewn Cyd-destun**
Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021– 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ar safleoedd strategol fel y dynodir ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH7 | Sicrhau/cyflenwi angen tai ar y safleoedd strategol allweddol a ddynodwyd ym Mholisi 3 a pholisïau dyrannu safle SAH1-SAH7 yn ystod cyfnod y cynllun: | Ni roddwyd caniatâd cynllunio cyn diwedd 2014 ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Deri Farm, Y Fenni | | **(250*)** |
| | b) Heol Crug, Porthysgewin | | **(269*)** |
| | c) Fairfield Mabey, Cas-gwent | | **(373*)** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy | | **(340*)** |
| | e) Rockfield Farm, Gwndy | | **(266*)** |
| | f) Tir yn Vinegar Hill, Gwndy | | **0** |
| | g) Hen Felin Bapur, Sudbrook | | **(210*)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y dynodwyd ym Mholisi S3 a pholisïau dyrannu safle SAH1 i SAH7 | Anheddau a gwblhawyd yn unol â'r trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol ** | Nifer yr anheddau a gwblhawyd yn gostwng dan 10% o'r targed trywydd tai ar gyfer pob un o'r safleoedd strategol | |
| | a) Deri Farm, Y Fenni *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 67 ar gyfer 2021-22)* | | **51** |
| | *b)* Heol Crug, Porthysgewin *(Trywydd 2020-21= cwblhau 0 ar gyfer 2021-22)* | | **0** |
| | *c)* Fairfield Mabey, Cas-gwent *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 70 ar gyfer 2021-22)* | | **88** |
| | d) Heol Wonastow, Trefynwy *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 0 ar gyfer 2021-22)* | | **0*** ** |
| | e) Rockfield Farm, Gwndy *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 44 ar gyfer 2021-22)* | | **49** |
| | *e)* Tir yn Vinegar Hill, Gwndy *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 0 ar gyfer 2021-22)* | | **D/B** |
| | g) Hen Felin Bapur Sudbrook *(Trywydd 2020-21 = cwblhau 40 ar gyfer 2021-22* | | **41** |

| **Dadansoddiad** |
| --- |
| **1. Caniatâd anheddau**<br><br>Yn nhermau safleoedd strategol a ddyrannwyd, ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw safleoedd ychwanegol yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Fodd bynnag, hyd yma, cafodd y safleoedd strategol dilynol ganiatâd, 373 annedd ar safle Fairfield, Mabey, Cas-gwent*, 340 annedd ar safle Heol Wonastow, Trefynwy*, 210 annedd ar safle Hen Felin Bapur, Sudbrook*, 269 annedd yn Heol Crug, Porthysgewin*, 266 annedd yn Rockfield Farm, Gwndy* a 250 annedd yn Deri Farm, y Fenni*. Mae hyn yn golygu y cafodd chwech o ddyraniadau safleoedd strategol y Cynllun ganiatâd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol., Gan na chafodd y safle strategol arall yn Vinegar Hill, Gwndy ganiatâd cynllunio hyd yma, cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Fodd bynnag, mae cais yn cael ei ystyried ar gyfer safle Vinegar Hill, Gwndy a chaiff ei benderfynu yn y cyfnod monitro nesaf.<br><br>Oherwydd y cyfyngiadau yn gysylltiedig gyda rhai o'r safleoedd, yn cynnwys Deri Farm a Fairfield Mabey, roedd y dyddiad sbardun o gael caniatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 yn afrealistig. Mae'r methiant i gael caniatâd cynllunio ar y safle strategol weddilliol yn Vinegar Hill erbyn diwedd y cyfnod monitro presennol yn achos pryder, er fod cynnydd yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r safle hwn fel yr amlinellir yn fyr isod.<br><br>**Deri Farm, y Fenni (SAH1):**<br>Cyflwynodd Persimmon Homes gais llawn (DC/2014/01360) ar gyfer 250 uned breswyl (201 annedd marchnad a 49 fforddiadwy) ym mis Tachwedd 2014. Roedd y cynnydd ar y cais yn arafach na'r disgwyl oherwydd problemau sylweddol yn ymwneud â hyfywedd y safle, yn arbennig ddarpariaeth tai fforddiadwy a symud llinellau pŵer uwchben i fod dan ddaear. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys yn ddilynol, cymeradwywyd y cais yng nghyfnod monitro 2017-2018 a chafodd 234 annedd eu cwblhau hyd yma.<br><br>Dengys y trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai fod y safle wedi darparu 234 annedd o fewn cyfnod y Cynllun a disgwylir i bob annedd fod wedi eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod monitro nesaf.<br><br>**Heol Crug, Porthysgewin (SAH2):**<br>Yng nghyfnod monitro 2018/19 cyflwynodd Cyngor Sir Fynwy a Cartrefi Melin gais amlinellol ar y cyd (DM/2018/00696) ar gyfer 291 uned breswyl (218 uned marchnad a 73 fforddiadwy), cafodd hyn ganiatâd ym mis Mawrth 2019. Yn ystod cyfnod monitro 2019/20 cymeradwywyd cais materion a gadwyd (DM/2019/01041) ar gyfer 269 uned breswyl (201 uned marchnad a 68 fforddiadwy). Mae hyn yn is na nifer targed yr unedau ar gyfer y safle (285) yn y Cynllun Datblygu Lleol. Cafodd y gostyngiad yn nwysedd y safle ei yrru gan newidiadau i'r mathau o dai a gynigir a gan welliannau cadarnhaol i ddyluniad y safle. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnwys Seilwaith Gwyrdd sy'n ffurfio echel gogledd-de y safle, goblygiadau ecolegol nyth moch daear ar y safle sydd wedi arwain at gynyddu tir agored wedi'i ddiogelu, a gofynion priffordd a arweiniodd at gysylltiadau mwy diogel a hygyrch. Mae polisi SAH2 yn dyrannu 1 hectar o B1, a gafodd ei newid am gartref gofal fydd yn darparu hyd at 32 gwely ar ardal a amlinellwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth. |

Mae hyn yn destun cais cynllunio ar wahân, DM/2019/01629, a gafodd ganiatâd ar 26 Chwefror 2020. Cafodd derbyn y golled hon ei gyfiawnhau yng nghyswllt caniatâd amlinellol a gymeradwywyd mewn cyfnod monitro cynharach. Er nad yn wir yn gyflogaeth B1, mae cartref gofal yn fath o gyflogaeth a byddai'n arwain at greu swyddi ar y safle.

Dengys y trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai nad yw'r safle wedi darparu unrhyw anheddau o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir cwblhau'r tai cyntaf ar y safle yn 2023/24.

**Fairfield Mabey, Cas-gwent(SAH3):**
Cyflwynodd perchennog y tir gais amlinellol (DC/2014/01290) ym mis Hydref 2014 ar gyfer hyd at 600 uned breswyl (350 i'w darparu o fewn cyfnod y Cynllun), gofod masnachol yn cynnwys swyddfeydd a gweithdai (Dosbarth Defnydd B1), manwerthu graddfa fach/gofod llawr bwyd a diod (Dosbarthiadau Defnydd A1 ac A3) a gofod agored gwyrdd a glas aml-swyddogaeth. Bu cynnydd gyda'r cais yn arafach na'r disgwyl am wahanol resymau, yn cynnwys problemau priffyrdd (bu gan Adran Priffyrdd Llywodraeth Cymru wrthwynebiad dal ar y cais am 18 mis). Fodd bynnag, cafodd y materion eu datrys ers hynny a chafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer hyd at 450 uned (432 uned marchnad a thua 18 fforddiadwy ar 1.5 erw o'r safle) ym mis Tachwedd 2017. Gostyngodd y cais amlinellol yn safle Fairfield Mabey y ddarpariaeth cyflogaeth o 2.8ha i 0.65ha o dir B1. Cymeradwywyd Cais Materion a Gadwyd . (DM/2019/00001) yn ystod cyfnod monitro 2019/20 am 347 uned. Roedd y cais am elfen tai marchnad y safle ac nid oedd yn cynnwys y tir a ddynodwyd ar gyfer tai fforddiadwy na thir cyflogaeth; roedd elfen tai fforddiadwy y safle (26 uned) yn destun cais ar wahân y caniatawyd Materion a Gadwyd ar ei gyfer yn ystod y cyfnod monitro diwethaf (DM/2019/01960(RM)). Dechreuodd gwaith ar y safle yn ystod y cyfnod monitro diwethaf gyda 106 cwblhad yn ystod cyfnod y Cynllun.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi gweddill yr anheddau ar y safle erbyn 2024/25.

**Heol Wonastow, Trefynwy (SAH4):**
Rhoddwyd caniatâd amlinellol am hyd at 370 annedd a 6.5ha o dir cyflogaeth ym mis Rhagfyr 2014. Cyflwynodd datblygwyr y safle (Barratt/David Wilson a Taylor Wimpey) gais Materion a Gadwyd (DC/2015/00392) am 340 uned (238 uned marchnad a 102 fforddiadwy) a gafodd ganiatâd ym mis Tachwedd 2015. Cafodd y safle ei gwblhau yn ystod y cofnod monitro diwethaf.

Mae dyraniad safle'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer cyfanswm o 450 uned. Caiff yr unedau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cais eu darparu fel estyniad i'r safle yn Drewen Farm. Ni chafodd cais ar gyfer elfen yma'r safle ei gyflwyno hyd yma a bydd angen i unrhyw gais o'r fath ystyried mater ffosffadau yn yr Afon Gwy. Byddai angen i gais cynllunio ddangos niwtraliaeth neu wella ffosffadau yn ei ddyluniad a/neu ei gyfraniad i'r corff dŵr. Mae gan ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru oblygiadau sylweddol ar unrhyw gynnig datblygu ar gyfer y safle. Mae'r Cyngor yn parhau i gydlynu gyda Dŵr Cymru a hefyd Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyswllt mynd i'r afael â mater ffosffadau ac maent yn ymchwilio datrysiadau i hwyluso parhau i gyflenwi'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Rockfield Farm, Gwndy (SAH5)**
Dyrannwyd y safle ar gyfer 270 uned breswyl a 2ha o dir â gwasanaeth ar gyfer defnydd busnes

a diwydiannol yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. Cyflwynwyd cais cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2016 (DC/2016/00883) ar gyfer 266 uned a 5,575 m sg o dir cyflogaeth (defnydd B1). Ar gyfer dibenion yr Adroddiad Monitro Blynyddol, cofnodwyd 265 uned (198 uned marchnad a 67 fforddiadwy) fel budd net, mae gan y ffermdy presennol ddefnydd preswyl ac mae'n cael ei ddymchwel felly cafodd ei dynnu oddi ar y cyfanswm. Bu cynnydd gyda'r safle yn arafach na'r disgwyl oherwydd gwahanol faterion, yn cynnwys archaeoleg. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys a chafodd y cais amlinellol ei gymeradwyo ym mis Mawrth 2018. Cafodd cais Materion a Gadwyd (DM/201801606) ganiatâd cynllunio ar gyfer cam 1 y safle ym mis Chwefror 2019 ar gyfer 144 uned breswyl. Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y safle ar hyn o bryd gyda 106 annedd wedi eu cwblhau hyd yma.

Mae'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn dangos y cafodd 106 annedd eu cyflenwi ar y safle o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir y caiff gweddill yr anheddau ar gyfer cam 1 eu cwblhau erbyn 2022/23. Disgwylir y caiff Cam 2 ei gwblhau erbyn 2026/27.

**Tir yn Vinegar Hill, Gwndy (SAH6):**
Mae'r safle hwn ar gyfer 225 uned breswyl yn gysylltiedig â safle cyfagos Rockfield Farm a disgwylid y byddai'n mynd ymlaen ar yr un pryd. Er y bu'r cynnydd dechreuol ar y safle yn araf, gwnaeth Cyngor Sir Fynwy gais llwyddiannus yn ystod y cyfnod monitro presennol ar gyfer cyllid gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i gefnogi cyflenwi'r safle. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i gyflenwi cynllun sy'n cydymffurfio'n llwyr â pholisi cynllunio er pwysau am hyfywedd oedd wedi golygu nad ddaeth y safle ymlaen. Cyflwynwyd cais hybrid ar y safle (DM/201901937 – Tachwedd 2019) ar gyfer dau barsel o dir ar gyfer hyd at 155 annedd gyda mannau agored cysylltiedig a seilwaith. Ceisir caniatâd cynllunio llawn ar gyfer 72 annedd ar barsel A gyda chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer parsel B gyda phob mater wedi eu cadw heblaw am fynediad. Er fod dyraniad ar gyfer 225 annedd yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig, dim ond am hyd at 155 annedd ar gyfer y safle gan nad yw perchennog y tir yn dymuno i barsel o dir gael ei ddefnyddio. Derbyniodd y safle ganiatâd cynllunio ar 16 Mehefin 2022 ar gyfer 155 annedd gyda 39 ohonynt yn fforddiadwy, felly caiff ei gofnodi fel caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Nid yw'r trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn disgwyl i'r safle gyflenwi unrhyw anheddau o fewn cyfnod y Cynllun. Disgwylir cwblhau'r anheddau cyntaf ar y safle yn 2023/24.

**Hen Felin Bapur, Sudbrook (SAH7):**
Cyflwynwyd cais cynllunio llawn (DC/2015/01184) gan Harrow Estates (cadarnhawyd mai Redrow fyddai'r datblygwr) ym mis Hydref 2015 ar gyfer 212 uned breswyl (192 uned marchnad a 20 fforddiadwy). Bu nifer o broblemau gyda hyfywedd y safle yn gysylltiedig gyda'r cais, gan olygu y bu cynnydd gyda'r cais yn arafach na'r disgwyl. Fodd bynnag, cafodd y materion hyn eu datrys wedyn a chafodd y cais ei gymeradwyo yng nghyfnod monitro 2016/17 (Tachwedd 2016). Yn dilyn ailgynllunio rhan o'r safle, gostyngodd nifer yr unedau preswyl ar y safle i 210 gyda 20 ohonynt yn rhai fforddiadwy. Mae'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar y safle ar hyn o bryd, gyda 165 annedd wedi eu cwblhau yn ystod cyfnod y Cynllun.

Dengys y trywydd tai a baratowyd mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai y darparodd y safle 165 annedd o fewn cyfnod y cynllun. Disgwylir y caiff gweddill yr anheddau eu cwblhau erbyn 2023/24.

Ac eithriad Heol Wonastow, cydnabyddir nad yw'r safleoedd strategol a ddyrannwyd wedi symud ymlaen yn unol gyda'r targed a ddynodwyd erbyn diwedd 2014. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau yn gysylltiedig gyda rhai o'r safleoedd, yn cynnwys Deri Farm a Fairfield Mabey, roedd y dyddiad sbardun i gael caniatâd ar gyfer pob safle erbyn diwedd 2014 yn afrealistig. Cafodd y dyraniad strategol ym Melin Bapur Sudbrook ganiatâd yng nghyfnod monitro 2016/17. Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn yn safle Deri Farm ynghyd gyda chaniatâd amlinellol ym Mhont Mabey, Cas-gwent a Rockfield Farm, Gwndy yng nghyfnod monitro 2017/18, gyda Heol Crug, Porthysgewin yn cael caniatâd yn ystod cyfnod monitro 2019/2020. Disgwylir y bydd y safle strategol olaf, Vinegar Hill, Gwndy yn cael caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Mae'r ffigurau trywydd tai a gytunwyd yn dangos diffyg yng nghyfnod y Cynllun (h.y. hyd at ddiwedd 2021) o 1,092 annedd o safleoedd strategol. Lle mae cynnydd yn parhau gyda safleoedd strategol mae diffyg sylweddol ar gyflenwi anheddau ar safleoedd strategol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn bennaf oherwydd trin cyfyngiadau yn gysylltiedig gyda dod â rhai o'r safleoedd strategol ymlaen ac nid oedd proses y cynllun datblygu ar y pryd angen hyfywedd ac ymarferoldeb safle rhag blaen yng nghyswllt dyraniadau safle yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Cafodd y sbardun ei gyrraedd am y seithfed blwyddyn o'r bron. Fel y nodir uchod, mae'n debygol y symudir ymlaen gyda'r safle strategol arall yn Vinegar Hill, Gwndy yn ystod y cyfnod monitro nesaf gan iddo gael caniatâd cynllunio ac felly rhoddir adroddiad arno. Fodd bynnag, mae gan yr oedi yn y safleoedd sy'n dod ymlaen oblygiadau ar gyfer targedau monitro a sbardunau eraill a chaiff yr angen am unrhyw weithredu pellach ei ystyried mewn cysylltiad gyda'r dangosyddion neilltuol hynny. Yn neilltuol, mae gan gyflenwi safleoedd strategol oblygiadau amlwg ar gyfer y strategaeth ofodol a chyflenwi tai (marchnad gyffredinol a fforddiadwy). Gweler y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisi S1, S2 a S4 i gael mwy o wybodaeth am hyn.

Oherwydd pwysigrwydd cyflenwi'r safleoedd strategol, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg fanwl ar eu cynnydd.

**2. Cwblhau Anheddau**

Cofnodwyd cwblhau ar y safleoedd strategol a ddyrannwyd dilynol yn ystod y cyfnod monitro: Deri Farm, y Fenni (cwblhau 51), Fairfield Mabey, Cas-gwent (cwblhau 88), Rockfield Farm, Gwndy (cwblhau 49) a Melin Bapur Sudbrook (cwblhau 41). Mae hyn i'w ddisgwyl gan y cafodd yr holl safleoedd ganiatâd cynllunio cyn y cyfnod monitro hwn. Ac eithrio Deri Farm, roedd yr holl gwblhau a gofnodwyd yn unol â neu yn uwch na thrywydd JHLAS 2020-21. Yng nghyswllt Deri Farm roedd diffyg yn y cwblhau, roedd trywydd 2020-21 yn rhagweld 67 cwblhad ar y safle yn 2021-22, y gwir nifer a gwblhawyd oedd 51. Fodd bynnag gan fod y safle yn agosáu at ei gwblhau gyda dim ond 16 annedd ar ôl, ni ystyrir fod y diffyg hwn yn achos consyrn.

Fel y dangosir uchod, gan fod cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ar y safle strategol sydd ar ôl, rhagwelir y bydd cwblhau anheddau yn gydnaws gyda thargedau trywydd a ddynodwyd a gytunwyd gan y Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth i'r safleoedd ddatblygu yn ystod y cyfnod monitro nesaf.

Yng ngoleuni canllawiau a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3), mae Cyngor Sir Fynwy, mewn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, wedi paratoi trywydd tai. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ar 30 Mehefin 2022 i sicrhau fod y trywydd mor gadarn ag sydd modd ac wedi ei seilio ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Caiff dadansoddiad pellach o'r trywydd tai ei gynnwys yn yr adran ar Bolisi S2 Darpariaeth Tai. Er nad yw'r gofyniad i ddangos tystiolaeth o gyflenwad 5 mlynedd o dir tai mwyach yn weithredol,, mae'n ddefnyddiol ystyried yr unedau hynny y rhagwelir fydd yn cael eu cwblhau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf.

**Trywydd Grŵp Rhanddeiliaid Tai**

| | 2020 – 21 | | 2021-22 | | Newid yn nifer unedau tu allan i'r 5 mlynedd nesaf |
|---|---|---|---|---|---|
| | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | O fewn y 5 mlynedd nesaf | Tu allan i'r 5 mlynedd nesaf | |
| **Deri Farm** | 67 | 0 | 16 | 0 | = |
| **Fairfield Mabey** | 355 | 0 | 267 | 0 | = |
| **Rockfield Farm** | 209 | 0 | 160 | 0 | = |
| **Vinegar Hill** | 135 | 90 | 155 | 70 | -20 |
| **Heol Wonastow (Taylor Wimpey) *** | - | - | - | - | - |
| **Heol Wonastow (Barratt) *** | - | - | - | - | - |
| **Heol Wonastow (Drewen Farm)** | 70 | 40 | 0 | 110 | +70 |
| **Heol Crug** | 200 | 69 | 200 | 69 | = |
| **Melin Bapur Sudbrook** | 86 | 0 | 45 | 0 | = |

Gwelodd un safle strategol gynnydd yn nifer yr unedau tu allan i'r cyfnod nesaf o 5 mlynedd, mae Heol Wonastow (Drewen Farm), Trefynwy yn awr yn dod yn llwyr tu allan i'r cyfnod pum mlynedd am y rhesymau a esbonnir uchod. Fodd bynnag, daeth cwblhau ar Vinegar Hill, Gwndy ymlaen yn y trywydd oherwydd y cyfnod a wnaed yn y cyfnod monitro. Felly, mae 249 uned sy'n dod tu allan i'r 5 mlynedd nesaf (h.y. 2022-2027) yn nhrywydd tai 2022, o gymharu gyda 199 yn y Cyfnod Monitro Blynyddol blaenorol.

Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn er mwyn penderfynu os yw dyraniadau preswyl strategol y Cynllun yn cael eu cyflenwi yn unol â thargedau'r trywydd tai.

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Safle wedi cael caniatâd cyn cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.

**Trywydd 2021-21 gan fod hyn yn darogan cwblhau ar gyfer cyfnod 2021-22 h.y. y cyfnod monitro cyfredol.

***Safle wedi cwblhau.

## Tai Fforddiadwy

**Nod/Deilliant Monitro:** Darparu 960 o unedau annedd fforddiadwy yn ystod cyfnod y cynllun.

**Polisi Strategol:** S4 Tai Fforddiadwy

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 1, 3 a` 4

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** H7, SAH1-SAH11

**Newidiadau yn y Cyd-destun - Prisiau Tai**

Caiff yr amrywiadau a gofnodwyd ym mhrisiau cyfartalog tai yn y Sir ers 2012 eu nodi yn Adran 3 – Gwybodaeth am y Cyd-destun. Caiff goblygiadau posibl y tueddiadau mewn prisiau tai cyfartalog dros y cyfnod monitro eu hasesu yng nghyswllt dangosydd 5 isod.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021– 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol a **adeiladwyd** dros gyfnod y cynllun *1 | Cyflenwi 96 annedd fforddiadwy y flwyddyn 2011-2021 (cyfanswm o 960 dros gyfnod y cynllun)<br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 63)*<br>*(2016-17: 47)*<br>*(2017-18: 84)*<br>*(2018-19:131)*<br>*(2019-20: 82)*<br>*(2020-21: 71)* | 10% yn llai neu'n fwy na chyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol dros 2 flynedd yn olynol | **35** |
| 2. Nifer anheddau newydd a **sicrhawyd** ar safleoedd tai newydd | a) 35% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn y Prif Drefi a'r Aneddiadau Gwledig Eilaidd a ddynodir ym Mholisi S1<br>*(2014-15: 35%)*<br>*(2015-16: 34%)*<br>*(2016-17: 43%)*<br>*(2017-18: 16.5%)* | Cyfran tai fforddiadwy a gyflawnwyd ar safleoedd datblygu ym mhob ardal yn is na'r gofyniad a nodir ym Mholisi S4 | **D/B (Dim ceisiadau perthnasol)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2018-19: 32%)*<br>*(2019-20: 100%)*<br>*(2020-21:23.35%)* | | |
| | b) 25% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn Aneddiadau Glannau Hafren a ddynodirym Mholisi S1l<br><br>*(2014-15: 100%)*<br>*(2015-16: N/A)*<br>*(2016-17: 9.7%)*<br>*(2017-18:31.7%)*<br>*(2018-19: 26%)*<br>*(2019-20: 32%)*<br>*(2020-21: N/A)* | | **D/G (Dim ceisiadau perthnasol)** |
| | c) 60% o gyfanswm nifer yr anheddau i fod yn fforddiadwy ar safleoedd o 3 annedd neu fwy yn y Prif Bentrefi a ddynodwyd ym Mholisi S1<br><br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 60%)*<br>*(2016-17: 60%/20%)*<br>*(2017-18: 62.5%)*<br>*(2018-19: 60.0%)*<br>*(2019-20: 67.5%)*<br>*(2020-21: 60%/16%)* | | **D/G (Dim ceisiadau yn gymwys)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | d) Mân bentrefi: safleoedd gyda lle am 4 annedd yn gwneud darpariaeth i 3 fod yn fforddiadwy, a safleoedd gyda lle am 3 annedd yn gwneud darpariaeth i 2 fod yn fforddiadwy<br>*(2015-16: D/G)*<br>*(2016-17: D/G)*<br>*(2017-18: D/G)*<br>*(2018-19: D/G)*<br>*(2019-20: D/G)*<br>*(2020-21: D/G)* | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 3. Nifer anheddau fforddiadwy a ganiatawyd/ adeiladwyd ar Safleoedd Prif Bentref fel y dynodir ym Mholisi SAH11 | Safleoedd Prif Bentrefi ar y cyd i gyflawni 20 annedd fforddiadwy 2014-2021<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 9 caniatâd*<br>*(2016-17: 9 caniatâd/9 adeiladu)*<br>*(2017-18: 5 caniatâd/0 adeiladu)*<br>*(2018-19: 12 caniatâd/3 adeiladu)*<br>*(2019-20: 9 caniatâd/0 adeiladu)*<br>*(2020-21: 3 caniatâd/0 adeiladu)* | 10% yn llai neu'n fwy na'r targed cyfradd adeiladu am 2 flynedd yn olynol | **0 caniatâd/ 0 adeiladu** |
| 4. Nifer anheddau fforddiadwy a **adeiladwyd** drwy gynlluniau eithriad gwledig | **Dim targed**<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>*(2017-18: 0 adeiladu/3 caniatâd)*<br>*2018-19: 4 (1 caniatâd)*<br>*2019-20: 4 (0 caniatâd)*<br>*(2020-21: 0 caniatâd/0 adeiladu)* | | **0 adeiladu/ 0 caniatâd** |
| 5. Targed tai fforddiadwy ym Mholisi S4 | Targed i adlewyrchu amgylchiadau economaidd | Prisiau tai cyfartalog yn cynyddu gan 5% uwchben y pris sylfaen o lefelau 2012 wedi'i gynnal dros 2 chwarter | **Gweler dadan-soddiad isod (5)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Dadansoddiad**

1. Cafodd cyfanswm o 35 annedd fforddiadwy eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro gan gyfrif am 9.7% o'r holl anheddau a gwblhawyd a gofnodwyd. Roedd safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn 40% ohonynt, gyda'r 60% arall ar safle Heol yr Eglwys, Cil-y-coed (a gymeradwywyd drwy bolisi safleoedd heb eu dyrannu). Roedd 12 o'r 35 tŷ fforddiadwy a gwblhawyd ar y safle a ddyrannwyd yn Rockfield Farm, Gwndy (SAH5), gan gynrychioli 34%. Yr unig ddyraniad arall a gyfrannodd at y cyflenwad o gartrefi fforddiadwy oedd dyraniad Anheddiad Gwledig Eilaidd yn Cwrt Burrium, Brynbuga (SAH10(i)) lle cwblhawyd 2 gartref fforddiadwy yn ystod 2020.21.

Yn ogystal â'r tai a gwblhawyd ar safleoedd a ddyrannwyd, cyfrannodd y safle 'heb ei ddyrannu' yn Heol yr Eglwys, Cil-y-coed 23 gartref fforddiadwy, 60% o'r cyfanswm.

Mae'r cyfanswm o 35 uned yn sylweddol is na'r 71 tŷ fforddiadwy a gwblhawyd a gofnodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd. Mae'r gyfradd cyflenwi wedi amrywio dros gyfnodau monitro blaenorol o 17 yn 2014/15, 63 yn 2015/16, 47 yn 2016/17, 84 2017/18, 131 2018/19, 82 2019/20 a 71 2020/21. Fodd bynnag, mae wedi sicrhau cyfradd gyson uwch mewn blynyddoedd diweddar, gan adlewyrchu cyflenwi dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol, a ategwyd gan nifer o 100% safleoedd tai fforddiadwy (nad oedd dim ohonynt dros y cyfnod monitro).

Gan fod nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd yn is na'r targed a ddynodwyd (96 y flwyddyn) yn y cyfnod monitro diweddaraf a hefyd yn is na'r targed a ddynodwyd yng nghyfnodau monitro 2019/20 a 2020/21, mae wedi sbarduno'r angen am ymchwiliad pellach.

Yn gronnus, cafodd gwerth deg mlynedd o gwblhau tai fforddiadwy eu cofnodi yn ystod cyfnod monitro 2020-21, gyda'r Cynllun yn cyflenwi 658 cartref fforddiadwy o gymharu gyda tharged o 960 cartref fforddiadwy ar gyfer cyfnod cynllun 2011-2021 (diffyg o 302 cartref fforddiadwy). Fel y nodir uchod, cafodd 35 uned fforddiadwy arall eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, sy'n parhau i fod yn is na tharged blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig o 96 cartref fforddiadwy y flwyddyn.

Mae cynnydd araf ar weithredu nifer o safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, fel y'u hystyrir yn yr adrannau yn cyfeirio at Bolisïau S2 ac S3 wedi arwain at ddarpariaeth gyfyngedig o dai marchnad a hefyd dai fforddiadwy ar ddechrau cyfnod y Cynllun. Fel y cafodd safleoedd a ddyrannwyd, yn cynnwys safleoedd prif bentrefi, ganiatâd mae nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi cynyddu yn unol gyda'r targed. Nid oes unrhyw dystiolaeth benodol hyd yma sy'n dangos nad yw Polisi S4 ei hun yn gweithredu'n effeithlon, er y bu oedi wrth benderfynu rhai ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd strategol, yn cynnwys Deri Farm (sydd bellach wedi ei

ddatrys a datblygu wedi dechrau ar y safle gyda phob annedd fforddiadwy wedi eu cwblhau), oherwydd trafodaethau am faterion hyfywedd yn deillio o ofynion Polisi S4. Mae'r materion hyfywedd yma eu hunain yn effeithio yn uniongyrchol ar lefelau'r tai fforddiadwy a sicrhawyd, serch hynny caiff asesiadau cadarn eu cynnal i sicrhau y cyflawnir y cyfraniad mwyaf posibl.

Roedd cydberthynas amlwg rhwng effaith Covid-19 ar gyfradd cwblhau a safleoedd newydd yn dod ymlaen yn y cyfnod monitro blaenorol oherwydd cyfnodau clo a chau llawer o safleoedd adeiladu. Er y sylweddolir y bydd yn cymryd peth amser i'r diwydiant datblygu adfer yn llawn o effeithiau Covid-19, mae'n llawer tebycach fod y gostyngiadau yn y tai fforddiadwy a gwblhawyd yn y cyfnod monitro presennol yn gysylltiedig ag effaith sylweddol lefelau ffosffadau afonol yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy. Mae materion yn ymwneud ag ansawdd dŵr yng nghyswllt ffosffadau yn effeithio ar yr Afon Gwy a'r Afon Wysg, gydag angen i ddatblygiadau arddangos gwella neu niwtraliaeth. Caiff datrysiadau eu hymchwilio ond nid oes unrhyw ddatrysiad strategol ar gyfer ffosffadau ar hyn o bryd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar nifer y cartrefi a gyflenwir drwy'r system cynllunio.

Gan y cafodd y sbardun ei gyrraedd, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar gyfraddau cwblhau mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar eu heffeithlonrwydd wrth gyflenwi anheddau fforddiadwy.

---

**2. Prif Drefi ac Aneddiadau Gwledig Eilaidd**
Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd o 5 neu fwy o gartrefi a wnaeth sbarduno tai fforddiadwy ar safle ym Mhrif Drefi neu Aneddiadau Gwledig Eilaidd y Sir (gweler y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisïau S1 a S2). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro Prif Drefi ac Aneddiadau Gwledig Eilaidd er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.

**Aneddiadau Glannau Hafren**
Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd o 5 neu fwy o gartrefi a wnaeth sbarduno cyflenwi tai fforddiadwy ar safle yng Nglannau Hafren (gweler dadansoddiad polisi Polisïau S1 a S2). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro Aneddiadau Glannau Hafren er mwyn penderfynu ar effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodwyd ym Mholisi S4.

**Prif Bentrefi**
Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd o 3 neu fwy o gartrefi a wnaeth sbarduno cyflenwi tai fforddiadwy ar safle yn y Prif Bentrefi (gweler y dadansoddiad polisi ar gyfer Polisïau S1 ac S2). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro Prif Bentrefi, er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodir ym Mholisi S4.

**Mân Bentrefi**
Ni roddwyd unrhyw ganiatâd yn ystod y cyfnod monitro ar gyfer safleoedd bach mewn Mân Bentrefi. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro safleoedd Mân Bentrefi er mwyn penderfynu effeithlonrwydd y targed tai fforddiadwy a ddynodir ym Mholisi S4.

3. Ni roddwyd caniatad nac adeiladu unrhyw geisiadau dros y cyfnod monitro ar y safleoedd a ddyrannwyd yn y Prif Bentrefi a ddynodir ym Mholisi SAH11. Fodd bynnag gwnaed peth cynnydd dros y cyfnod monitro gyda 9 annedd fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn SAH11(ii) Well Lane, Devauden a 4 annedd fforddiadwy yn SAH11(ix)(a) Tir tu ôl i'r Carpenters Arms, Llanisien**. Mae effeithiau lefelau ffosffad afonol yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy hefyd yn cael effaith ar safleoedd sy'n dod ymlaen gyda safleoedd yn Felinfach a Werngifford, Pandy yn methu symud ymlaen drwy'r system cais cynllunio.

Serch hynny ni chafodd y targed ar gyfer safleoedd Prif Bentrefi i gyflenwi 20 annedd fforddiadwy ar y cyd y flwyddyn ei gyrraedd.

Mae safleoedd Prif Bentrefi wedi cyflenwi 21 cartref fforddiadwy ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n sylweddol fyr o darged y Cynllun Datblygu Lleol o 20 uned fforddiadwy y flwyddyn. Rhoddir ystyriaeth bellach i gyflenwi'r safleoedd hyn fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Caiff y rhesymau dros y diffyg cynnydd ar safleoedd Prif Bentrefi ei ymchwilio ymhellach, yn cynnwys disgwyliadau afrealistig gan berchnogion tir yng nghyswllt gwerth tir. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ddad-ddyrannu'r safleoedd hynny nad ydynt yn symud ymlaen fel y bwriadwyd. Anfonwyd llythyrau at berchnogion tir/asiantau pob safle Prif Bentref gweddilliol nas cyflawnwyd i arddangos y gellir cyflawni'r safleoedd a'u bod yn hyfyw ac os y bwriadant symud ymlaen gyda nhw erbyn diwedd 2021, gan nodi na chânt eu symud ymlaen i'r Cynllun Datblygu Lleol fel dyraniadau.

4. **Cwblhau Eithriadau Gwledig.**
Ni chafodd unrhyw gynlluniau eithriad gwledig eu caniatáu na'u cwblhau dros y cyfnod monitro hwn. Er nad oes targed yng nghyswllt nifer y cwblhau ar gyfer cynlluniau eithriad gwledig bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn yn agos mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt cynlluniau eithriadau gwledig.

| |
|---|
| 5. Mae'r sbardun ar gyfer cynnal profion hyfywedd ychwanegol yng nghyswllt y targedau tai fforddiadwy a nodir ym Mholisi S4 yn gynnydd mewn prisiau tai cyfartalog o 5% neu fwy uwch pris sylfaen 2012 wedi'i gynnal dros 2 chwarter.<br><br>Fel y nodir yn Adran 3, mae data'r Gofrestrfa Tir yn dangos fod prisiau tai cyfartalog yn Sir Fynwy wedi cynyddu dros y cyfnod monitro cyfredol gyda phrisiau cyfartalog yn chwarter 1 2022 (Ionawr i Mawrth) yn £334,148, sy'n sylweddol uwch na phris sylfaen chwarter 4 2012 (£188,720). Byddai cynnydd o 5% yn ffigur pris llinell sylfaen chwarter 2012 yn gyfwerth â chynnydd o £9,436. Yn chwarter 4 2021 a chwarter 1 2022 roedd y cynnydd mewn prisiau tai yn uwch na'r ffigur hwn, er ar £9,988 yn Ch4 2021 dim ond ychydig yn uwch na'r lefel i sbarduno profion hyfywedd ychwanegol yw'r ffigur. Wrth edrych yn agosach ar y ffigurau, bydda'n ymddangos fod cyfanswm gwerthiannau tai o fewn y Sir, er wedi cynyddu, eto heb gyrraedd y lefel a welwyd yn y ddwy flynedd cyn pandemig Covid-19. Bydd y math o anheddau sy'n cael eu gwerthu hefyd yn effeithio ar bris cyfartalog anheddau. Er y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach cafodd y dangosydd raddiad oren yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro tueddiadau mewn prisiau cyfartalog tai mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol er mwyn penderfynu ar unrhyw oblygiadau posibl ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithlon. Caiff tystiolaeth hyfywedd lefel uchel wedi ei diweddaru ei pharatoi i fod yn sail i fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.<br><br>Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd mai dim ond un ffactor a allai effeithio ar hyfywedd datblygiad yw prisiau tai. Er enghraifft, nodwyd fod costau adeiladu wedi codi dros y cyfnod monitro. Er na chaiff costau adeiladu eu nodi fel dangosydd monitro yn y Cynllun Datblygu Lleol, caiff materion hyfywedd cyffredinol eu hadolygu wrth i wybodaeth ddod ymlaen ar sail achos-wrth-achos ac mewn cysylltiad gyda gwaith hyfywedd strategol yng nghyswllt proses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i ystyried unrhyw oblygiadau posibl pellach ar gyfer gweithredu Polisi S4 yn effeithlon. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Ystyried cynnydd safleoedd Prif Bentref fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosyddion Craidd

[1] Dangosydd a'r Targed yn seiliedig ar ardal cynllunio Sir Fynwy a Chynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy yn unig.

**Defnyddiwyd Grant Tai Cymdeithasol i newid y tair annedd marchnad yn anheddau fforddiadwy, fel canlyniad mae'r safle bellach yn 100% tai fforddiadwy.

## Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cadw cyfleusterau cymunedol a hamdden presennol a cheisio datblygu cyfleusterau ychwanegol |
| **Polisi Strategol:** | S5 Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1 a 5 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | CRF1, CRF3 |

**Newid yn y Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio | Dim targed*<br>*(2014-15: 9)*<br>*(2015-16: 5)*<br>*(2016-17: 4)*<br>*(2017-18: 10)*<br>*(2018-19: 8)*<br>*(2019-20:12)*<br>*(2020-21:3)* | Dim* | **13** |
| 2. Nifer y cyfleusterau cymunedol/ hamdden a gollwyd | Lleihau colled cyfleusterau cymunedol a hamdden<br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 6)*<br>*(2017-18: 2)*<br>*(2018-19:2)*<br>*(2019-20:4)*<br>*(2020-21:1)* | Colli unrhyw 1 gyfleuster cymunedol/ hamdden mewn unrhyw un flwyddyn | **1** |

| Dadansoddiad |
|---|
| 1. Cafodd 13 cais cynllunio eu cymeradwyo ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro presennol. Roedd wyth o'r ceisiadau'n ymwneud â defnyddiau cymunedol a phump â hamdden.<br><br>Roedd y ceisiadau yng nghyswllt y defnyddiau cymunedol yn cynnwys: cyfleuster addysgol cyn-ysgol newydd yn Whitecastle, Trefynwy; estyniad i Ysgol Gynradd Brynbuga; newid defnydd i feithrinfa o ddefnydd A3 yn uned 103 Wales 1, Magwyr; newid defnydd o C3 (annedd) i gartref gofal plant yn Fferm Dobson, y Fenni; newid defnydd annedd i ddeintyddfa yn Lidstone, y Fenni; ymestyn maes parcio Parc Gwledig Castell Cil-y-coed; a storfa bin gwyrdd newydd yn Stryd Fawr Cas-gwent.<br><br>Er nad yn enilliad, nodir y cymeradwywyd cais hefyd i wella'r cyfleuster claddedigaeth presennol yn Safle Claddedigaeth Naturiol Brynbuga.<br><br>Roedd y defnyddiau hamdden a gymeradwywyd yn cynnwys: newid defnydd o B8 i gaffe yn The Cedars, Goetre; standiau newydd gyda 100 a 50 sedd yng Nghlwb Pêl-droed Tref Cas-gwent; a gwelliannau i Glwb Athletig Cas-gwent, Clwb Criced y Fenni a Gerddi Linda Vista, Y Fenni.<br><br>Drwyddi draw, mae nifer y cyfleusterau cymunedol a ganiateir yn un o'r lefelau uchaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r cynllun a dengys fod fframwaith polisi cymunedol a hamdden yng weithredu'n effeithlon i alluogi datblygiad o'r fath yn y Sir. |
| 2. Collwyd un cyfleuster cymunedol dros y cyfnod a gafodd ei fonitro. Mae hyn yn ymwneud â cholli Neuadd Kingdom, Rhaglan, hen neuadd gyfarfod nas defnyddiwyd mwyach a gafodd newid defnydd i breswyl. Er nad oes cyfeiriad penodol yn yr adroddiad cais cynllunio, caiff y gymuned leol ei gwasanaethu gan gyfleusterau eraill, yn cynnwys y neuadd bentref bresennol a safleoedd eraill addas ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus o fewn Rhaglan. Nodir nad yw neuadd bresennol y pentref yn hygyrch i bawb ac y byddai'n fanteisiol cael neuadd newydd, ac mae prosiect yn mynd rhagddo yn y gymuned i geisio cyflawni hyn. Felly ystyriwyd bod colli'r neuadd gyfarfod yn dderbyniol gan roi ystyriaeth i Bolisïau S5 a CRF1 a chaiff ei golled ei gyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â'r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Ni ystyrir yn addas cynnwys targed/sbardun ar gyfer y dangosydd hwn gan fod y Cyngor mewn rhai achosion yn edrych ar ostwng nifer y cyfleusterau cymunedol neu ganolbwyntio buddsoddiad ar gyfleusterau presennol.

## Manwerthu

**Nod/Deilliant Monitro:** Cyfeirio datblygiad manwerthu bwyd a heb fod yn swmpus newydd at drefi a chanolfannau lleol y Sir a cheisio cynyddu eu bywiogrwydd, eu gwneud yn fwy deniadol ac yn fwy hyfyw.

**Polisi Strategol:** S6 Manwerthu

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 1 a 2

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** RET1-RET4

**Newidiadau yn y Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021–31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o ddatblygiad manwerthu bwyd ac eitemau answmpus a ganiateir mewn canol trefi/canolfannau lleol o'r holl ddatblygiadau a ganiateir | 90% o ofod newydd manwerthu bwyd ac eitemau answmpus i fod yng nghanol trefi/canolfannau lleol<br><br>*(2014-15: 0%)*<br>*(2015-16: 53.2%)*<br>(2016-17: 33%)<br>(2017-18 – 35.7%)<br>(2018-19 – 0%)<br>(2019-20 – 70.5%)<br>(2020-21 – 0%) | Mwy na 10% o ofod manwerthu newydd bwyd ac eitemau answmpus yn cael ei ddatblygu tu allan i ganol trefi/ canolfannau lleol mewn unrhyw 1 flwyddyn | Caniatau 35% datblygiad manwerthu mewn canol trefi/ canolfannau lleo<br><br>Caniatau 736.5 m sg tu allan i ganol trefi/ canolfannau lleol |
| 2. Canran unedau gwag yn ardal siopa ganolog pob canol tref a chanolfan leol | Dim cynnydd yn nifer unedau gwag:<br>**a) Y Fenni**<br>*(2014: 5.1%)*<br>*(2015: 5.8%)*<br>*(2016: 8.7%)*<br>*(2017: 6.3%)*<br>*(2018: 4.7%)*<br>*(2019: 6.6%)*<br>*(2020: 7.6%)*<br><br>( | Cyfradd unedau mewn canol tref/ canolfan leol yn codi am 2 flynedd yn olynol | **3.6%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **b) Cil-y-coed**<br>*(2014: 9.2%)*<br>*(2015: 7.6%)*<br>*(2016: 10.1%)*<br>*(2017: 8.8%)*<br>*(2018: 10.6%)*<br>*(2019: 7.6%)*<br>*(2020: 13.4%)* | | **6.1%** |
| | **c) Cas-gwent**<br>*(2014: 9.0%)*<br>*(2015: 10%)*<br>*(2016: 7.1%)*<br>*(2017: 5.9%)*<br>*(2018: 11.8%)*<br>*(2019: 11.2%)*<br>*(2020: 13.5%)* | | **11.2%** |
| | **d) Trefynwy**<br>*(2014: 8.3%)*<br>*(2015: 7.9%)*<br>*(2016: 4.9%)*<br>*(2017: 10.1%)*<br>*(2018: 10.1%)*<br>*(2019: 14.4%)*<br>*(2020: 15.4%)* | | **15.5%** |
| | **e) Magwyr**<br>*(2014: 9.1%)*<br>*(2015: 0%)*<br>*(2016; 0%)*<br>*(2017: 9.1%)*<br>*(2018: 4.5%)*<br>*(2019: 13.6%)*<br>*(2020: 0%)* | | **0%** |
| | **f) Rhaglan**<br>*(2014: 0%)*<br>*(2015: 0%)*<br>*(2016: 0%)*<br>*(2017: 0%)*<br>*(2018: 9%)*<br>*(2019: 9%)*<br>*(2020: 9%)* | | **9%** |
| | **g) Brynbuga**<br>*(2014: 7.8%)*<br>*(2015: 11.1%)*<br>*(2016: 13.1%)*<br>*(2017: 9.7%)*<br>*(2018: 15.8%)*<br>*(2019:15.3%)* | | **8.5%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2020: 9.8%)* | | |
| 3. Canran defnyddiau A1 ym mhrif ffryntiadau siopa y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy *** | % defnyddiau A1 yn ddim llai na'r trothwyon a ddynodwyd ar gyfer prif ffryntiadau siopa (PSF) y trefi fel y'u diffinnir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa ** | % ffigurau am brif ffryntiad siopa yn is na'r trothwy a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol | |
| | **a) Y Fenni**<br>• PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd , Frogmore a 1 Stryd Nevill ***(Targed 75%)*** *(2014: 76%)* *(2015: 77%)* *(2016:76%)* *(2017: 75%)* *(2018: 75%)* *(2019: 74%)* *(2020: 73%)* | | • **72%** |
| | • PSF2 Cibi Walk ***(Targed 100%)*** *(2014: 100%)* *(2015: 100%)* *(2016: 100%)* *(2017: 100%)* *(2018: 94%)* *(2019: 100%)* *(2020: 100%)* | | • **100%** |
| | • PSF3 Stryd Groes (51- 60 a Neuadd y Dref) ***(Targed 55%)*** *(2014: 36%)* *(2015: 36%)* *(2016:36%)* *(2017: 36%)* *(2018: 36%)* *(2019:36%)* *(2020: 36%)* | | • **36%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **b) Cil-y-coed**<br>• PSF4 Heol Casnewydd<br>***(Targed 65%)***<br>*(2014: 65%)*<br>*(2015: 65%)*<br>*(2016: 65%)*<br>*(2017: 65%)*<br>*(2018: 63%)*<br>*(2019: 63%)*<br>*(2020: 63%)* | | • **63%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **c) Cas-gwent**<br>• PSF5 Stryd Fawr<br>***(Targed 75%)***<br>*(2014: 80%)*<br>*(2015: 80%)*<br>*(2016: 80%)*<br>*(2017: 80%)*<br>*(2018: 76%)*<br>*(2019: 80%)*<br>*(2020: 80%)* | | • **76%** |
| | • PSF6 Heol Santes Fair<br>***(Targed 65%)***<br>*(2014: 65%)*<br>*(2015: 65%)*<br>*(2016: 65%)*<br>*(2017: 69%)*<br>*(2018: 69%)*<br>*(2019: 73%)*<br>*(2020: 73%)* | | • **73%** |
| | **d) Trefynwy**<br>• PSF7 Stryd Mynwy<br>***(Targed 75%)***<br>*(2014: 77%)*<br>*(2015: 76%)*<br>*(2016:72%)*<br>*(2017: 74%)*<br>*(2018:73%)*<br>*(2019: 73%)*<br>*(2020: 73%)* | | • **73%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • PSF8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd Priordy 1-4<br>***(Targed 65%)***<br>*(2014: 57%)*<br>*(2015: 57%)*<br>*(2016:62%)*<br>*(2017: 65%)*<br>*(2018: 67%)*<br>*(2019:67%)*<br>*(2020: 69%)* | | • **69%** |

| **Dadansoddiad** |
|---|

1. Caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau manwerthu A1 newydd bwyd a nwyddau answmpus yn nhrefi/canolfannau lleol y Sir yn ystod y cyfnod a gafodd ei fonitro:

- DM/2021/01532 – mae hyn yn cyfeirio at addasu hen storfa yn stiwdio fach trin gwallt yn y Fenni, arferid defnyddio'r storfa i gefnogi defnydd A3.
- DM/2019/01793 – mae hyn yn cyfeirio at ymestyn siop fwyd Aldi yn y Fenni. Er nad yw o fewn yr ardal siopa ganolog, mae ei leoliad ar ymyl canolfan yn cyfiawnhau ei gynnwys yma. Bydd yr estyniad yn ychwanegu 380m3 o ofod llawr manwerthu i'r siop. Cafodd siop bresennol Aldi ganiatâd yn 2008 a bu'n gweithredu'n llwyddiannus am tua 7 mlynedd. Felly cafodd egwyddor defnydd manwerthu ei sefydlu'n dda. Mae angen hyn i alluogi'r siop i gael ei gosod allan yn well er mwyn hybu profiad cwsmeriaid. Mae'r cais yn dweud nad oes bwriad ehangu ar nifer y cynnyrch (tua 1500) ar hyn o bryd ac felly bydd y stôr yn parhau i ategu yn hytrach na chystadlu gyda'r siopau eraill o fewn canol y dref.

Fodd bynnag, gan y caniatawyd tri chais (65% o geisiadau ar gyfer defnyddiau manwerthu newydd) y tu allan i'r canolfannau, cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd ei gyrraedd. Nodir fod un o'r ceisiadau'n cyfeirio at estyniad i uned fanwerthu bresennol, mae'r ail yn ategol i'r defnydd presennol ac ystyriwyd y byddai'r trydydd cais yn helpu i ddiwallu'r angen meintiol ac ansoddol am fwy o siopa nwyddau cyfleustra ym Magwyr. Er y cyrhaeddwyd y sbardun, o gofio am y cyfiawnhad dros y caniatâd, rhoddwyd graddiad oren yn hytrach na graddiad coch gan nad oes unrhyw bryderon am weithredu'r polisi. Caiff manylion llawn eu nodi isod.

- DM/2021/01023 – mae hyn yn cyfeirio at estyniad i'r gofod manwerthu ychwanegol yng Nghanolfan Arddio Brynbuga.
- DM/2021/01021 – mae hyn yn cyfeirio at sefydlu ystafell tap fechan ac ardal eistedd i brofi a gwerthu'r cwrw a wneir ar y safle yn Stad Ddiwydiannol Pont Hafren. Ystyrir y bydd y defnydd yn ategol i'r bragdy micro presennol ar y safle i arddangos eu dewis o gynnyrch a chynyddu ymwybyddiaeth brand. Bydd y cynnig yn helpu i gynnal hyfywedd y busnes presennol ac i helpu cynnal a chreu swyddi newydd.

- DC/2011/00083 – mae hyn yn cyfeirio at siop cyfleustra newydd ar hen safle Magor Motors yn Heol Casnewydd, Magwyr. Ystyriwyd y byddai'r stôr a gynigir yn helpu i ateb angen meintiol ac ansoddol am siopa nwyddau cyfleustra ychwanegol ym Magwyr. Er ei fod tu allan i'r ardal siopa ganolog, ystyrir y byddai gan ddarparu mwy o leoedd parcio penodol y potensial i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r ardal siopa ganolog er bydd unedau manwerthu yno tebyg i swyddfa'r post a'r fferyllfa, yn ogystal â busnesau eraill. Nid oes unrhyw safleoedd eraill ar gael neu yn cysylltu'n well gyda'r ardal siopa ganolog ac felly mae'r cynnig yn cyflawni'r prawf dilyniant. Er ei bod yn debyg y byddai rhai masnachwyr presennol (yn bennaf y Co-op) yn colli peth masnach, y mater i gael ei ystyried oedd yr effaith ar fywiogrwydd a hyfywedd yr ardal siopa ganolog i gyd ac nid cystadleuaeth yn nhermau effaith ar fasnachwr unigol. O bwyso a mesur popeth, ystyriwyd fod y cynnig yn cyflawni polisïau cynllunio a chanllawiau lleol a chenedlaethol ar fanwerthu.

Ystyrir bod y datblygiadau yn briodol o gofio am amgylchiadau neilltuol y ceisiadau. Oherwydd hyn, ni ystyrir fod unrhyw bryderon arall gyda gweithredu polisïau manwerthu y Cynllun Datblygu Lleol ac felly nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau bbbbbi gadw golwg ar y mater hwn yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu y Cynllun.

2. Roedd y cyfraddau unedau gwag a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro** yn holl ardaloedd siopa canolog y Sir, ac eithrio Trefynwy, yn is na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (14.5% Mehefin 2021, Local Data Company). Roedd cyfraddau lleoedd gwag manwerthu yng nghanol trefi'r Sir yn amrywio o 3.6% yn y Fenni i 15.5% yn Nhrefynwy.

Dengys cymhariaeth gyda chyfraddau unedau gwag y llynedd y bu gostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag mewn pedair canolfan: Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga. Gwelodd y Fenni ostyngiad o 7.6% yn 2020 i 3.6% eleni, Cil-y-coed 13.4% i 6.1%, Cas-gwent 13.5% i 11.2% a Brynbuga 9.8% i 8.5%. Ni fu unrhyw newid mewn dwy ganolfan, Rhaglan a Magwyr, gyda Magwyr heb unrhyw unedau gwag am yr ail flwyddyn yn olynol. Yr unig ganolfan i weld cynnydd yn y gyfradd unedau gwag yw Trefynwy, ac er bod y cynnydd hwn yn ymylol 15.4% i 15.5%, cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae'r gyfradd unedau gwag yn Nhrefynwy yn llawer uwch o gymharu gyda'r canolfannau eraill a hefyd yn uwch na'r lefel a gofnodwyd ar lefel Prydain Fawr am 6 mis cyntaf 2021.

Yn Nhrefynwy, bu'r cynnydd mewn cyfanswm cyfraddau unedau gwag yn llwyr ar draws y prif ffryntiadau, gyda gostyngiad yn y cyfraddau unedau gwag mewn ffryntiadau eilaidd yn yr arolwg diweddaraf, i lawr o 21.1% yn 2020 i 16.1% yn 2021. Gall hyn yn rhannol adlewyrchu effaith pandemig Covid-19 ar y stryd fawr, yn neilltuol gyda cholled rhai cadwyni cenedlaethol tebyg i Peacocks mewn blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, gan fod hyn yn uwch na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr a'r uchaf a gofnodwyd mewn unrhyw gyfnod monitro, bydd angen edrych yn ofalus ar hyn yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.

Er, ac eithrio Trefynwy, bod cyfraddau unedau gwag y stryd fawr yn sefydlog ac yn is na chyfartaledd Prydain Fawr, cydnabyddir fod bywiogrwydd y stryd fawr yn allweddol yng nghymeriad ac apêl ein trefi marchnad. Mae cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn anelu i gefnogi canol trefi ac mae Sir Fynwy wedi cyflwyno cais cystadleuol am gyllid grant. Mae'r argyfyngau mewn costau byw a chostau ynni yn achosi bygythiadau ychwanegol i fusnesau wrth i gostau gynyddu a gwariant cwsmeriaid ostwng. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod effeithiau'r pandemig diweddar wedi gweld cynnydd mewn gweithio gartref gyda phreswylwyr yn defnyddio eu canolfannau lleol i gael mynediad i fanwerthu/gwasanaethau a chyfleusterau, yn hytrach na mynd i drefi mawr/dinasoedd. Felly er bod Covid-19 wedi effeithio ar ganol trefi Sir Fynwy, efallai fod hynny i raddau llai nag ar drefi mawr a dinasoedd, gydag adroddiad y Local Data Company yn arbennig yn dangos fod cyfraddau unedau gwag mewn canol dinasoedd wedi cynyddu yn llawer mwy ers 2019 na chanolfannau bach. Mae effeithiau hirdymor pandemig Covid-19 ar y Stryd Fawr ac ar batrymau siopa'r dyfodol yn dal i ddod i'r amlwg a bydd angen eu monitro mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol a'u hystyried yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro lefelau unedau gwag yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar dueddiadau.

3. Mae'r canran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa (PSF) y trefi a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro*** yn cydymffurfio yn gyffredinol gyda'r trothwyon a ddynodwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Brif Ffryntiadau Siopa.

Cafodd y trothwyon a ddynodwyd yn nwy o'r prif ffryntiadau siopa eu gosod ar lefelau uwch na'r lefel bresennol o ddefnyddiau manwerthu heb fod yn A1 ar y pryd gan fod dymuniad i wella eu cynnig manwerthu h.y. PSF 3 Stryd Groes (51-60 a Neuadd y Dref) y Fenni a PSF 8 Stryd yr Eglwys, Sgwâr Agincourt a Stryd y Priordy (1-4) Trefynwy. Er na fu unrhyw newid yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu o fewn PSF3 ers y dechreuwyd monitro, bu cynnydd yn y gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn PSF8 dros y cyfnodau monitro diwethaf, o 57% yn 2015 i 69% yn 2021. Er cyrraedd y trothwy a ddynodwyd o fewn PSF8, mae'n parhau'n bwysig cadw safiad polisi cryf ar gynigion ar gyfer newid defnydd i ddefnyddiau heblaw manwerthu yn y ddau ffryntiad hyn er mwyn gwella a gwarchod eu cynnig manwerthu.

Mae cymhariaeth gyda ffigurau'r llynedd yn dangos fod y gyfran o ddefnyddiau A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi yn parhau heb newid ac eithrio'r dilynol:

- Cofnododd PSF1 Stryd Groes, Stryd Fawr, Stryd Frogmore a 1 Stryd Neville ostyngiad bach, i lawr o 73% i 72%. Mae hyn oherwydd newid defnydd un uned o ddefnydd A1 i ddefnydd A3. Arferai'r uned fod yn siop ddillad ac mae'n awr yn Bar24. Er y barnwyd y byddai newid defnydd yn groes i Bolisi RET1 maen prawf (c) gan y byddai newid defnydd ar y ffryntiad hwn (PSF1) yn golygu y byddai'r % o unedau heb fod yn A1 yn cynyddu, bu'r uned yn wag am bron 2 flynedd a gan roi ystyriaeth i ddogfen adferiad yn dilyn Covid-19 Adeiladu Lleoedd Gwell, oedd yn cydnabod yr effaith a gafodd Covid-19 ar ganol trefi a'r angen i ymateb yn hyblyg, ystyriwyd y byddai'r newid arfaethedig mewn defnydd yn ychwanegu at fywiogrwydd canol y dref drwy ddenu cwsmeriaid a chynyddu nifer ymwelwyr a fyddai o fudd i ddefnyddiau manwerthu cyfagos ac felly'n dderbyniol o ran egwyddor.

- Cofnododd PSF5 Stryd Fawr, Cas-gwent ostyngiad mewn defnyddiau A1 i lawr o 80% i 76%. Mae hyn oherwydd newid defnydd un uned o ddefnydd A1 i ddefnydd A3. Arferai'r uned fod yn siop ddillad ac mae'n awr yn ystafell te. Er bod newid defnydd yn y lleoliad hwn wedi arwain at golli uned A1 gyda ffryntiad dwbl hir, mae defnyddiau A1 ac A3 ar y llawr daear yn gyffredin iawn yn y rhan hon o Gas-gwent. Ystyriwyd na fyddai newid defnydd y siop hon i ddefnydd A3 yn creu gor-grynhoad o ddefnyddiau gan wanhau'r cymeriad manwerthu. Mae ystafell de y math o ddefnydd a fyddai'n cyfrannu at gynnig manwerthu lleoliad yng nghanol y dref ac ystyrir ei fod yn ddefnydd priodol. Ystyriwyd fod y cynnig yn cydymffurfio gydag amcanion polisi RET1 gan y bydd yn helpu i ddenu ymwelwyr i ganol y dref yn arbennig gan y bwriedir i'r ystafelloedd te fod ar agor yn ystod y dydd. Byddai'r cynnig hefyd yn rhoi cyfleoedd gwaith i bobl leol.

Yn gyffredinol, ystyrir fod prif ffryntiadau siopa y trefi yn gweithio'n dda yn nhermau'r gyfran o ddefnyddiau A1 ac nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen monitro effeithiau hirdymor pandemig Covid-19 ar y Stryd Fawr ac ar batrymau siopa y dyfodol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd fframwaith polisi manwerthu y Cynllun.

**Argymhelliad**

1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.
3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

*Rhoddwyd dau ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl dros y cyfnod monitro mewn lleoliadau tu allan i'r dref.
**Papur Cefndir Manwerthu Sir Fynwy (Awst 2022). Dyddiad sylfaen Hydref 2021.
***Canllawiau Cynlluno Atodol Prif Ffryntiadau Siopa Sir Fynwy, Ebrill 2016

## Economi a Menter

**Nod/Deilliant Monitro:** Sicrhau cyflenwad digonol o dir cyflogaeth a gwarchod tir cyflogaeth y Sir.

**Polisi Strategol:** S8 Menter ac Economi, S9 Darpariaeth Safleoedd Cyflogaeth

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 7

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** E1-E3, RE1, SAE1-SAE2

**Newidiadau yn y Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun ynghylch y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Cyflenwad net /datblygiad tir cyflogaeth ♦ | Cynnal digon o dir cyflogaeth i ateb y gyfradd galw a ddefnyddiwyd o 1.9ha y flwyddyn<br><br>*(2014-15: 46.8ha)*<br>*(2015-16: 41.18ha)*<br>*(2016-17: 40.76ha)*<br>*(2017-18: 40.16ha)*<br>*(2018-19: 40.16ha)*<br>*(2019-20: 40.16ha)*<br>*(2020-21: 40.16ha* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | **40.16ha** |
| 2. Galw am dir cyflogaeth♦ | Cadw digon o dir cyflogaeth i ateb y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn<br>*(2014-15: 0.38ha)*<br>*(2015-16: 1.131ha)*<br>*(2016-17: 3.21ha)*<br>*(2017-18: 5.002ha)*<br>*(2018-19: 0.873ha)*<br>*(2019-20: 3.74ha)*<br>*(2020-21: 0.38ha* | Dim digon o dir cyflogaeth ar gael i ateb y gyfradd galw a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn | 0.055ha |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd (yn ôl math) ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd fel y'u dynodir ym Mholisi SAE1♦ | Dim targed penodol<br>*(2014-15: 0)*<br>*(2015-16: 3)*<br>*(2016-17: 2)*<br>*(2017-18: 1)*<br>*(2018-19: 2)*<br>*(2019-20: 0)*<br>*(2020-21: 2)* | Diffyg datblygiad ar safleoedd cyflogaeth strategol a ddynodir ym Mholisi SAE1 erbyn diwedd 2017 | **1 caniatâd cynllunio wedi ei roi** |
| 4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B) yn ôl setlliad | Dim targed penodol | Dim | |
| | **Prif Drefi**<br>*(2014-15: 9. ha)*<br>*(2015-16: 0.95ha)*<br>*(2016-17: 0.52ha)*<br>*(2017-18: 0.784ha)*<br>*(2018-19: 4.37ha)*<br>*(2019-20: 0.11ha)*<br>*(2020-21: 0.30ha)* | | **0.3 ha** |
| | **Aneddiadau Glannau Hafren**<br>*(2014-15: 0.39ha)*<br>*(2015-16: 2.83ha)*<br>*(2016-17: 0.17ha)*<br>*(2017-18: 2.124ha)*<br>*(2018-19: 0.04ha)*<br>*2019-20: 0.92ha)*<br>*(2020-21: 3:47ha)* | | **1.69 ha** |
| | **Aneddiadau Gwledig Eilaidd**<br>*(2014-15: 0.3ha)*<br>*(2015-16: 0.48ha)*<br>*(2016-17: 0.01ha)*<br>*(2017-18: 0ha)*<br>*(2018-19: 0.005ha)*<br>*(2019-20: 0.01ha)*<br>*(2020-21: 0ha)* | | **0.05 ha** |
| | **Gwledig Cyffredinol**<br>*(2014-15: 0.25ha)*<br>*(2015-16: 0.22ha)*<br>*(2016-17: 1.14ha)*<br>*(2017-18: 0.575ha)*<br>*(2018-19: 0.454ha)*<br>*(2019-20: 0.096ha)*<br>*(2020-21: 1.27ha)* | | **1.55 ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth (dosbarthiadau defnydd B♦♦) yn ôl sector* | Dim targed penodol | Dim | |
| | Gweithgynhyrchu | | **1.48ha** |
| | Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | | **0.42ha** |
| | Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu | | **0.87ha** |
| | Gweithgareddau stad tiriog; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; Gweithgareddau gwasanaethau gweinyddol a chefnogaeth | | **0.49ha** |
| | Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | | **0.14ha** |
| | Adeiladu | | **0.20ha** |
| 6. Faint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth (h.y. dim B1, B2, B8) | Lleihau colli tir cyflogaeth i ddefnyddiau heb fod yn B1, B2, B8) *(2014-15: 0.08ha)* *(2015-16: 0.56ha)* *(2016-17: 0.65ha)* *(2017-18:0.12ha)* *(2018-19: 0.105ha)* *(2019-20: 0ha)* *(2020-21: 1.21ha)* | Colli unrhyw dir cyflogaeth B1, B2 neu B8 yn unrhyw un flwyddyn | **0.03ha** |
| 7. Cyfran y gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy*** | Cynyddu'r gyfran o'r gweithlu preswyl yn gweithio o fewn Sir Fynwy *(2014: 54.5%)* *(2015: 58.3%)* *(2016: 57.9%)* *(2017: 58.1%)* *(2018: 60.4%)* *(2019:60.1%)* *(2020: 56.9%)* | Dim | **61.3%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8. Nifer y bobl yn cymudo i Sir Fynwy♦♦♦ | Gostwng lefel mewn-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,200)*<br>*(2015: 17,800)*<br>*(2016: 20,400)*<br>*(2017: 17,100)*<br>*(2018: 24,600)*<br>*(2019: 18,900)*<br>*(2020: 19,000)* | Dim | **14,300** |
| Nifer y bobl yn cymudo o Sir Fynwy ♦♦♦ | Gostwng lefel yr all-gymudo dros gyfnod y cynllun<br>*(2014: 19,600)*<br>*(2015: 18,700)*<br>*(2016: 18,700)*<br>*(2017: 18,500)*<br>*(2018: 17,400)*<br>*(2019: 17,700)*<br>*(2020: 19,600)* | Dim | **17,100** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Ar hyn o bryd mae 40.16ha o dir cyflogaeth a gael ar draws y Sir wedi'i ddyrannu dan bolisi SAE1 y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Nid yw'r argaeledd tir cyflogaeth wedi newid ers ffigurau'r pedwar Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol, sy'n adlewyrchu'r ffaith na ddefnyddiwyd unrhyw dir newydd ar safleoedd cyflogaeth strategol SAE1 y Cyngor yn ystod y cyfnod monitro presennol.<br><br>Felly cafodd digon o dir cyflogaeth ei gadw dros y cyfnod monitro gan roi cyfle i gyrraedd y gyfradd defnydd a ddynodwyd o 1.9ha y flwyddyn. Mae polisïau S8 ac S9 yn gweithredu'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau ei ymdrechion drwy ei Dîm Menter i hyrwyddo cynlluniau economaidd sy'n ceisio cefnogi gweithgaredd economaidd yn y Sir. | | | |
| 2. Roedd cyfradd defnydd (h.y. datblygiadau a gwblhawyd) o dir cyflogaeth ar naill ai safleoedd dynodedig (SAE1 neu SAE2) yn gyfwerth â 0.055ha dros y cyfnod monitro. Cyflenwyd hyn mewn tri safle cyflogaeth gwarchodedig: Heol Wonastow (SAE21) yn cynnwys seilo storio ac estyniad llawr cyntaf, estyniad bach i ddeintyddfa yn Mayhill/Heol Hadnock (SAE2m) a Bragdy Magwyr (SAE2o) lle cafodd y estyniad mewn adeilad presennol i luosogi burum ei gwblhau.<br><br>Mae'r sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yn ymwneud â chyfanswm y cyflenwad tai mewn Safleoedd Cyflogaeth Strategol SAE1 yn hytrach na chyfraddau defnydd, serch hynny cedwir golwg agos ar y dangosydd hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â thir cyflogaeth. | | | |

| |
|---|
| 3. Cafodd un cais cynllunio ei gymeradwyo ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd fel y dynodir yn SAE1 yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn cyfeirio at y safle cyflogaeth SAE1 a ddyrannwyd ym Mharc Beaufort yng Nghas-gwent (SAE1i) ac roedd yn ymwneud â newid defnydd o warws manwerthu i B1 diwydiannol ysgafn yn cynnwys ehangu'r uned i gynnwys llawr mezzanine. Byddai'r uned yn cynyddu gofod llawr cyflogaeth ychwanegol gan tua 300m$^2$.<br><br>Y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn yw'r diffyg datblygiad ar ddyraniadau cyflogaeth SAE1 erbyn diwedd 2017. Rhoddwyd cyfanswm o chwe chaniatâd cynllunio mewn safleoedd SAE1 erbyn diwedd 2017 a phump arall ers 2017, gan roi cyfanswm o 11 cais ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (er bod tri'n ymwneud â cheisiadau newid defnydd heb fod yn ymwneud â Dosbarthiadau Defnydd B).<br><br>Fodd bynnag, sylweddolir y bu'r cynnydd yn gyfyngedig yn gyffredinol ar gyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol dros y cyfnod monitro. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â chyflenwi safleoedd cyflogaeth strategol. Cynhaliwyd adolygiad llawn o ddyraniadau SAE1 fel rhan o'r sylfaen tystiolaeth i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd drwy baratoi Adolygiad Tir Cyflogaeth (Mehefin 2021). Mae asesiadau manwl o'r safleoedd cyflogaeth strategol yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau i gael eu hadolygu wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd fynd yn ei flaen. |
| 4. Nod y dangosydd hwn yw monitro faint o dir a gymeradwywyd i hwyluso cyflenwi mwy o ofod llawr cyflogaeth ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiateir yn ôl anheddiad yn Sir Fynwy. Cymeradwywyd 19 cais ar gyfer defnyddiau cyflogaeth o'r fath yn ystod y cyfnod monitro, yn gyfanswm o 3.59ha o dir. O'r rhain, roedd un caniatâd yn ymwneud â safle cyflogaeth SAE1 a ddyrannwyd ym Mharc Beaufort yng Nghas-gwent gyda'r manylion wedi eu trafod yng nghyswllt dangosydd 3 uchod.<br><br>Cymeradwywyd 1.70ha mwy o dir ar gyfer datblygiad ychwanegol cysylltiedig â dosbarth defnydd B a safleoedd cyflogaeth gwarchodedig SAE2. Roedd hyn yn cynnwys dau gais ar safle SAE2p Pont Hafren yn cynnwys estyniad warws 300m sg (DM/2021/00781) a safle dros dro i weithgynhyrchu concrit yn cyfrif am 0.2ha (DM/2020/00691). Roedd dau ganiatâd cynllunio pellach yn ymwneud â safle gwarchodedig Bragdy Magwyr (SAE2o) yn cyfrif am tua 1.47ha o dir. Roedd hyn yn cynnwys codi adeilad newydd yn cynnwys 10,015 m sg o ofod gweithgynhyrchu, labordy a swyddfa (DM/2021/01717) ac ail gais am yr estyniad i'r adeilad presennol ar gyfer lluosogi burum (DM/2021/01001).<br><br>Roedd y 14 cais arall ar safleoedd cyflogaeth heb eu dyrannu yn gyfanswm o 1.6ha o dir, yn cynnwys codi uned gychwynnol fach ar gyfer B2/B8 ar Magor Pill Farm (DM/2021/01489) a newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i'r safle storio carafanau presennol yn Chapel Farm, Gwndy.<br><br>Roedd y prif drefi yn cyfrif am 0.3ha o'r gofod llawr cyflogaeth dosbarth defnydd B a gymeradwywyd. Roedd hyn yn ymwneud â newid defnydd ac estyniad i B1 ar SAE1i Parc Beaufort, Cas-gwent fel y trafodir uchod. |

Yn Ardal Glannau Hafren oedd y gyfran fwyaf o gyflogaeth dosbarth defnydd B cymeradwy, yn cyfrif am 1.70ha o'r cyfanswm o 3.59ha. Roedd hyn yn ymwneud â'r pedwar cais cynllunio a nodwyd uchod – dau yng nghyswllt safle SAE2o Bragdy Magwyr a dau yng nghyswllt Stad Ddiwydiannol Pont Hafren (SAE2p).

Roedd un cais cynllunio ym ymwneud ag anheddiad Gwledig Eilaidd Rhaglan ar gyfer codi adeilad lladd-dy newydd ac yn cyfrif am 0.05ha o dir cyflogaeth.

Mae 13 caniatâd o fewn yr ardal gyffredinol wledig yn cyfrif am y 1.55ha arall o dir cyflogaeth. Roedd hyn yn cynnwys codi adeilad masnachol/storfa diwydiannol ysgafn yn Little Castle Farm, Rhaglan (DM/2021/01987), codi uned gychwynnol ar gyfer defnyddiau B2/B8 yn Magor Pill Farm (DM/2021/01489) a newid defnydd ysgubor amaethyddol ar gyfer storio ceir yn Fferm Clawdd y Parc, Llangybi (DM/2020/01076).

Er nad oes targed penodol yn ymwneud â'r dangosydd hwn, mae' Cyngor yn awyddus i fonitro caniatâd cyflogaeth ar gyfer defnyddiau B yn y Sir. Mae faint o arwynebedd tir cyflogaeth a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro yn is nag a gofnodwyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (5.04ha) ond mae'n debyg i'r hyn a gyflawnwyd yn y rhan fwyaf o gyfnodau monitro. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol ac yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Economi a Menter i hyrwyddo cyfleoedd economaidd yn y Sir. Yn ogystal â'r ceisiadau a drafodir yma, mae hefyd ganiatâd ar gyfer newid defnydd i unedau cyflogaeth presennol nad ydynt yn arwain at dir cyflogaeth ychwanegol ond sy'n adlewyrchu'r 'corddi' sy'n digwydd mewn darpariaeth bresennol. Er enghraifft, y newid defnydd o B2 i B8 mewn uned yng Ngwaith Cil-y-coed, Forge Row ar Stad Ddiwydiannol Pont Hafren.
(DM/2021/01071).

Er bod dangosyddion 4 a 5 yr adan hon yn cyfeirio at ddosbarthiadau defnydd B, mae'n ddefnyddiol nodi y rhoddwyd caniatâd ar gyfer nifer o ddefnyddiau eraill cynhyrchu cyflogaeth (h.y. defnyddiau heb fod yn ddosbarth B) yn ystod y cyfnod monitro, yn cynnwys rhai dulliau o gynlluniau menter/arallgyfeirio gwledig fel y manylir yn y dadansoddiad ar gyfer Polisi S10.

Yn ychwanegol, fel y manylir yn y dadansoddiad a gyfer Polisi S11 (Economi Ymwelwyr), cymeradwywyd 14 cais ar gyfer defnydd twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth yn amrywio o lety gwyliau i osodiadau gwyliau a llety glampio mewn gwahanol aneddiadau ar draws y Sir. Bydd y rhain yn rhoi hwb pellach i'r economi ymwelwyr yn Sir Fynwy.

5. Nod y dangosydd hwn yw monitro faint o ofod llawer cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd yn ôl sector yn Sir Fynwy. Roedd dosbarth defnydd B1 yn cyfrif am 0.5ha o ofod llawr a gymeradwywyd, dosbarth defnydd B2 am 0.47ha a 0.95ha a gyfer dosbarth warws a storfa B8. Cymeradwywyd 1.676ha arall ar ddau gais cynllunio yn cynnwys cymysgedd o ddosbarthiadau defnydd B.

Gan droi'n fwy penodol i sectorau cyflogaeth, yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) y DU 2007, roedd y caniatâd cyflogaeth a roddwyd ar gyfer 3.59ha o ddosbarthiadau defnydd B a gofnodwyd dros y cyfnod monitro yn y sectorau dilynol:**

- Masnach cyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur/beiciau modur (0.42ha)
- Trafnidiaeth a storio; gwybodaeth a chyfathrebu (0.87ha)
- Gweithgynhyrchu (1.48ha)
- Gweithgareddau eiddo tiriog; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cefnogi 90.49ha)
- Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota (0.14ha)
- Adeiladu (0.20ha)

Er nad oes unrhyw dargedau penodol yn ymwneud â'r dangosydd hwn, mae'r Cyngor yn monitro sectorau cyflogaeth sy'n dod ymlaen yn y Sir. Bydd hyn yn cynorthwyo wrth benderfynu os yw uchelgais y Cyngor ar gyfer tyfu sectorau economaidd allweddol yn cael ei gyflawni. Cynhelir adolygiad llawn o'r polisïau cyflogaeth presennol fel rhan o sylfaen tystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cydnabyddir fod gan y Cynllun hwnnw rôl allweddol wrth gefnogi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer ffyniant economaidd ac y bydd yn un o'r prif alluogwyr wrth gyflawni blaenoriaethau Sir Fynwy ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a gaiff eu nodi yn Sir Fynwy 2040: Ein Datganiad Twf ac Uchelgais Economaidd.

6. Cafodd un cais ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro sy'n cyfeirio at golli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth wedi eu dyrannu neu eu gwarchod (SAE1 a SAE2) oedd yn cynnwys 0.03ha o dir.

Mae'r cais cynllunio yn cyfeirio at safle cyflogaeth penodol a ddyrannwyd dan bolisi SAE2p – Pont Hafren, Cil-y-coed. Roedd y cais yn cyfeirio at ystafell tap fach ac ardal eistedd i flasu a gwerthu'r cwrw a wneir ar y safle ac yn golygu newid defnydd tua 176.5 m sg o'r 353 m sg dosbarth B2 presennol i ddosbarth defnydd A1. Er y bu newid yn nefnydd rhan o'r uned, bydd yn ategol i'r bragdy micro sydd ar y safle ac yn helpu i gynnal hyfywedd y busnes presennol a chreu swyddi newydd. Er y cafodd y dangosydd ei sbarduno gan y cais hwn, ni ystyrir fod unrhyw bryderon oherwydd amgylchiadau'r cynnig a chydymffurfiaeth gyda fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â'r mater.

| |
|---|
| 7. Dengys Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2021 fod 61.3% o breswylwyr y Sir yn gweithio yn yr ardal. Mae hyn yn uwch na ffigur y llynedd o 56.9% a dyma hefyd y lefel uchaf a gofnodwyd ers dechrau monitro'r Cynllun. Er y cynnydd hwn, mae'n parhau'n is na chyfartaledd Cymru o 70.7%. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly mae angen gofal wrth eu trin. Dylid nodi bod ymatebion ar gyfer lleoliad gwaith yn cyfeirio at batrwm gwaith arferol yr ymatebydd os nad oedd cyfyngiadau coronafeirws ar waith. Felly, nid yw'r data ar gyfer 2020 a 2021 yn adlewyrchu gwir batrymau cymudo a arsylwyd yn ystod y pandemig. |
| 8. Yn ôl Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2021, mae gan Sir Fynwy lif allanol net o 2,800 o gymudwyr – gyda 14,300 yn cymudo i'r ardal i weithio a 17,100 yn cymudo allan. Roedd mewn-gymudo sylweddol o Gasnewydd (3,000), Torfaen (1,900), Blaenau Gwent (1,400) a'r tu allan i Gymru (2,900). Y prif ardaloedd ar gyfer all-gymudo oedd Bryste (4,600), Casnewydd (2,600), Torfaen (2,400) a Chaerdydd (1,600) gyda 2,800 arall yn cymudo i ardaloedd eraill yn Ne Orllewin Lloegr a 1,200 i ardaloedd eraill y tu allan i Gymru. Mae'r gyfran uchel o gymudo i/o ardaloedd y tu allan i Gymru yn adlewyrchu yn glir leoliad sir Fynwy fel awdurdod ar y gororau.<br><br>Mae dymuniad i ostwng lefelau mewn-gymudo a hefyd all-gymudo a gofnodwyd yn Sir Fynwy dros gyfnod y Cynllun. Er fod lefel yr all-gymudo wedi parhau'n weddol gyson dros gyfnod y Cynllun, mae lefel mewn-gymudo wedi amrywio o 14,300 yn ystod y cyfnod monitro hwn i frig o 24,600. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid bod yn ofalus wrth eu trin.<br><br>Er y gall y Cyngor geisio annog datblygu economaidd a chymeradwyo ceisiadau cynllunio cysylltiedig, mae ffactorau ehangach tebyg i gysylltiadau teuluol a phrisiau eiddo sydd tu allan i reolaeth y cynllun hwn yn dylanwadu ar batrymau teithio i'r gwaith. Gall effeithiau tymor hirach Covid-19 a newidiadau mewn patrymau gwaith gyda'r cynnydd mewn gweithio o bell/gweithio gartref, sy'n debygol o ddod yn dueddiad tymor hirach, hefyd ddylanwadu ar lif cymudo y dyfodol. Fel y nodir uchod mae ymatebion ar gyfer lleoliad gwaith yn cyfeirio at batrwm gwaith arferol yr ymatebwyr pe na fyddai cyfyngiadau coronafeirws ar waith. Felly, nid yw'r data ar gyfer 2020 a 2021 yn adlewyrchu gwir batrymau cymudo a arsylwyd yn ystod y pandemig. |

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Ystyried cynnydd safleoedd cyflogaeth fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

| |
|---|
| 6. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 7. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 8. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC) 2007. Dim ond yn cynnwys y sectorau hynny lle rhoddwyd caniatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Gweler SIC 2007 i gael rhestr lawn o'r sectorau.

** Diwygiwyd i gynnwys caniatâd a gollwyd yn y cyfnod monitro 2018 - 19 - DM/2018/00696 – Heol Crug, Porthysgewin – Caniatâd amlinellol ar gyfer 291 annedd a Chartref Gofal 0.73ha. Cymeradwywyd cartref gofal ar dir a ddyrannwyd ar gyfer defnydd B1 (SAH2).

♦Ffynhonnell Data: Papur Cefndir Tir Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020-Mawrth 2021

♦♦Diwygiwyd i egluro mai dim ond dosbarthiadau defnydd B y mae'r dangosyddion hyn yn eu monitro.

♦♦♦Ffynhonnell Data: Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (dyddiad cyhoeddi 31 Mawrth 2022)

## Mentrau Gwledig

**Nod/Deilliant Monitro:** Annog arallgyfeirio yr economi gwledig

**Polisi Strategol:** S10 Mentrau Gwledig

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 1, 3, 5, 7 & 14

**Polisïau eraill y Cynllun Datbygu Lleol a gefnogir:** RE1-RE6

**Newidiadau yn y Cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1 NIfer cynlluniau aralgyfeirio a mentrau gwledig * a gymeradwywyd | Dim targed<br>*(2014-15: 7)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 6)*<br>*(2017-18: 8)*<br>*(2018-19: 7)*<br>*(2019-20: 15)*<br>*(2020-21: 8)* | Dim | **7** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| Cymeradwywyd cyfanswm o saith cais yn cyfeirio at fentrau/arallgyfeirio gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd dau o'r ceisiadau eu cymeradwyo fel cynlluniau mentrau gwledig a phump cais fel arallgyfeirio gwledig ar ffermydd presennol.<br><br>O'r cynlluniau mentrau gwledig, cytunwyd i gais am ddosbarthiadau ymarfer cŵn/busnes newydd yn Llanelen, oedd yn cynnwys newid defnydd tir padog ar gyfer y diben hwn a rhoddwyd caniatâd ar gyfer busnes hedfanaeth presennol yn The Byre y Fenni.<br><br>Roedd y cynigion arallgyfeirio gwledig yn ymwneud ag ymestyn/ehangu busnesau presennol oedd yn cynnwys: estyniad i storfa carafanau yn Chapel Farm, Gwndy; estyniad i unedau ar gyfer defnyddiau B yn Bertholey House Farm; Pen y Cae Mawr, newid defnydd i storio cerbydau yn The Meads Farm Cas-gwent, a 2 uned gychwynnol fach B2/B8 ar y cyd gydag unedau masnachol presennol yn Magor Pill Farm. | | | |

| |
|---|
| Mae nifer a chysondeb y cynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig a gymeradwywyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (cyfanswm o 68 cynllun) yn awgrymu bod Polisi Strategol S10 a'r polisïau rheoli datblygu sydd yn eu cefnogi yn gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt arallgyfeirio yr economi wledig. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Nid yw'r Cynlluniau Mentrau Gwledig a restrir yma yn ffurfio'r rhai sydd angen cyfiawnhad arbennig fel y diffiniwyd gan TAN6.

## Economi Ymwelwyr

| | |
|---|---|
| **Nod/Deiliant Monitro:** | Annog twristiaeth gynaliadwy ansawdd uchel |
| **Polisi Strategol:** | S11 Economi Ymwelwyr |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 3, 5 & 7 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | T1-T3, RE6, SAT1 |

**Newidiadau yn y Cyd-destun**
Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun ynghylch y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd (*yn cynnwys estyniadau/ addasu ac adeiladu newydd)* | Dim targed<br>*(2014-15: 17)*<br>*(2015-16: 10)*<br>*(2016-17: 24)*<br>(2017-18: 16)<br>(2018-19: 22)<br>(2019-20: 17)<br>(2020-21: 14) | Dim | **Cymeradwyo**<br><br>**17 cynllun twristiaeth** |
| 2 Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygiad, newid defnydd neu ddymchwel | Lleihau colli cyfleusterau twristiaeth<br>*(2014-15: 5)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 1)*<br>(2017-18: 3)<br>(2018-19: 3)<br>(2019-20: 7)<br>(2020-21: 1) | Colli unrhyw 1 cyfleuster twristiaeth mewn unrhyw un flwyddyn | **Colli 1 cyfleuster twristiaeth** |

**Dadansoddiad**

1. Cymeradwywyd 17 cais ar gyfer defnyddiau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd ar gyfer cyfleusterau llety twristiaeth. Roeddent yn cynnwys:
   - 10 cais am lety gwyliau (i gyd yn addasu adeiladau) mewn gwahanol aneddiadau*
   - 7 safle glampio newydd: 1 pod ym Mhenallt; 2 pod Whitecastle, 8 pabell Cloch yn Rockfield, Trefynwy; 3 cwt Bugail a 3 yurt yn Barbadoes Hill, Tyndyrn; 3 pod yn Llangadog Llingoed; a 2 pod yn Gaer Fawr.

| |
|---|
| Gyda'i gilydd mae'r llety gwyliau a chyfleusterau glampio newydd hyn yn darparu 36 uned newydd a 43 gofod gwely newydd a byddant yn hwb pellach i'r llety ymwelwyr sydd ar gael yn Sir Fynwy.<br><br>Mae nifer y cyfleusterau llety twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro yn awgrymu fod y polisïau Cynllun perthnasol a'r 'Canllawiau Cynllunio Atodol Llety Twristiaeth Cynaliadwy' yn gweithredu'n effeithlon gan ganiatáu datblygiadau o'r fath i ddigwydd yn Sir Fynwy.<br><br>Dengys cymhariaeth gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol fod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Cymeradwywyd cyfanswm o 136 cynllun twristiaeth ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2014 sy'n dangos ymhellach fod fframwaith polisi twristiaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn gweithredu'n effeithlon i alluogi datblygiadau o'r fath yn y Sir.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar geisiadau twristiaeth mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â darpariaeth cyfleusterau twristiaeth. |

| |
|---|
| 2. Caniatawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholled cyfleusterau twristiaeth. Roedd hyn yn gysylltiedig â dymchwel llety gwyliau a chodi garej ddomestig yn Court Windermere, Betws Newydd.<br><br>Er y collwyd llety ymwelwyr o fewn Sir Fynwy dros y cyfnod monitro ac fel canlyniad cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn, mae'r golled yn fach mewn nifer ac mae cyfiawnhad drosto o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o'r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â'r mater hwn, o gofio am bwysigrwydd twristiaeth i economi'r Sir.<br><br>Ni wrthodwyd caniatâd cynllunio i unrhyw gyfleusterau twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro presennol. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2 Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

* Llandeilo Groesenni, Llanywel, Llangybi, Llandenni, Devauden a Rockfield Trefynwy

## Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Sicrhau bod datblygu yn cydymffurfio gydag egwyddorion datblygu cynaliadwy. |
| **Polisi Strategol:** | S12 Defnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1, 8, 9, 10 a 11 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | SD1-SD4 |

**Newidiadau yn y Cyd-destun**

Nid oes unrhyw newidiadau yn y cyd-destun ar gyfer y cyfnod hwn.

| Dangosydd | Targed<br><br>*(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol Blaenorol)* | Sbardun ar gyfer Ymchwiliad Pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1.Canran datblygiad ar dir llwyd fel canran o'r holl ddatblygu a ganiatawyd *(yn cynnwys newid defnydd tir) (eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol)* | Cynyddu cyfran datblygiad ar dir llwyd<br><br>*(2014-15: 28% /17.3ha)*<br>*(2015-2016: 16.8%/10.51ha)*<br>*(2016-17: 51.2% /18.6ha)*<br>*(2017-18: 40.18%/ 21.58ha)*<br>*(2018-19: 12.7% / 3.7ha)*<br>*(2019-20: 21% /5.3ha)*<br>*(2020-21: 28.3% /6ha)* | Dim cynnydd yn y gyfran o ddatblygiad ar dir llwyd am 2 flynedd yn olynol | **3.5ha**<br>**31.8%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2. Swm datblygiad (yn ôl categori TAN15) a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 heb fod yn diwallu holl brofion TAN15 | Pob datblygiad i gydymffurfio gyda gofynion TAN15<br>*(2014-15: 1)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18: 1)<br>(2018-19:1)<br>(2019-20: 0) | Rhoi caniatâd cynllunio yn groes i ofynion TAN15 | **0 cais wedi eu cytuno ym Mharth C2** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Nifer datblygiadau newydd a ganiatawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a ganiatawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy<br><br>*(2014-15: 2)*<br>*(2015-16: 9)*<br>*(2016-17: 5)*<br>(2017-18: 1)<br>(2018-19: 3)<br>(2019-20: 6)<br>(2020-21: 1) | Dim cynnydd blynyddol | 5 |
| 4. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ** | Cynnydd yn nifer y datblygiadau newydd a gwblhawyd yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy<br>*(2014-2015: D/G)*<br>*(2015-2016: 4)*<br>*(2016-2017: 3)*<br>(2017-2018:2)<br>(2018-19: 1)<br>(2019-20: 1)<br>(2020-21:0) | Dim cynnydd blynyddol | 1 |

| Dadansoddiad |
| --- |
| 1. Cafodd cyfanswm o 11 ha o ddatblygiad ei ganiatáu dros y cyfnod monitro, gyda 3.5 ha o hynny ar safleoedd tir llwyd. Roedd hyn yn gyfystyr â 31.8% o bob datblygiad (yn cynnwys deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol) yn cael eu caniatáu ar dir llwyd ac mae felly yn gynnydd yn y gyfran o ddatblygu ar dir llwyd o'r ychydig gyfnodau monitro blaenorol.<br><br>Roedd cyfran fawr o dir llwyd a ganiatawyd ar 54%/1.9ha o fewn y cyfnod monitro cyfredol mewn cysylltiad gyda datblygiad cyflogaeth. Roedd hyn yn bennaf mewn cysylltiad ag uned gweithgynhyrchu newydd fawr 10,000 m sg o fewn safle presennol Bragdy Magwyr (1.45ha) a hefyd adeilad newydd lluosogi burum (0.026ha). Roedd 0.43 ha arall yn gysylltiedig gyda gwahanol estyniadau graddfa fach i unedau cyflogaeth presennol o amgylch y Sir. Roedd hyn yn cynnwys adeilad swyddfa newydd yng nghanolfan garddio Cas-gwent (0.01ha), cyfleuster warws yng nghanolfan garddio Rhaglan (0.03ha), adeilad lladd-dy newydd yng nghigyddion Rhaglan (0.09ha), cyfleuster creche yng nghae ras Cas-gwent (0.0024ha) a gwahanol estyniadau i unedau diwydiannol yn Rhaglan, stad ddiwydiannol Glannau Hafren a Llantrisant (0.3ha).<br><br>Roedd datblygiad manwerthu yn cyfrif am 28%/0.97ha o dir llwyd oherwydd caniatâd a roddwyd ar gyfer ailddatblygu Magor Motors i fod yn uned manwerthu cyfleustra (0.2ha), estyniad i'r gofod manwerthu yng Nghanolfan Garddio Brynbuga (0..07ha) ac estyniad i siop fwyd a maes parcio Aldi yn y Fenni (0.7ha).<br><br>Roedd datblygiad preswyl yn 12.5%/0.44ha o dir llwyd a ganiatawyd. Roedd hyn yn bennaf mewn cysylltiad gyda lleiniau mewnlenwi tai mewn libart preswyl/gerddi presennol.<br><br>Roedd y gyfran fach arall o ddatblygiad a ganiatawyd ar dir llwyd yn ymwneud â chyfleusterau cymunedol: 1.76/0.06ha mewn cysylltiad gydag estyniadau i Ysgol Brynbuga, Clwb Athletig Cas-gwent a storfa biniau ar stryd fawr Cas-gwent, ac ynni adnewyddadwy 1.68%/0.1ha ar gyfer pyrth ceir solar yn Ysgol Gyfun Cas-gwent a Thŷ Arloesedd, Wales 1 Magwyr.<br><br>Fel gyda'r ddwy flwyddyn monitro flaenorol: 2018/19 (12.7%/3.7ha), 2019/2020 (21%/5.3 ha) mae'r gyfran o ddatblygiad a ganiateir ar safleoedd tir llwyd yn debyg, gyda chanran is o ddatblygiad tir llwyd nag o dir glas. Mae hyn yn dangos y cyfyngiad sydd ar y tir llwyd sydd ar gael yn y Sir ar gyfer ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae'r gyfran o ddatblygiad ar dir llwyd (31.8%) wedi cynyddu o'r ddwy flynedd flaenorol (2018-19: 12.7% a 2019-2020: 21%) gan roi dangosydd gwyrdd cadarnhaol.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |

| |
| --- |
| 2. Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN15 yn naill ai orlifdir Parth C1 neu C2 dros y cyfnod monitro. Fel canlyniad mae Polisi S12 yn gweithredu'n effeithlon yn y cyswllt hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn. |

| |
|---|
| 3. Cymeradwywyd pum cais yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar safle. Roedd hyn yn cynnwys y ddau borth ceir solar yn Ysgol Gyfun Cas-gwent a Thŷ Arloesedd, Wales 1 Magwyr; arae panel solar 60 m sg yn Crooked Billets, Devauden; paneli solar a phympiau gwres o'r ddaear ar gyfer y 15 tŷ newydd (dyraniad SAH11(ii) yn Well Lane, Devauden; a gosod pwmp gwres o'r ddaear yn 17 Willow Drive, Trefynwy. Fel gyda chyfnodau monitro blaenorol, caniatawyd nifer gyfyngedig o gynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle, yn arbennig baneli solar wedi eu gosod ar y ddaear, a chredir fod hynny fel canlyniad i ostyngiad yng nghynlluniau cymhelliant y Llywodraeth (Tariff Cyflenwi Trydan). Ymhellach, ystyrir bod y rhan fwyaf o gynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa lai yn dod o dan ddatblygiad a ganiateir, ac felly nad yw'r system cynllunio yn dod i wybod amdanynt.<br><br>Mae'n bwysig nodi y cafodd cyfanswm o 32 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu caniatáu ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2014 sy'n awgrymu bod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau cefnogi yn gweithredu'n effeithlon yng nghyswllt darpariaeth ynni adnewyddadwy.<br><br>Bydd y Cyngor serch hynny yn parhau i gadw golwg agos ar y mater mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â defnydd effeithiol o adnoddau. |

| |
|---|
| 4. Cofnodwyd y cafodd un cynllun ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ei gwblhau o fewn y cyfnod monitro presennol. Roedd hyn yn cyfeirio at osod paneli solar ar doeau yn y cartrefi fforddiadwy newydd a godwyd yn Llanddingad. Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014, dylid nodi y cafodd cyfanswm o 12 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu cwblhau a'u bod yn weithredol. Dengys hyn ymhellach fod Polisi Strategol S12 a'i bolisïau cefnogi yn gweithredu'n effeithlon yng nghyswllt darpariaeth a chwblhau cynlluniau ynni adnewyddadwy.<br><br>Serch hynny bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg agos ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt defnydd effeithiol o adnoddau. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Dangosydd monitro ychwanegol a gynhwyswyd yn y fframwaith monitro er mwyn dynodi cynlluniau yn 4.

**Seiliedig ar geisiadau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar gyfer ynni adnewyddadwy ar safle ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Gwarchod mannau agored a safleoedd o bwysigrwydd cydnabyddedig o ran cadwraeth natur a thirlun |
| **Polisi Strategol:** | S13 Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 8 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | LC1-LC6, GI1 & NE1 |

**Newidiadau yn y cyd-destun**
Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y cyd-destun yn ymwneud â'r maes polisi yma yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad sydd heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu (*yn cynnwys datblygiad adeiladu newydd – tai, cyflogaeth ond yn eithrio adeiladau amaethyddol)* | Lleihau tir glas heb ei ddyrannu<br>*(2014-15: 26 ha)*<br>*(2015-16: 44.6 ha)*<br>*(2016-17: 16.5 ha)*<br>(2017-18: 8.98ha)<br>(2018-19: 9.71ha)<br>(2019-20: 18.27ha)<br>(2020-2771: 11.7ha) | Unrhyw golled o dir glas heb ei ddyrannu yn unrhyw 1 flwyddyn | **7.5ha*** |
| 2. Faint o fannau agored cyhoeddus/caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad sydd heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu | Lleihau colled mannau agored/caeau chwarae i ddatblygiad sydd heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu<br>*(2014-15: 1.47ha)*<br>*(2015-16: 0.76ha)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18:0)<br>(2018-19 :1.74ha)<br>(2019-20: 0.1ha)<br>(2020-21: 0) | Unrhyw fannau agored a gollwyd oherwydd datblygiad, heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu mewn unrhyw 1 flwyddyn | **0 ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. Datblygiadau a gafodd eu caniatáu/ cwblhau sydd o fewn ardaloedd cadwraeth o bwysigrwydd rhyngwladol/cenedlaethol | Dim effaith niweidiol ar unrhyw un<br>*(2014-15: D/G)*<br>*(2015-16: 0)*<br>*(2016-17: 0)*<br>(2017-18:0)<br>(2018-19:1)<br>(2019-20: 3)<br>(2020-21:1) | Difrod wedi'i gofnodi neu ddarnio safleoedd/ cynefinoedd dynodedig | 1 |
| 4. Datblygiadau a gafodd ganiatâd sy'n achosi niwed i gyfanswm gwerth cadwraeth natur safleoedd a ddyrannwyd yn lleol | Lleihau datblygiadau a fyddai'n achosi niwed i gyfanswm gwerth cadwraeth natur safleoedd a ddyrannwyd yn lleol<br>*(2014 -15: D/G)*<br>*(2015-16:1)*<br>*(2016-17: 1)*<br>*(2017-18:1)*<br>*(2018 – 19: 2)*<br>(2019-20: 2)<br>(2020-21: 0) | 1 neu 2 ddatblygiad yn arwain at niwed cyffredinol am 2 flynedd yn olynol neu 3 neu fwy o ddatblygiadau yn arwain at niwed mewn unrhyw 1 flwyddyn | **1** |
| 5. Nifer datblygiadau newydd yn cyflenwi creu ac adfer cynefinoedd | Cynyddu nifer y datblygiadau newydd yn cyflenwi creu/ adfer cynefinoedd<br>(2014-15: 1)<br>(2015-16: 1)<br>(2016-17: 0)<br>(2017-18:2)<br>(2018-19 :1)<br>(2015-16: 1)<br>(2019-20 :0)<br>(2020-21:0) | Dim | **0** |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Dros y cyfnod monitro presennol, rhoddwyd 26 caniatâd ar dir glas na chafodd ei ddyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gyfanswm o 7.5ha. Mae hyn yn is na'r ddau gyfnod monitro blaenorol (oedd ag eithriadau polisi safleoedd heb eu dyrannu cyn diddymu TAN1) ond yn debyg mewn ystod i gyfnodau monitro blaenorol (8.98 ha yn 2017-2018, 9.71ha yn 2018-19. Ni chollwyd cymaint o dir glas ag yng nghyfnodau cynharach yr adolygiad (44.6ha yn 2015-16 a 26ha yn 2014-15) oedd yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn cynlluniau ynni adnewyddadwy graddfa fwy (araeau PV solar) a ganiatawyd yr oedd cyfiawnhad drostynt o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi a pholisi cynllunio cenedlaethol y Cynllun Datblygu Lleol; ni chaniatawyd unrhyw gynlluniau ynni |

adnewyddadwy o’r fath yn y cyfnod monitro cyfredol.

Roedd cynigion cyflogaeth a mentrau gwledig yn cyfrif am fwyafrif y tir glas heb ei ddyrannu a ganiatawyd ar 4.4ha. Roedd hyn yn cynnwys ehangu maes parcio HGV i Fragdy Magwyr (1.8ha), a gyfiawnhawyd ar y sail fod y safle bob amser wedi ei ddynodi fel bod ag angen ehangu HGV a bod y tir glas o fewn lloc presennol y Bragdy yn hytrach nag yn ehangu i gefn gwlad agored. Caniatâd cyflogaeth eraill a roddwyd oedd newid defnydd tir amaethyddol i ardal ymarfer cŵn yn Llanelen (1.8ha), newid defnydd tir amaethyddol i storfa carafanau Chapel Farm, Gwndy (0.4), estyniad i sied amaethyddol ar gyfer busnes hedfanneg yn Lon Hardwick, y Fenni (0.001ha); estyniad i unedau dechreuol B2/B8 yn Magor Pill Farm (0.01ha) ac estyniadau i unedau dofednod yn Parklands, Llandogo i uwchraddio cyfleusterau staff (0.08ha).

Roedd cyfleusterau llety twristiaeth yn cyfrif am 1.8ha arall o dir glas heb ei ddyrannu. Roedd y caniatâd hwn yn cynnwys saith safle llety glampio. Yn sylfaenol, nid yw’r cyfleusterau llety glampio a ganiatawyd wedi’u gosod yn parhaol ac yn ymwneud â defnydd y gellid ei droi’n ôl o dir amaethyddol.

Roedd y 1.3ha o dir glas arall nas dyrannwyd dros y cyfnod monitro yn cyfeirio at amrywiaeth o ddefnyddiau. Roedd saith caniatâd yn ymwneud â gweithgareddau marchogaeth yn cyfrif am 0.37ha – yn cynnwys arenau a stablau marchogaeth; cyfleusterau cymunedol gydag estyniad maes parcio yng Nghastell Cil-y-coed (0.92ha) a chyrtiau newydd Clwb Athletig Cas-gwent (0.04ha); cais am ymestyn libart preswyl Trelawney, Llanfair Iscoed (0.02); ac arae panel solar (0.006ha) yn Crooked Billets, Devauden). Ystyriwyd bod y rhain yn ddefnydd priodol o dir mewn ardaloedd gwledig a’u bod yn cydymffurfio gyda fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Gwledig.

Er bod y cyfnod monitro yn dangos y collwyd tir glas heb ei ddyrannu dros y cyfnod monitro oherwydd y caniatâd a nodwyd uchod (er yn llai nag yn y ddau gyfnod monitro blaenorol) ac fel canlyniad y cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd, mae cyfiawnhad dros y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol fel y nodir uchod. Nid yw’n dangos unrhyw broblem gyda gweithredu polisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ac felly nid oes angen ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynigion o’r fath mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â’r mater hwn.

2. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar ardaloedd tir agored nad oedd wedi eu dyrannu ar gyfer datblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn awgrymu y cafodd y targed dangosydd a’r deilliant monitro i warchod a lleihau colli mannau agored heb eu dyrannu ei gyflawni yn 2020-21.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro faint o fannau agored cyhoeddus heb ei ddyrannu a gollir i ddatblygiad mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â’r mater hwn.

| |
|---|
| 3. Cafodd un cais ei ganiatáu o fewn ardal cadwraeth natur cenedlaethol bwysig yn ystod y cyfnod monitro. Roedd hyn yn cyfeirio at ganiatâd am ymestyn ystafell gardd yn Pond Cottage, Mynyddbach, oedd o fewn 100m o ffin Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig clwydfa ystlumod Mwyngloddfa Mynyddbach ac Ardal Cadwraeth Arbennig Fforest y Ddena.<br><br>Cafodd y cynnig ei gyfiawnhau ar y sail y cynhaliwyd Asesiadau o Reoliadau Cynefinoedd ac arolygon manwl i lywio'r asesiad o effaith y cynllun, a gafodd ei liniaru yn llawn a'i amodau ar y caniatâd a roddwyd.<br><br>Dengys hyn fod y fframwaith polisi yn ymwneud â chadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol/cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn yr ardaloedd cadwraeth natur hyn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 4. Cafodd un cais ei ganiatáu yr ystyriwyd y byddai'n achosi niwed i werth cadwraeth natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Roedd hyn yn cyfeirio at annedd i gymryd lle'r un bresennol yn Springfield, Penperllenni, a chynnydd ym maint yr annedd newydd a gynigid gan arwain at golled newydd o laswelltir SINC<br><br>Cyfiawnhawyd y cais ar y sail bod y gwerthusiad ecolegol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos y caiff gweddill y glaswelltir SINC yn y safle ei reoli mewn modd sensitif a chynigir plannu 21 coeden newydd ar y safle. Defnyddiwyd amod cynllunio ar y caniatâd i sicrhau rheolaeth y glaswelltir yn y dyfodol. Oherwydd cyfanswm maint y safle, y plannu lliniaru a gynigiwyd ac yn amodol ar reolaeth sensitif gweddill y SINC a dim mwy o golled glaswelltir, ystyriwyd y caiff niwed sylweddol i'r SINC ei osgoi ac felly na fyddai gwrthod y cais yn rhesymol yn yr achos hwn.<br><br>Drwyddi draw, gan mai dim ond un cais yr ystyriwyd y byddai'n achosi niwed i safle a ddynodwyd yn lleol, dengys hyn fod y fframwaith polisi yn cyfeirio at gadwraeth natur yn gweithredu'n effeithlon wrth ddiogelu safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd lleol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro caniatâd a chwblhau o fewn y safleoedd cadwraeth natur hyn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn. |
| 5. Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn benodol i gyflwyno creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Er na chytunwyd i unrhyw geisiadau i gyflwyno creu ac adfer cynefinoedd, mae'n debygol y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro yn helpu i adfer cynefinoedd drwy wella rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd. Er nad oes sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach yng nghyswllt y dangosydd hwn, bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater yn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y tirlun, seilwaith gwyrdd a'r amgylchedd naturiol. |

| **Argymhelliad** |
| --- |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae 1.41ha ychwanegol o dir glas yn cyfeirio at safleoedd dynodedig SAH11 (ii) (Devauden) a SAH11(i) (b) (Garej Cross Ash) a chaiff felly ei eithrio.

**Cafodd y dangosydd ei ddiwygio yn unol â dangosydd SA ar gyfer hwylustod casglu data

## Gwastraff

**Nod/Deilliant Monitro:** Diwallu cyfraniad y sir at gyfleusterau gwastraff lleol

**Polisi Strategol:** S14 Gwastraff

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 12

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** W1-W6, SAW1

**Newidiadau yn y cyd-destun**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol ycyd-destun yn gysylltiedig â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| Faint o gapasiti rheoli gwastraff a ganiatawyd a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei angen fel y'i dynodwyd yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol | Anelu i ddarparu rhwng 2.2 a 5.6 hectar ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff mewn-adeiladu newydd wedi eu lleoli ar safleoedd cyflogaeth B2 priodol dros gyfnod y cynllun<br><br>*(2014-15: caniatâd i 1.49ha; 32.5ha safle posibl rheoli gwastraff)*<br><br>*(2015-16: caniatâd i 0.24ha; 26.86ha safle posibl rheoli gwastraff)*<br><br>*(2016-17: caniatâd i 0ha; 26.26ha safle posibl rheoli gwastraff)*<br><br>*(2017-18:caniatâd i 0ha; 26.26ha safle posibl rheoli gwastraff)* | Cyfanswm tir cyflogaeth dan 5.6 ha | **Capasiti gwastraff a ganiateir 0ha**<br><br>**Safleoedd rheoli gwastraff posibl a ddynodwyd 26.26ha** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(2018-19: caniatâd i 0ha 26.26ha safle posibl rheoli gwastraff)*<br><br>*(2019-20: caniatâd i 0ha; 26.26ha safle posibl rheoli gwastraff)*<br><br>*(2020-21:caniatâd i 0ha; 26.26ha safle posibl rheoli gwastraff)* | | |

| **Dadansoddiad** |
|---|
| 1. Nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. Yn ychwanegol, nid oedd unrhyw alw am dir B2 dros y cyfnod monitro, mae faint o dir sydd ar gael ar gyfer safleoedd posibl rheoli gwastraff (h.y. safleoedd cyflogaeth B2 a safleoedd presennol gwaredu neu reoli gwastraff) yn parhau'r un fath ag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar 26.26ha. Felly, mae digon o dir yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd posibl rheoli gwastraff yng nghyswllt yr uchafswm gofyniad o 5.6 ha. |

| **Argymhelliad** |
|---|
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

## Mwynau

**Nod/Deilliant Monitro:** Diogelu ardaloedd o adnoddau agregau

**Polisi Strategol:** S15 Mwynau

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** 12

**Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** M1-M3

**Newidiadau mewn cyd-destun:**
Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn cyd-destun yng nghyswllt y maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| 1. Faint o agregau a geir ar dir sylfaenol fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol | Cadw o leiaf 10 mlynedd o gronfa tir *(2014-15: 0)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 0)* *(2017-18: 0)* *(2018-9: 0)* *(2019-20: 0)* | Cadw o leiaf 10 mlynedd o gronfa tir | 0 |
| 2. Nifer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynol a ganiatawyd ar safleoedd gwarchodedig heb gydymffurfio gyda Pholisi M2*. | Lleihau nifer datblygiadau parhaol heb fod yn fwynol a ganiateir ar safleoedd gwarchodedig *(2014-15: 0)* *(2015-16: 0)* *(2016-17: 0)* *(2017-18: 0)* *(2018-19: 0)* *(2019-20: 0)* *(2020-21: 0)* | Os caniateir unrhyw ddatblygiadau o'r fath | **0** |
| **Dadansoddiad** | | | |
| 1. Ni chynhaliwyd unrhyw echdynnu mwynau seiliedig ar dir yn y Sir yn ystod y cyfnod monitro. F elly ni fu unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir sy'n dibynnu ar y cronfeydd wrth gefn | | | |

| |
|---|
| sydd ar gael yn Chwarel Ifton. Ni chafodd y chwarel hon ei gweithio ers peth amser ond mae ganddi fudd caniatâd cynllunio presennol. Oherwydd pwysigrwydd cadw cronfa dir 10 mlynedd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater yn ofalus mewn Adroddiadau Monitro blynyddol yn y dyfodol. |

| |
|---|
| 2. Ni roddwyd unrhyw ganiatâd am ddatblygiadau parhaol heb fod yn fwynol ar safleoedd gwarchodedig nad oedd yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Dengys hyn fod Polisi M2 yn cael ei weithredu'n effeithlon ac nad oes angen unrhyw ymchwiliad pellach ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Diwygiwyd y dangosydd i gynnwys cyfeiriad at Bolisi M2 ar gyfer eglurhad.

## Trafnidiaeth

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Cynyddu mathau cynaliadwy o drafnidiaeth a sicrhau fod pob datblygiad yn cyflawni egwyddorion cynaliadwy ar gynllunio trafnidiaeth |
| **Polisi Strategol:** | S16 Trafnidiaeth |
| **Amcanion Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 1-6, 9 a 13 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | MV1-MV10 |

**Newidiadau yn y cyd-destun**

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, cyhoeddwyd y penderfyniad ym mis Mehefin 2019 na fyddai Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd yn ei blaen, yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd. Mae'r llwybr o fewn Sir Fynwy wedi ei ddiogelu yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig y byddid yn dileu gwarchod coridor llwybr TR111 ar gyfer ffordd liniaru'r M4. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu nad yw'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau cynllunio arfaethedig yn yr ardal. Rhoddir manylion pellach a'r goblygiadau i Sir Fynwy yn y dadansoddiad islaw.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1. Nifer gwelliannau i drafnidiaeth a sicrhawyd drwy gytundebau A106 | Dim targed<br><br>*(2014-15: 3)*<br>*(2015-16: 3)*<br>*(2016-17: 2)*<br>*(2017-18: 4)*<br>*(2018-19: 3)*<br>*(2019-20: 1)*<br>*(2020-21: 0)* | Dim | **Dim cytundebau A106 yn cyflenwi gwelliannau trafnidiaeth** |
| 2. Cynnydd cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol * a fanylir ym Mholisi MV10 yn unol gydag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol | Cynigion Cynllun Trafnidiaeth Lleol a weithredir yn unol ag amserlen cyflenwi Cynllun Trafnidiaeth Lleol | Nid yw cynigion y Cynllun Trafnidiaeth Lleol a fanylir ym Mholisi MV10 yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol | **Rhoddir manylion cynnydd yn y dadansoddiad isod** |

| Dadansoddiad |
|---|
| Ni chafodd unrhyw welliannau trafnidiaeth a cherddwyr eu sicrhau drwy gytundeb A106 yn ystod y cyfnod monitro cyfredol, sy'n dangos y nifer isel o geisiadau cynllunio, yn arbennig ar gyfer datblygiadau mawr. Er nad oes unrhyw darged penodol ar gyfer y dangosydd hwn, mae gan y Cyngor ddiddordeb mewn monitro faint o welliannau trafnidiaeth a sicrheir drwy gytundebau A106. Yn ôl y disgwyl, gan fod cynnydd gyda safleoedd niferus a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol yn arafach na'r disgwyl, nifer cymharol fach o welliannau trafnidiaeth a gafodd eu sicrhau drwy gytundebau A106 yng nghyswllt y safleoedd hyn yn rhan gynnar cyfnod y cynllun. Fodd bynnag, gyda'i gilydd, yn yr 8 mlynedd hyd yma, o'r 106 cytundeb A106 sydd wedi arwain at welliannau trafnidiaeth, mae 9 wedi bod yn gysylltiedig â safleoedd a ddyrannwyd. Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar y mater hwn mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. |

2. Mae cynnydd y cynlluniau Cynllun Trafnidiaeth Lleol* a fanylir ym Mholisi MV10 yn unol gydag amserlen y Cynllun Trafnidiaeth Lleol fel sy'n dilyn:

**Cynlluniau Ffyrdd Llywodraeth Cymru:**

**Cynllun gwella coridor yr M4 Magwyr i Gas-bach:** Yn dilyn cwblhau ymchwiliad cyhoeddus i'r prosiect a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd, ym mis Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y penderfyniad na fyddai Ffordd Liniaru'r M4 yn mynd yn ei blaen. Caiff y llwybr yn Sir Fynwy ei ddiogelu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Ym mis Mehefin 2021 cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig y byddid yn dileu gwarchod coridor llwybr y TR111 ar gyfer ffordd liniaru'r M4. Mae'r penderfyniad hwn yn golygu nad yw'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau cynllunio arfaethedig yn yr ardal.

**Cynlluniau Rheilffordd:** Yn dilyn y penderfyniad i beidio symud ymlaen gyda chynllun gwella coridor yr M4, dywedodd Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog Economi a Seilwaith Cymru fod Llywodraeth Cymru wedi penodi Comisiwn arbenigol (Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru) i "ystyried y problemau, cyfleoedd, heriau ac amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn ne ddwyrain Cymru a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfres o ddatrysiadau eraill". Ym mis Tachwedd 2020, adroddodd y Comisiwn gan wneud 58 argymhelliad. Cafodd Bwrdd Cyflenwi Burns ei greu yn y gwanwyn 2021 i ddod â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn cynnwys Cyngor Sir Fynwy, ynghyd i gyflawni'r rhain. Un o'r argymhellion allweddol oedd gwella gwasanaethau rheilffordd lleol a gorsafoedd newydd rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2021 Tîm Burns Trafnidiaeth Cymru ym mis Ionawr 2022 gan adrodd cynnydd ar hyn. Yn fwyaf amlwg ar gyfer Sir Fynwy roedd yr Uned wedi cyflwyno cais am £2.7m ym mis Mai 2021 i'r gronfa datbygu symud ymlaen â'r astudiaethau technegol oedd ei hangen ar gyfer amserlennu rheilffyrdd, dichonolrwydd gorsafoedd ac achos busnes amlinellol. Adeg cyhoeddi'r adroddiad roedd trosglwyddo cyllid gan Lywodraeth y DU i Trafnidiaeth Cymru yn mynd rhagddo ar gyfer yr astudiaethau technegol ar y rheilffordd.

Er na ddynodwyd hynny'n benodol ym Mholisi MV10, mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn dynodi nifer o gynlluniau trafnidiaeth ychwanegol yn Sir Fynwy sydd ar y rhaglen i gael eu

cyflenwi dros gyfnod 2015-2020 a chânt hefyd eu monitro drwy broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Un cynllun newydd o'r fath yw gorsaf reilffordd rhodfa newydd Magwyr a Gwndy. Mae Trafnidiaeth Cymru yn awr yn symud ymlaen i gyflenwi'r prosiect yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Adroddiad Burns).

**Cynlluniau Ffyrdd Cyngor Sir Fynwy:**

**B4245 Ffordd Osgoi Magwyr/Gwndy:** (darn i gael ei ddiogelu wedi ei ddangos ar y Map Cynigion). Gweler uchod. Byddai prosiect gwella coridor yr M4 wedi rhoi ffordd osgoi ar gyfer Magwyr/Gwndy. Mae adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yn cynnig ymchwilio cysylltiad newydd rhwng yr A48, y B4245 a gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren i ddwyrain Rogiet (gweler isod) a allai, yn dibynnu ar y dyluniad manwl, roi ffordd osgoi ar aliniad arall. Comisiynwyd astudiaeth WelTAG a disgwylir y bydd yn adrodd yn ddiweddarach yn 2022.

**B4245/M48 Ffordd Gyswllt* a B4245/Ffordd Gyswllt Cyffordd Twnnel Hafren:** Ystyriwyd bod y prosiectau hyn yn hanfodol ar gyfer estyniad mawr yng Nghyffordd Twnnel Hafren (ochr ogleddol). Profodd yr estyniad a gynigid ar y pryd hynny i'r maes parcio yn anfforddiadwy ac na fedrid ei gyflenwi. Yn dilyn ailadeiladu'r drosbont ffordd yng ngorsaf Cyffordd Twnnel Hafren fel rhan o'r gwaith trydaneiddio rheilffordd, paratowyd cynlluniau ar gyfer estyniad llai i'r maes parcio ar ochr ddeheuol Cyffordd Twnnel Hafren y gellir ei gyflenwi heb y cynlluniau ffordd hyn, a disgwylir y caiff y rhain eu cyflenwi yn ystod 2022/23.

Mae adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru yn cynnig ymchwilio cysylltiad rhwng yr A48, y B4245 a gorsaf Cyffordd Twnnel Hafren, comisiynwyd astudiaeth a disgwylir y bydd yn adrodd yn nes ymlaen yn 2022.

**A48 Ffordd Osgoi Allanol Cas-gwent:** Daeth astudiaeth cam 2 WelTAG Trafnidiaeth Cas-gwent, a noddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Swydd Caerloyw, i ben ym mis Mawrth 2021. Mae'n argymell adeiladu ffordd lliniaru traffig ar gyfer Cas-gwent i alluogi traffig i osgoi canol tref Cas-gwent ac ailadeiladu'r A48 bresennol i wella teithio lleol a bysus yn ac o amgylch canol tref Cas-gwent. Mae Cyngor Sir Fynwy wrthi'n ymchwilio opsiynau cyllid ar gyfer astudiaeth cam 3 WelTAG (achos busnes llawn/dyluniad manwl).

**A472 Ffordd Osgoi Brynbuga:** Dim cynnydd.

**Cynlluniau Gwella Trafnidiaeth gyhoeddus:**

**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd y Fenni**:** Mae cynllunio amlinellol ar gyfer pont droed hygyrch newydd arfaethedig wedi cadarnhau dichonoldeb. Mae dyluniad manwl ar y gweill ar gyfer 2021/22 gyda disgwyl cyflenwi yn 2022/23. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi sicrhau ymgynghorwyr i adolygu cynlluniau ar gyfer y gyfnewidfa bws-rheilffordd, yr estyniad arfaethedig i'r maes parcio a gwella mynediad teithio llesol. Bydd yr astudiaeth yn adrodd yn 2022/23.

**Cyfnewidfa Gorsaf Reilffordd a Gorsaf Bysus Cas-gwent**:** Cafodd cynigion ar gyfer

gwelliannau i orsaf reilffordd Cas-gwent eu cynnwys yn astudiaeth Trafnidiaeth Cas-gwent a adroddodd ym mis Mawrth 2021 (gweler uchod). Dechreuwyd achos busnes WelTAG cam 3 (achos busnes llawn/dyluniad manwl), cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2022 a disgwylir y bydd yr astudiaeth yn adrodd yn ddiweddarach yn 2022.

**Cyfnewidfa Cyffordd Twnnel Hafren (STJ)**:** Mae'r uwchraddio a gynigir yng Nghyffordd Twnnel Hafren yn rhan o raglen 'Metro Plus' ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru/Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cafodd estyniad 175-lle yn y maes parcio ei ddylunio'n llawn yn 2020/21 a disgwylir y caiff ei gyflenwi yn 2022/23.

**Safle coetsis Trefynwy:** Dim gwaith pellach.

**Parcio a Theithio Trefynwy**:** Dim gwaith pellach.

**Parcio a Theithio Cas-gwent**:** Dim gwaith pellach

**Gwelliannau i orsaf bysus Trefynwy:** Caiff y llochesi eu gwella yn ddiweddarach yn 2022.

**Gwelliannau i orsaf bysus y Fenni:** Bu peth gwaith i ail-ddylunio'r orsaf bysus er mwyn gwella cysgod a galluogi i deithwyr sy'n aros i gadw pellter cymdeithasol. Y datrysiad tymor canol-hir yw symud yr orsaf bysus i ganol y dref.

**Cynlluniau Cerdded a Seiclo**

**Monmouth Links Connect2**:** Cafodd rhaglen weddilliol Monmouth Links Connect 2 ei disodli gan Fapiau Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Trefynwy . Cynhaliwyd mwy o waith datblygu ar groesiad arfaethedig Teithio Llesol Gwy Trefynwy a dolen Kings Fee.

**Rhwydwaith cerdded a seiclo y Fenni:** Cafodd cynllun mannau cyhoeddus canol tref y Fenni ei gwblhau. Dechreuwyd ar astudiaethau pellach ar y llwybrau teithio llesol ar draws dolydd y castell a thuag at yr orsaf a de ddwyrain y Fenni.

**Croesiad afon Llan-ffwyst ar gyfer cerdded a seiclo:** Rhoddwyd caniatâd cynllunio yn 2018/19, fodd bynnag mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwrthod rhoi Trwydded Gweithgaredd Risg Llifogydd. Gwrthodwyd apêl Cyngor Sir Fynwy. Mae Cyngor Sir Fynwy wrthi'n edrych ar opsiynau i ostwng y risg llifogydd fel y gall Cyfoeth Naturiol Cymru gytuno i drwydded.

**Mynediad cerddwyr a seiclwyr i Gyffordd Twnnel Hafren:** Gweler uchod.

Rhoddir adroddiad ar gynnydd pellach ar gynlluniau'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd y cynlluniau a nodir uchod mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu os ydynt yn cael eu gweithredu yn unol ag amserlen cyflenwi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol.

| Argymhelliad |
| --- |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |

*Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol Sir Fynwy 2015 wedi disodli Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru 2010. Cafodd y cynlluniau trafnidiaeth a ddynodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol eu cario ymlaen i'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol – felly diwygiwyd geiriad y dangosydd i adlewyrchu hyn.

** Yn dangos y cynlluniau hynny a ddynodwyd yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru.

## Creu Lleoedd a Dylunio

| | |
|---|---|
| **Nod/Deilliant Monitro:** | Gwarchod safleoedd ac adeiladau o ddiddordeb adeiledig a hanesyddol cydnabyddedig |
| **Polisi Strategol:** | S17 Creu Lleoedd a Dylunio |
| **Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | 14 a 15 |
| **Polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol a gefnogir:** | DES1-4, HE1-4 |

**Newidiadau mewn cyd-destun**

Lansiwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru gan y Gweinidog yng Nghynhadledd Cynllunwyr RTPI Cymru ar 23 Medi 2020. Yn dilyn lansio'r Siarter, llofnododd Cyngor Sir Fynwy y Siarter ar 15 Medi 2021 gan gadarnhau ei ymrwymiad i gyflenwi a chynnal lleoedd ansawdd uchel sy'n cyfoethogi iechyd a llesiant preswylwyr a chenedlaethau'r dyfodol.

| Dangosydd | Targed *(Perfformiad Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol)* | Sbardun ar gyfer ymchwiliad pellach | Perfformiad 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| 1.Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol | Dim ceisiadau i arwain at golli adeiladau rhestredig | Colli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd olynol * | **Gweler dadansoddiad (1) isod** |
| 2. Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol | 100% gwerthusiad drafft Ardaloedd Cadwraeth wedi eu dynodi erbyn 2016** | Heb gyrraedd y targed | **19 wedi cwblhau (100%) Gweler dadansoddiad (2) isod** |
| 3.Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda photensial ar gyfer goblygiadau dylunio/amgylcheddol sylweddol | Pob datblygiad i gyfrannu at greu amgylchedd ansawdd uchel wedi'i ddylunio'n dda | Canlyniadau monitro yn negyddol | **Gweler dadansoddiad (3) isod** |
| 4.Sampl o geisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial ar gyfer effaith sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb | Dim effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol | Unrhyw ddatblygiad sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol | **Gweler dadansoddiad (4) isod** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| hanesyddol/archeolegol, henebion cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5. Achlysuron pan fyddai caniatáu datblygiad wedi cael effaith niweidiol ar adeilad rhestredig, ardaloedd cadwraeth, safle o arwyddocâd archeolegol neu barc tirlun hanesyddol neu eu lleoliad | Nid yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd o ddiddordeb adeiledig neu hanesyddol a'u lleoliad<br>*(2014-15: dim)*<br>*(2015-16: dim)*<br>*(2016-17: dim)*<br>*(2017-18: dim)*<br>*(2018-19: dim)*<br>*(2019-20: un)*<br>*(2020-21: dim)* | Rhoi 1 neu fwy caniatâd cynlluniau lle mae gwrthwynebiad yn dal i fod gan Dîm Cadwraeth y Cyngor, Cadw neu GÂT | **Ni chofnodwyd dim** |

**Dadansoddiad**

Nifer adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol:

| | Dyddiad Sylfaen 2021 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau Rhestredig** | 2146 | 2153 | 2152 | 2151 | 2149 | 2149 | 2148 | 2149 |
| **Henebion Hynafol Cofrestredig** | 169 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 | 164 |
| **Parciau a Gerddi Hynafol** | 44 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 |
| **Ardaloedd Archeolegol Sensitif** | 30 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| **Tirweddau Diddordeb Hanesyddol Eithriadol** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |

Ni chafodd unrhyw adeilad rhestredig eu dadrestru yn ystod y cyfnod monitro ac roedd un rhestriad newydd yn Luburnum Cottage, y Fenni gan fynd â'r cyfanswm nifer ar draws Sir Fynwy yn ôl i 2,149. Ni fu unrhyw newidiadau yng nghyswllt Henebion Hynafol Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hynafol, Ardaloedd Archaeolegol Sensitif neu Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol dros y cyfnod monitro.

Felly bodlonwyd y dangosydd gan na fu colled net o fwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd yn olynol. Ers dechrau monitro yn 2015 bu colled gronnus o 4 adeilad rhestredig. Serch hynny, ni ystyrir bod hyn yn arwyddocaol ac nid yw'r Tîm Treftadaeth wedi codi pryderon yng nghyswllt y colledion hyn. Bu hefyd restriadau newydd i adeiladau o fewn y 3 blynedd ddiwethaf. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi ynghylch y mater hwn.

| |
|---|
| 2. Yn yr un modd â'r cyfnod monitro blaenorol, ni chafodd unrhyw werthusiadau ardal cadwraeth pellach eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag cafodd cyfanswm 19 gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu mabwysiadu ac felly cafodd y drafft werthusiadau Ardal Cadwraeth a ddynodwyd erbyn 2016 ei gyrraedd yng nghyfnod monitro 2015-2016. Caiff y 12 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth arall eu datblygu yn y dyfodol os bydd adnoddau ar gael. |
| 3. Ystyriodd taith dylunio Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ym mis Mawrth 2022 6 cais a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd yr holl safleoedd yn gysylltiedig â chynlluniau preswyl: Dau safle strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol: 250 annedd yn Deri Farm, y Fenni; a 345 annedd yn y cyn Fairfield Mabey, Cas-gwent; safle Prif Bentref 60/40 wedi ei ddyrannu yn Llanddingad, a safle dyranedig Cwrt Burrium yn Anheddiad Eilaidd Gwledig Brynbuga. Ymwelwyd hefyd â dau safle preswyl ar hap yn hen iard longau Sudbrook a thir yn Walnut Tree Cottage, Llangybi a gafodd ganiatâd/adeiladwyd mewn blynyddoedd diweddar.<br><br>Fe wnaeth Aelodau ymateb yn gadarnhaol i fwyafrif y datblygiadau preswyl ac nid oedd ganddynt unrhyw bryderon mawr. Roeddent yn falch gyda budd y Seilwaith Gwyrdd cynhwysfawr oedd yn dechrau dod i le ar safle Deri Farm – un o safleoedd tai mawr cyntaf y Cyngor i goleddu'r polisi Seilwaith Gwyrdd yn llawn. Gallodd y safle hefyd ddangos i Aelodau fanteision y polisi Seilwaith Gwyrdd a'i Ganllawiau Cynllunio Atodol manwl cysylltiedig sy'n llywio darpariaeth, gweithrediad a rheoli Seilwaith Gwyrdd o fewn cynlluniau datblygu preswyl.<br><br>Roedd Aelodau yn falch iawn gyda'r creu lle sy'n dod i'r amlwg ym Mhont Mabey gyda sgwâr cyhoeddus newydd wedi ei greu tu allan i Tŷ Brunel, adeilad rhestredig amlwg, a datblygu gwahanol gymdogaethau ar y datblygiad tai mwy hwn, bob un gyda'i gymeriad pensaernïol neilltuol ei hun.<br><br>Cafodd y safle tai fforddiadwy '60/40' yn Llanddingad groeso da, gyda chanmoliaeth i ansawdd yr adeiladu a thystiolaeth o fesurau ynni adnewyddadwy ar gyfer yr unedau fforddiadwy. Mae'r tirlunio o amgylch a llociau terfyn a ddewiswyd yn dda yn y strydoedd agored, tebyg i reiliau tryloyw a thirlunio gwyrdd, yn helpu i greu amgylchedd dymunol ar gyfer y rhai yn byw yn y tai a'r ardaloedd o amgylch.<br><br>Er y siom na fedrid cyflawni dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol o 20 uned a 7 cartref fforddiadwy) yng Nghwrt Burrium, Brynbuga oherwydd cyfyngiadau risg llifogydd, ystyriwyd bod y saith tŷ (2 yn dai fforddiadwy) yn edrych yn dda gyda deunyddiau ansawdd uchel. Er y dywedwyd eu bod yn anheddau mawr, ystyriwyd eu bod yn gydnaws gyda'r cyd-destun adeiledig o amgylch ac ystyriwyd bod y 2 uned fforddiadwy yn ansawdd uchel a heb fod yn gwahaniaethu o'r anheddau marchnad mewn ansawdd deunyddiau.<br><br>Ni wnaeth elfennau dyluniad yn y cynllun preswyl yn Llangybi gystal argraff lle'r ystyriwyd yn arbennig fod y garejys ar gyfer yr unedau tai marchnad mewn safle gwael ac yn rhy fawr, o gofio am faint pob llain. |

| |
|---|
| Roedd y farn yn gymysg am y tai yn Iard Longau Sudbrook, gyda rhai pryderon am agosatrwydd a golygfa rhai o’r anheddau i’r is-orsaf drydan fawr bresennol. Fodd bynnag, canmolwyd y dyluniad effeithiol o ran ynni, yn cynnwys paneli solar ar y tai marchnad.<br><br>Dangosodd y taith dylunio fod enghreifftiau da iawn yn cael eu datblygu sy’n dangos datblygiad preswyl blaengar ac effeithiol o ran ynni sy’n rhoi ymdeimlad o le a gweledigaeth Cynlluniau Cynllunio Atodol Seilwaith Gwyrdd y Cyngor a’i weithrediad cyfredol o fewn safleoedd yn dechrau dod i siâp ac yn gwella tirlunio a gosodiad datblygiadau.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro dyluniad a deunyddiau datblygiadau newydd i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yng nghyswllt y dyluniad. |
| 4. Ni ddynodwyd unrhyw geisiadau ar gyfer Tîm Treftadaeth y Cyngor, sydd â photensial ar gyfer effaith sylweddol ar amgylchedd hanesyddol Sir Fynwy.<br><br>Ni weithredwyd y sbardun ac ystyrir fod polisi ‘datblygiad mewn Ardaloedd Cadwraeth’ y Cynllun Datblygu Lleol presennol yn gweithio’n effeithlon. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gadw golwg agos at ddatblygiad o fewn ardaloedd hanesyddol sensitif. |
| 5. Nid yw Tîm Treftadaeth y Cyngor wedi dynodi unrhyw geisiadau dros y gyfnod monitro gyda gwrthwynebiad yn dal i fod gan Dîm Treftadaeth y Cyngor, Cadw neu GGAT.<br><br>Ni weithredwyd y sbardun ac ystyrir fod polisïau’r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol sy’n gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yn gweithio’n effeithlon. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro nifer yr adeiladau rhestredig a safleoedd hanesyddol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig gyda’r mater hwn. |
| **Argymhelliad** |
| 1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 2. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 3. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro. |
| 4. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.. |
| 5. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.. |

*Diwygiwyd geiriad y sbardun i egluro fod y sbardun yn cyfeirio at golli mwy nag 1 adeilad rhestredig bob blwyddyn am 3 neu fwy o flynyddoedd olynol.

**Diwygiwyd geiriad y targed er eglurhad, mae’n cyfeirio at y 18 drafft Gwerthusiad Ardal Cadwraeth oedd yn mynd rhagddynt yn ystod y cyfnod cyn mabwysiadu’r Cynllun Datblygu Lleol.

## 6 Fframwaith Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd

6.1 Mae monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag Amcanion Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol gyda sylwadau yn y golofn olaf i ddisgrifio'r cynnydd a rhoi argymhelliad. Ni chaiff yr holl ddangosyddion a restrwyd yn wreiddiol yn fframwaith monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd eu cynnwys, dim ond ar gyfer y dangosyddion hynny lle mae data ar gael y rhoddir gwybodaeth.

6.2 Mae gorgyffwrdd gyda rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a chaiff y dangosyddion hyn eu dangos mewn lliw gwyrdd trwm er mwyn eglurder. Bwriedir i hyn roi arwydd o'r cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Rhoddir sylwebaeth fer er y dylid cyfeirio at Adran 5 Dadansoddiad Polisi y Cynllun Datblygu leol i gael gwybodaeth ychwanegol.

6.3 Mae nifer o ddangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd lle na chaiff gwybodaeth ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft yn seiliedig ar y Cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac fel canlyniad nid yw'r rhain o reidrwydd yn mynd i fod yn ddefnyddiol yn nhermau monitro yn y dyfodol. Cawsant eu cadw er mwyn rhoi llinell sylfaen ac er y gwnaed gwaith i geisio canfod ffynonellau eraill o wybodaeth, ni ymddengys fod dim ar gael ar hyn o bryd.

6.4 Ni chafodd y system graddio goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro y Cynllun Datblygu Lleol eu defnyddio ar gyfer Monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae llawer o amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ddyheadau. Yn ychwanegol, nid y Cynllun Datblygu Lleol ar ben ei hun fyddai'r unig ffactor fyddai angen ei hystyried wrth gyflawni eu nodau. Nid yw Monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn cynnwys targedau, yn wahanol i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol, byddai felly'n anodd dehongli'r sylwadau yn raddiad goleuadau traffig. Mae'r symbolau sy'n gysylltiedig gyda rhai dangosyddion yn dynodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid. Mae'r symbolau yn cyfeirio at: (+) cynnydd neu fwy; (-) gostyngiad, llai neu ddim a (nc) dim newid. Gan fod hyn yn cyfeirio at wythfed cyfnod monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, caiff ei gymharu gyda'r saith Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol ac mae'n dangos tueddiadau a ddaw i'r amlwg. Felly, cyfeirir at y cyfeiriad newid fel bod yn berthnasol yn yr adran sylwadau. Defnyddir hyn i asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol tuag gyrraedd y dangosyddion datblygu cynaliadwy a ddynodwyd.

6.5 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn fframwaith monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ymwneud yn bennaf ag ystod eang o ddata a gynhyrchir yn fewnol, gan wahanol adrannau'r cyngor ac yn allanol gan sefydliadau eraill. Lle cafwyd data yn allanol, rhoddir troed nodyn i sicrhau ei bod yn rhwydd adnabod y ffynhonnell data.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC)**

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Hygyrchedd | Caniatáu mynediad cyfartal i bawb i swyddi, gwasanaethau a'r cyfleusterau maent eu hangen, mewn ffordd sy'n gostwng dibyniaeth ar ddefnydd ceir. | **1.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**2.** Cyfran y bobl sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+)<br>**3. Cyfran o'r gweithlu sy'n aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith, yn ôl ystadegau teithio i'r gwaith (+)**<br>**4. Cyfran datblygiadau tai a gwblhawyd o fewn neu yn ymyl y prif drefi, Aneddiadau Glannau Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd a gwledig cyffredinol, fel y dynodir ym Mholisi S1.**<br>**5. Cyfran o** | **1.** 21.9km**<br>**2.** 16.7%**<br>**3.** 61.2%*****<br>**4.** Prif Drefi: 43.5%, Glannau Hafren: 46%, Aneddiadau Gwledig Eilaidd: 5.3%, Gwledig Cyffredinol: 5.2%<br>**5.** 0% | **1 – 2.** Cofnododd cyfrifiad 2011 fod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy gerdded neu seiclo. Y pellter cyfartalog ar gyfer teithio i'r gwaith oedd 21.9km. Er y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 erbyn hyn, ni chafodd data ar deithio i'r gwaith ei gyhoeddi hyd yma. Gwneir cymhariaeth ystyrlon adeg yr Adroddiad Monitro blynyddol nesaf pan fydd data teithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021 wedi ei gyhoeddi.<br><br>**3.** Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru ar deithio i'r gwaith fod 61.2% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gwaith. Cynyddodd y ffigur hwn gan 4.3% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac mae felly angen gofal wrth eu trin.<br><br>**4.** Yn y Prif Drefi y cafodd y rhan fwyaf o anheddau eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro, gan fod yn 43.5% (157) o'r cyfanswm ffigur (361). Roedd Aneddiadau Glannau Hafren yn gyfanswm o 46% (166) o'r anheddau a gwblhawyd, cynnydd o gymharu gyda'r cyfnod monitro blaenorol (32.7%). Roedd yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd Gwledig yn 5.3% (19) a'r ardal Gwledig Cyffredinol, sy'n cynnwys ffigurau o'r Prif Bentrefi, yn 5.2% (19). Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ddatblygiadau newydd mawr* o fewn 10 munud ar droed o wasanaeth bws aml a chyson (+) (yn cynnwys caniatâd preswyl, cyflogaeth, manwerthu a hamdden yn unig** | | **5.** Ni chymeradwywyd dim cynlluniau preswyl mawr yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn caniatâd cynllunio oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd camau diwethaf cyfnod y Cynllun. Mae'r gostyngiad mewn caniatâd cynllunio hefyd yn adlewyrchu'r cyfyngiad oherwydd ffosffadau yr ystyrir ei fod yn ffactor sy'n cyfrannu.<br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Tai | Darparu ystod o fathau a daliadaethau tai sy'n galluogi pobl i ddiwallu eu hanghenion tai | **1.** Pobl sydd ag angen cartref (-)<br>**2. Nifer tai fforddiadwy a gwblhawyd (+)**<br>**3. Nifer tai marchnad cyffredinol a gwblhawyd**<br>4. Lefel flynyddol o dai a gwblhawyd a fonitrwyd ar y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog*******<br>***5.* Cyfanswm cronnus tai a gwblhawyd a fonitrwyd ar y gofyniad cronnus (Gofyniad Blynyddol Cyfartalog Cronnus) ******* | 1. 468 y flwyddyn dros gyfnod 5 mlynedd (dyddiad sylfaen 2020)<br>2. 35<br>3. 326<br>4. -89 uned<br>5. -1,500 ar ddiwedd 10 mlynedd o fonitro a gofnodwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2020/21. Cofnodwyd cwblhau 351 arall yn ystod cyfnod monitro 2021/22.<br>6. 0 | 1. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol 2020-2025 yn defnyddio methodoleg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo angen tai sy'n wahanol i'r hyn a ddefnyddir i roi tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Felly ni fedrir cymharu'r canlyniadau yn uniongyrchol. Ni ddylid cymryd y ffigur o 468 fel targed ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan nad cartrefi newydd eu hadeiladu yw'r unig gyflenwad o gartrefi fforddiadwy yn Sir Fynwy. Mae caffael anheddau presennol yn ffynhonnell ddibynadwy o gynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda landlordiaid preifat i gynyddu'r cyflenwad o dai rhent preifat ac i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys cynllun Cymorth Prynu y llywodraeth. Yr angen rhent cymdeithasol a ddynodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Tai Leol yw 319.61 y flwyddyn, mae Perchentyaeth Cost Isel yn 115.20 y flwyddyn a Rhent Canolraddol yn 33 y flwyddyn. Caiff angen perchentyaeth cost isel ei drin drwy amrywiaeth o ddulliau yn cynnwys cyfraniadau A106 ar gynlluniau tai adeiladu newydd a negodwyd gan y Cyngor yn ogystal ag ailwerthu tai perchentyaeth cost isel. Fel y nodir uchod, ni ddylid cymryd y ffigur hwn fel y targed blynyddol, y mae serch hynny yn rhoi arwydd o'r rhagamcan cyfredol ar gyfer tai fforddiadwy o fewn y Sir ac yn gosod meincnod y gall y Cyngor weithio ato. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **6.** ***Dwysedd tai a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd (SAH1 – SAH10)***<br>**7. Nifer yr anheddau a ganiatawyd ac a gwblhawyd ar safleoedd strategol fel y'u dynodir ym mholisi S3.**<br>**8. Nifer anheddau fforddiadwy a adeiladwyd drwy gynlluniau eithriad gwledig.**<br>**9. Nifer anheddau a ddarparwyd yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2.** | **7.** 0 annedd wedi eu caniatáu , 229 wedi eu cwblhau<br>8. 0<br>9.Gweler y tabl yn yr adran sylwebaeth. | **2 – 3.** Cafodd 35 o gartrefi fforddiadwy eu cwblhau a 326 o anheddau marchnad eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>**4 - 5** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru newidiadau i fonitro darpariaeth tai ym mis Mawrth 2020. Roedd y newidiadau yn dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir tai ac yn cyflwyno datganiad polisi yn ei gwneud yn glir mae'r trywydd tai, fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ac a gytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai fyddai'r sail ar gyfer monitro cyflenwi gofynion tai cynlluniau datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol. Cafodd dau ddangosydd eu cynnwys am y tro cyntaf yn Adroddiad Monitro Blynyddol 2019-20, yn disodli'r dangosydd blaenorol oedd yn mesur y cyflenwad tir tai pum mlynedd. Mae'r cyntaf o'r dangosyddion hyn yn mesur lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro ar y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Roedd y ffigur hwn yn -89 annedd (-19.89%) yn 2021-2022 o gymharu gyda gofyniad y Cynllun Datblygu Lleol o 450 annedd y flwyddyn. Mae'r ail ddangosydd yn mesur cyfanswm cwblhau cronnus wedi ei fonitro ar y gofyniad cronnus. Cofnodwyd gwerth deng mlynedd o gwblhau tai yng nghyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol 2020-21 gan fod yn ddiffyg o -1,500 uned ar ofyniad y Cynllun o 4,500 uned. Cafodd 361 annedd arall eu cwblhau yn y cyfnod monitro cyfredol. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar y Ddarpariaeth Tai yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosyddion newydd. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **6.** Ni chafodd dim cynlluniau preswyl eu cymeradwyo yn y cyfnod monitro ar safleoedd tai a ddyrannwyd. Dengys hyn fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllun eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd camau olaf cyfnod y Cynllun.<br><br>**7.** Bu cynnydd yn nifer yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol dros y cyfnod monitro (cwblhau 229 2021-2022) o gymharu â'r Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol (cwblhau 183 2020-2021). Roedd mwyafrif yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd strategol (88) yn cyfeirio at safle SAH3 Fairfield Mabey. Roedd yr anheddau eraill a gwblhawyd fel sy'n dilyn: SAH1 Deri Farm (51), SAH5 Rockfield Farm, Gwndy (49) a SAH7 Melin Bapur Sudbrook (41),<br><br>**8.** Ni chafodd unrhyw gynlluniau eithriad gwledig eu caniatáu na'u cwblhau dros y cyfnod monitro. Er nad oes targed yng nghyswllt nifer cwblhau ar gyfer cynlluniau eithriad gwledig, bydd y Cyngor yn parhau Blynyddol yn y dyfodol i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn ymwneud â chynlluniau eithriad gwledig.<br><br>**9.** Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r 361 annedd a gwblhawyd o gymharu gyda'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi S2. Mae'r Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ynghylch y Strategaeth Ofodol yn rhoi dadansoddiad llawn o'r dangosydd hwn. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | <table><tr><th></th><th>2021 – 2022</th><th>Targed</th></tr><tr><td>**Prif Drefi**</td><td>43.5%</td><td>*41%*</td></tr><tr><td>**Glannau Hafren**</td><td>46%</td><td>*33%*</td></tr><tr><td>**Gwledig Eilaidd**</td><td>5.3%</td><td>*10%*</td></tr><tr><td>**Gwledig Cyffredinol**</td><td>5.2%</td><td>*16%*</td></tr></table><br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Iechyd, diogelwch a sicrwydd | Gwella iechyd a llesiant drwy annog ffyrdd o fyw mwy iach a gwarchod pobl rhag risg a all effeithio ar eu hiechyd a/neu ddiogelwch | **1.** Faint o dir agored a gafodd ei greu fel canlyniad i ganiatâd cynllunio | **1.** 0 ha | **1.** Ni chafodd 0 ha o o ofod agored ychwanegol ei gymeradwyo fel canlyniad i ganiatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Caiff y data ei gasglu gan Rheoli Datblygu ac nid yw'n cynnwys unrhyw geisiadau amlinellol neu geisiadau sy'n disgwyl llofnodi cytundebau A106. Mae hyn yn debyg i'r cyfnod monitro blynyddol ond yn ostyngiad sylweddol ar gyfnod monitro 2019/20 (12.7ha).<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Cymuned | Cefnogi a hyrwyddo cymeriad unigryw chydlyniaeth gymunedol | **1. Nifer cyfleusterau cymunedol a hamdden a gafodd ganiatâd cynllunio (+)**<br>**2. Faint o gyfleusterau cymunedol a hamdden a gollwyd i ddefnyddiau eraill.**<br>**3. Faint o fannau agored cyhoeddus/** | **1.** 13<br>**2.** 1<br>**3.** 0ha | **1.** Rhoddwyd 13 cais cynllunio ar gyfer defnydd cymunedol a hamdden dros y cyfnod monitro. Roedd 8 o'r ceisiadau'n ymwneud â defnydd cymunedol a phump â hamdden. Roedd caniatâd ar gyfer defnyddiau cymunedol yn cynnwys safle addysgol cyn-ysgol newydd yn Whitecastle, Trefynwy; estyniad i Ysgol Gynraddd Brynbuga; newid defnydd o A3 i feithrinfa yn Uned 103, Wales One, Magwyr; newid defnydd o annedd i ddeintyddfa, Lidstone, y Fenni; ymestyn maes parcio ym Mharc Gwledig Castell Cil-y-coed; a storfa biniau newydd yn Stryd Fawr Cas-gwent. Roedd caniatâd ar gyfer defnydd hamdden yn cynnwys newid defnydd o B8 i Gaffe yn y Goetre; standiau newydd 100 |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **caeau chwarae a gollwyd i ddatblygiad heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu** | | a 50 sedd yng Nghlwb Pêl-droed Cas-gwent; gwelliannau i Glwb Athletig Cas-gwent, Clwb Criced y Fenni a Gerddi Linda Vista, y Fenni. Mae hyn yn gynnydd yn nifer y cyfleusterau cymunedol/hamdden a ganiatawyd (2018-2019: 8, 2019-2020, 12, 2020-2021: 3) ac felly mae'n cyflawni'r cyfeiriad newid a ddymunir. Mae mwy o fanylion yn y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**2.** Collwyd un cyfleuster cymunedol dros y cyfnod monitro. Roedd y golled yn ymwneud ag addasu Kingdom Hall yn Rhaglan, neuadd gyfarfod nad oedd yn cael ei defnyddio a gafodd ganiatâd ar gyfer addasu i ddefnydd preswyl. Er bod y data a gasglwyd yn dangos y collwyd y cyfleuster cymunedol i ddefnyddiau eraill dros y cyfnod monitro ac y cafodd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn ei gyrraedd yn ddilynol, caiff y golled ei chyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol. Mae manylion pellach yn y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Chyfleusterau Cymunedol a Hamdden.<br><br>**3.** Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau ar ardaloedd o fannau agored heb eu dyrannu ar gyfer datblygu yn y Cynllun Datblygu Lleol dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn awgrymu y cafodd y targed dangosydd ar deilliant monitro i warchod a lleihau colled mannau agored heb eu dyrannu ei gyflawni yn 2020-21.<br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Bioamrywiaeth | Gwarchod, gwerthfawrogi a chyfoethogi | **1. Datblygiadau a ganiatawyd sy'n achosi niwed i werth** | **1.** 1 cais<br>**2.** 0 | **1.** Caniatawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro fydd yn achosi niwed i werth Cadwraeth Natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol, yng nghyswllt SINC Springfield. Cafodd y cais ei gyfiawnhau ar y sail |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | ecosystemau iach, cynefinoedd ac amrywiaeth naturiol rhywogaethau, gan werthfawrogi buddiannau cadwraeth natur | **Cadwraeth Natur cyffredinol safleoedd a ddynodwyd yn lleol (-)**<br>**2. Nifer datblygiadau newydd sy'n creu ac adfer cynefinoedd**<br>**3.** Hectarau o goetir hynafol a gollwyd i ddatblygiad (-)<br>**4. Datblygiad a ganiatawyd o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol/ cenedlaethol bwysig.** | **3.** Dim data ar gael ar gyfer cyfnod monitro 2021-2022.<br>**4.** 1 | fod y gwerthusiad ecolegol a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn dangos y caiff gweddill glaswelltir SINC yn y safle ei reoli mewn modd sensitif ac y cynigir plannu 21 o goed newydd ar y safle. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Thirwedd, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.<br><br>**2.** Ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiadau yn benodol i gyflwyno creu ac adfer cynefinoedd yn ystod y cyfnod monitro. Er na chaniatawyd unrhyw geisiadau ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd, mae'n debygol y bydd cynlluniau eraill a gymeradwywyd dros y cyfnod monitro yn helpu i adfer cynefinoedd drwy wella rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd.<br><br>**3.** Dim data ar gael ar gyfer y cyfnod monitro. Bydd y dangosydd hwn yn dal i gael ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**4.** Caniatawyd 1 datblygiad o fewn ardaloedd cadwraeth natur rhyngwladol/cenedlaethol bwysig yn ystod y cyfnod monitro, sy'n ymwneud â chaniatâd ar gyfer estyniad ystafell gardd yn Pond Cottage, Mynyddbach. Cafodd y cynnig ei gyfiawnhau ar y sail y cynhaliwyd Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ac arolygon manwl i lywio asesiad effaith y cynllun, y lliniarwyd yn llawn yn ei erbyn a'i amodi ar y caniatâd a roddwyd. Mae manylion pellach yn y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at y Tirlun, Seilwaith Gwyrdd a'r Amgylchedd Naturiol.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Tirlun | Cynnal a chyfoethogi ansawdd a chymeriad y tirlun, yn cynnwys ei gyfraniad at osodiad a chymeriad aneddiadau. | **1.** Nifer coed a warchodwyd drwy Orchmynion Gwarchod Coed a gollwyd i ddatblygiad (-) | **1.** Dim data ar gael ar gyfer cyfnod monitro 2021-2022. | **1.** Dim data ar gael ar gyfer cyfnod monitro 2021-22. Bydd y dangosydd yn dal i gael ei fonitro'n agos yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Amgylchedd Adeiledig | Cynnal a gwella'r amgylchedd adeiledig ar gyfer ei gymeriad weledol a'i nodweddion unigryw, a chreu gwell amgylchedd byw. | **1. Caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel.**<br>**2. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol a gwblhawyd dros gyfnod monitro 2021-2022)**<br>**3. Sampl ceisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer** | **1.** 5<br>**2.** 1<br>**3.** 6 | **1.** Cymeradwywyd pump cais ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys 2 borth ceir solar yn Ysgol Gyfun Cas-gwent a safle Wales One yn Magwyr; arae panel solar yn Devauden; paneli solar a phympiau gwres ar gyfer y 15 annedd yn y safle a ddyrannwyd SAH11(ii)) yn Well Lane, Devauden; a gosod pwmp gwres yn 17 Willow Drive, Trefynwy. Mae hyn yn cymharu gyda chyfanswm o un cynllun yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 ar Ddefnydd Effeithiol o Adnoddau a Risg Llifogydd.<br><br>**2.** Cofnodwyd y cafodd un cynllun ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ei gwblhau o fewn y cyfnod monitro cyfredol. Roedd hyn yn ymwneud â gosod paneli solar ar doeau yn y cartrefi fforddiadwy newydd yn Llanddingad. Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014, dylid nodi y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu cwblhau ac yn weithredol. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | datblygiadau gyda photensial ar gyfer goblygiadau dylunio/ amgylcheddol | | **3.** Ystyriodd taith dylunio y Pwyllgor Cynllunio ar 9 Mawrth 2022 6 cais a gymeradwywyd dan y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y safleoedd hyn i gyd yn ymwneud â chynlluniau preswyl. Dyrannwyd dau safle strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol: 250 annedd yn Deri Farm, y Fenni; a 345 annedd yn y cyn Fairfield Mabey, Cas-gwent; safle 60/40 Prif Bentref a ddyrannwyd yn Llanddingad; a safle a ddyrannwyd yn Anheddiad Gwledig Eilaidd Brynbuga. Ymwelwyd hefyd â dau safle preswyl ar hap yn: hen Iard Longau Sudbrook, Sudbrook, a thir yn Walnut Tree Cottage, Llangybi, a gafodd ganiatâd/adeiladwyd mewn blynyddoedd diweddar. Gweler y Dadansoddiad Creu Lleoedd a Pholisi Dylunio yn Adran 5 i gael manylion pellach.<br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Treftadaeth hanesyddol | Deall, gwerthfawrogi, gwarchod ac adfer, lle bo angen, dreftadaeth ddiwylliannol hanesyddol yr ardal, yn cynnwys nodweddion yr amgylchedd adeiledig a lled-naturiol | **1.** Nifer safleoedd adeiladau rhestredig a hanesyddol (-)<br>**2.** Sampl ceisiadau cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygiadau gyda'r potensial ar gyfer effaith sylweddol ar adeiladau o ddiddordeb hanesyddol/ archeolegol, henebion rhestredig ac ardaloedd cadwraeth | **1.** Adeiladau Rhestredig: 2149, Henebion Hynafoll Cofrestredig: 164, Parciau a Gerddi Hanesyddol: 45, Ardaloedd Archeolegol Sensitif: 10 a Thirluniau o Bwysigrwydd Hanesyddol: 3 | **1.** Bu cynnydd bach iawn (+1) yn nifer yr adeiladau rhestredig ers y cyfnod monitro blynyddol. Nid oedd unrhyw newidiadau yng nghyswllt Henebion Hynafol Cofrestredig, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Ardaloedd Archeolegol Sensitif neu Dirluniau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yn ystod y cyfnod monitro.<br>**2.** Ystyriodd taith dylunio y Pwyllgor Cynllunio ar 9 Mawrth 2022 6 cais a gymeradwywyd gan y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y safleoedd i gyd yn cyfeirio at gartrefi preswyl: dau safle strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol: 250 annedd yn Deri Farm, y Fenni; a 345 annedd yn y cyn Fairfield Mabey, Casgwent; safle 60/40 Prif Bentref dynodedig yn Llanddingad; a safle a ddyrannwyd yn Anheddiad Gwledig Eilaidd Brynbuga. Ymwelwyd hefyd â dau safle preswyl ar hap yn hen Iard Longau Sudbrook, Sudbrook a thir yn Walnut Tree Cottage, Llangybi a gafodd ganiatâd/ei adeiladu mewn blynyddoedd diweddar. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | **y cafodd datblygiad effaith niweidiol arnynt.**<br>**3. Nifer ardaloedd cadwraeth gyda gwerthusiad cymeriad cyfredol.** | **2.** 6<br>**3.** 19 gwerthusiad cymeriad Ardal Cadwraeth cyfredol. | Gweler y Dadansoddiad Creu Lleoedd a Pholisi Dylunio yn Adran 5 i gael manylion pellach.<br>**3.** Cafodd cyfanswm o 19 Gwerthusiad Ardal Cadwraeth eu cynhyrchu a'u mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Gweler y Dadansoddiad Creu Lleoedd a Pholisi Dylunio yn Adran 5 i gael manylion pellach.<br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Aer | Gostwng pob math o lygredd aer er budd ansawdd aer lleol ac integriti yr atmosffer i warchod rhag newid hinsawdd | **1.** Nifer lleoliadau lle mae ansawdd aer yn uwch na lefelau amcan bob blwyddyn (-)<br>**2.** Canran y bobl a gyflogir sy'n defnyddio eu car/fan fel eu prif ffordd o deithio i'r gwaith naill ai drwy yrru neu yn cael eu cludo (-)<br>**3.** Cyfran pobl a gyflogir yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo (+) | **1.** 0<br>**2.** 81.4%**<br>**3.** 16.7%** | **1.** Ni chafodd y lefel amcan blynyddol o nitrogen deuocsid ei dorri yn 2021. Am y bumed blwyddyn yn olynol ni chafodd ei dorri ym Mrynbuga. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**2 – 3.** Cofnododd Cyfrifiad 2011 bod 16.7% o bobl yn teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu seiclo. Daw yr ystadegau dulliau cymudo hefyd o Gyfrifiad 2011 gan ddynodi bod 81.4% o bobl a gyflogir yn defnyddio eu car/fan fel eu prif ddull o deithio i ac o'r gwaith. Er y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 erbyn hyn, ni chafodd data yng nghyswllt teithio i'r gwaith ei gyhoeddi hyd yma. Gwneir cymhariaeth ystyrlon adeg yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf, pan gafodd data teithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021 ei gyhoeddi.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Ansawdd dŵr | Cynnal a gwella ansawdd dŵr daear, dŵr | **1.** % o afonydd yn cyrraedd statws ansawdd dŵr 'da' (+) | **1.** 25%***<br>**2.** 0 | **1.** Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfuno statws ecolegol a chemegol yn ei adroddiadau, bydd angen i'r corff dŵr wyneb gyrraedd statws da yn y ddwy elfen er mwyn cyrraedd 'statws da' cyffredinol. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | wyneb a dŵr arfordirol. | **2.** Cyfran safleoedd a ddyrannwyd a phob datblygiad arall dros 10 annedd/1ha sy'n cynnwys SUDS (+) | | Yn adroddiad diweddaraf (interim) Arsylwi Dyfroedd Cymru Cylch 3 (2021), mae gan 25% o afonydd Sir Fynwy statws da.<br><br>**2.** Ni chafodd dim cynllun preswyl mawr yn cynnwys SUDS eu cymeradwyo dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn caniatâd cynllunio oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd camau diweddaraf cyfnod y Cynllun. Mae'r gostyngiad mewn caniatâd cynllunio hefyd yn adlewyrchu'r cyfyngiadau oherwydd ffosffadau yr ystyrir eu bod yn ffactor sy'n cyfrannu.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |
| Cyflenwad dŵr | Cynnal cyfaint dŵr sydd ar gael yn cynnwys cyflenwadau dŵr yfed, a lefelau dŵr daear ac afonydd | **1.** Cyfran cyrff dŵr daear yn cyrraedd statws cyfaint 'da' (+) | **1.** 100%*** | **1.** Mae Sir Fynwy o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Goch Defonaidd Wysg, Hen Dywodfaen Goch Defonaidd Gwy a Chalchfaen Carbonifferaidd deheuol Wysg a Gwy. Mae gan bob un o'r tri corff dŵr daear statws da ar gyfer cyfaint yn ôl data Arsylwi Dyfroedd Cymru Cylch 3 (2021).<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Risg llifogydd | Sicrhau y caiff datblygiad newydd ei gynllunio a'i leoli i osgoi risg llifogydd, a sicrhau na chaiff risg llifogydd ei gynnydd mewn man arall. | **1. Nifer caniatâd a roddwyd ar gyfer datblygu ym Mharthau Llifogydd C1 a C2 heb fod yn ateb holl brofion TAN 15 (-)**<br>**2.** Cyfran safleoedd a ddyrannwyd a phob datblygiad arall dros 10 annedd sy'n cynnwys SUDS (+).<br>**3.** Achosion lle mae afonydd yn profi llif isel yn yr haf. | **1.** 0<br>**2.** 0<br>**3.** 2*** | **1.** Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw geisiadau yn groes i ofynion TAN15 yn naill ai gorlifdir Parth C1 na C2 dros y cyfnod monitro. Mae hyn yn debyg i ganlyniadau'r cyfnod monitro blaenorol.<br><br>**2.** Ni chymeradwywyd unrhyw gynlluniau preswyl mawr yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn dangos gostyngiad mewn caniatâd cynllunio oherwydd fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd ganiatâd cynllunio eisoes a bod y Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd camau olaf cyfnod y Cynllun.<br><br>**3.** Mae tair gorsaf monitro afonydd allweddol yn Sir Fynwy ar yr Afon Wysg, yr Afon Gwy a'r Afon Mynwy. Mae data'r llif yn seiliedig ar y dyddiau pan ostyngodd hyn dan lif Q95 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Q95 yw'r 9fed canradd, gan olygu fod llif yn fwy na hyn ar gyfer 95% o'r amser ac yn is na hyn am 5% o'r amser. Ar gyfartaledd, mae llif dan Q95 am tua 18 diwrnod y flwyddyn. Caiff yn aml ei ddefnyddio fel dangosydd nodweddiadol o lif isel yr haf. Yn y cyfnod monitro diweddaraf, roedd llif dan Q95 mewn 2 o'r 3 gorsaf monitro, sef yr Afon Gwy a'r Afon Wysg. Yng ngorsaf monitro yr Afon Gwy roedd llif dan Q95 am 38 diwrnod ac am 8 diwrnod yng ngorsaf monitro yr Afon Wysg. Roedd 2 gyfnod pan oedd llif yn yr Afon Gwy yn is na Q95, rhwng 20.07.21 am 8 diwrnod i 27.07.21 ac o 29.08.21 am 30 diwrnod i 27.09.21. Yn yr Adroddiad Monitro Blaenorol (2020-201), cofnododd yr un gorsafoedd monitro lif dan Q95, fodd bynnag ar gyfradd sylweddol is o 17 a 2 ddiwrnod yn yr un drefn.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd**. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Mwynau a gwastraff | Sicrhau y caiff deunyddiau sylfaenol a mwynau eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy drwy ddiogelu ardaloedd mwynol, annog ail-ddefnyddio ac ailgylchu ac osgoi gwaredu terfynol ar adnoddau | **1. Nifer datblygiadau anfwynol parhaol a ganiatawyd ar safleoedd gwarchodedig nad ydynt yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 (-)**<br>**2.**Cyfran casgliadau gwastraff domestig Sir Fynwy a gaiff eu hailgylchu a'u compostio (+).<br>**3.Faint o gapasiti rheolaeth gwastraff a ganiateir a fynegir fel canran o'r cyfanswm capasiti sydd ei angen fel y'i dynodir yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.**<br>**4.Faint o adnoddau agregau a enillir ar y tir fel canran o'r cyfanswm capasiti a ddynodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.** | **1.** 0<br>**2.** 62%****<br>**3.** 0ha a ganiatawyd<br>**4.** 0 | **1.** Nid oedd unrhyw ganiatâd ar gyfer datblygiadau anfwynol parhaol ar safleoedd gwarchodedig nad oedd yn cydymffurfio gyda Pholisi M2 yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn debyg i'r cyfnod monitro blaenorol.<br><br>**2.**Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnod 2020-2021 sy'n awgrymu y cafodd 62% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio (yn seiliedig ar wastraff bwrdeisiol a gasglwyd/cynhyrchwyd yn unol â'r dangosydd). Mae hyn wedi gostwng ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol a ddangosodd y cafodd 64.6% ei ailgylchu neu ei gompostio. Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>**3.**Ni roddwyd unrhyw ganiatâd ar gyfer capasiti rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod monitro. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn cyfeirio at Wastraff.<br><br>**4.**Ni chafodd unrhyw agregau sylfaenol o'r tir eu hechdynnu dros y cyfnod monitro. Ni fu felly unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir yn Sir Fynwy. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi yn Adran 5 yn ymwneud â Mwynau.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Tir/pridd | Defnyddio tir yn effeithiol drwy flaenoriaethu datblygiad ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol lle' n bosibl, a defnyddio tir presennol yn effeithiol drwy drin halogiad a gwarchod tir amaethyddol gradd uwch. | 1. Cyfran datblygiad a ganiatawyd ar dir glas fel canran o bob datblygiad ac yn eithrio deiiaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol (nc neu -)<br>**2. Faint o dir glas a gollwyd i ddatblygiad heb ei ddyrannu yn y cynllun datblygu.**<br>**3.Dwyseddau cyfartalog blynyddol datblygiad tai newydd (+).**<br>**4.**Hectarau o dir amaethyddol Gradd 3a a gwell a gollwyd i ddatblygiad mawr* (ac eithrio dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol a datblygiad amaethyddol). | 1. 68.2%<br>2. 7.5ha<br>3. 0dpha<br>4ha | **1.** Caniatawyd cyfanswm o 11.0ha o ddatblygiad dros y cyfnod monitro, 7.5ha o hynny ar dir glas. Roedd hyn yn gyfartal â chaniatau 68.2% o bob datblygiad (ac eithrio deiliaid tai, addasiadau ac adeiladau amaethyddol) ar dir glas. Mae faint o dir glas a ganiatawyd ar gyfer datblygu yn is nag yn y tri chyfnod monitro blaenorol (2020-2021: 15.052ha (73.7%), 2019-2020: 19.79ha (79%), 2018-2019; 25.27ha (87.1%), 2017-2018; 32.12ha (59.8%). Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i benderfynu ar effeithlonrwydd y fframwaith polisi yn gysylltiedig â'r mater hwn.<br><br>**2.** Dros y cyfnod monitro rhoddwyd 26 caniatâd ar dir glas heb ei ddyrannu ar gyfer datblygiad yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gyfanswm o 7.5 hectar. Mae hyn yn ostyngiad ar yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (11.71ha) a dyma'r cyfanswm isaf o dir glas heb ei ddyrannu a gafodd ganiatâd (2014-15: 26ha, 2015-16: 44.6ha, 2016-17 16.5ha, 2017-18: 8.9ha, 2018-19: 9.71ha, 2019-20: 18.27ha, 2020-2021: 11.7ha). I gael manylion pellach gweler y Dadansoddiad Poilisi Tirwedd, Seilwaith Gwyrdd ac Amgyklchedd Naturiol yn Adran 5.<br><br>**3.** Cymeradwywyd 0 cynllun preswyl o fwy na 10 annedd dros y cyfnod monitro ar gyfer cynlluniau preswyl.<br><br>**4.** Nid oedd dim o'r ceisiadau mawr a ganiatawyd dros y cyfnod monitro wedi arwain at golli unrhyw dir amaethyddol Gradd 3a ac uwch.<br><br>**Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ynni | Sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ynni ym mhob adeilad newydd ac annog cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy. | **1. Nifer datblygiadau newydd a gwblhawyd sy'n cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle (h.y. caniatâd yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol a gafodd eu cwblhau dros gyfnod monitro 2021-2022)** | | **1**. Cofnodwyd y cafodd un cynllun ychwanegol yn cynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle ei gwblhau o fewn y cyfnod monitro presennol. Roedd hyn yn cyfeirio at osod paneli solar ar do cartrefi fforddiadwy newydd eu hadeiladu yn Llanddingad. Ers mabwysiadu'r Cynllun yn 2014, dylid nodi y cafodd cyfanswm o 11 cynllun yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle eu cwblhau ac yn weithredol.<br><br>Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. |

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogaeth | Darparu ystod o swyddi o fewn Sir Fynwy sy'n helpu i gyflawni anghenion y gweithlu preswyl | **1. Cyflenwad/ datblygiad a defnydd net tir cyflogaeth (+)**<br>**2. Faint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau heblaw cyflogaeth**<br>**3. Cyfran y gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)**<br>**4.** Pellter cyfartalog teithio i'r gwaith (-)<br>**5. Canran unedau gwag o fewn ardal siopa ganolog pob canol tref a chanolfan leol.** | **1.** Cyflenwad 40.16ha, Defnydd 0.0545ha<br>**2.** 0.03ha<br>**3.** 61.3%*****<br>**4.** 21.9km**<br>**5.** Y Fenni: 3.6%, Cil-y-coed: 6.1%, Cas-gwent: 11.2%, Trefynwy: 15.5%, Magwyr: 0%, Rhaglan: 9.1%, Brynbuga: 8.5% | **1.** Dynododd y Papur Cefndir Tir Cyflogaeth fod 40.16ha o dir cyflogaeth ar gael ar draws y Sir (mae'r cyflenwad yn cyfeirio yn unig at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes a Ddynodwyd) gan olygu fod digon o dir cyflogaeth yn parhau ar gael. Roedd cyfradd defnydd tir cyflogaeth yn 0.055ha dros y cyfnod monitro. Mae'r defnydd[11] yn is nag yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol diwethaf (0.3803ha) ac yn cynrychioli'r defnydd isaf dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br>**2.** Caniatawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro oedd yn cyfeirio at golli defnyddiau B ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd neu a warchodwyd (SAE1 & SAE2) oedd yn golled o 0.03ha. I gael mwy o wybodaeth gweler y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br>**3.** Dengys ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru fod 61.3% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardal eu hunain ar gyfer gwaith. Cynyddodd y ffigur hwn gan 4.4% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid eu trin yn ofalus.<br>**4.** Roedd pellter cyfartalog teithio i'r gwaith yn 21.9km adeg Cyfrifiad 2011. Er y cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 erbyn hyn, ni chafodd data yng nghyswllt teithio i'r gwaith ei gyhoeddi hyd yma. Rhoddir cymhariaeth ystyrlon adeg yr Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf pan fydd y data ar gyfer teithio i'r gwaith o Gyfrifiad 2021 wedi ei gyhoeddi. |

[11] Mae defnydd tir cyflogaeth yn cyfeirio at SAE1 Safleoedd Diwydiannol a Busnes Dynodedig, SAE2 Safleoedd Cyflogaeth Gwarchodedig a Safleoedd Defnydd Cymysg.

<table>
<tr><th>Pennawd</th><th>Amcan</th><th>Dangosyddion GC</th><th>Data</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td><td>5. Mae cyfraddau unedau gwag a gofnodwyd yn ardaloedd siopa canolog pob un o drefi a chanolfannau lleol y Sir i gyd wedi gostwng neu wedi parhau’r un fath ac eithrio Trefynwy (15.5%) lle bu cynnydd bach. Mae’r cyfraddau unedau gwag eraill yn cynnwys y Fenni (3.6%), Cil-y-coed (6.1%), Cas-gwent (11.2%), Magwyr (0%), Rhaglan (9.1%) a Brynbuga (8.5%). Dengys y gostyngiad fod canolfannau yn Sir Fynwy wedi cael adferiad rhesymol dda o effeithiau’r pandemig. Roedd y cyfraddau unedau gwag a gofnodwyd yn holl ardaloedd siopa canolog y Sir ac eithrio Trefynwy yn is na chyfradd unedau gwag Stryd Fawr Prydain Fawr (14.5% Mehefin 2021, Local Data Company).<br>Parhau i fonitro amcan y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.</td></tr>
<tr><td>Creu cyfoeth</td><td>Creu ffyniant ac ansawdd bywyd drwy ddatblygu economi lleol mwy hunangynhaliol, gan annog twf cynhenid</td><td>1. Amrywiaeth o safleoedd SAE1/ SAE2/Defnydd Cymysg dynodedig ar gael, dosbarthiad a maint<br>2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl anheddiad<br>3. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ôl sector</td><td>1. Gweler tabl yn yr adran sylwadau<br>2. Prif Drefi: 0.30ha, Gl Hafren: 1.69ha, Aneddiadau Gwledig Eilaidd 0.05ha, Gwledig Cyffredinol 1.55ha<br>3.Gweler tabl yn yr adran sylwadau.<br>4. 61.2%*****</td><td>1. Mae’r tabl isod yn dynodi’r ystod o safleoedd cyflogaeth ar draws y Sir yn ôl lleoliad ynghyd â maint y safleoedd sydd ar gael. Er fod cyfran fawr o dir ym Magwyr, mae dosbarthiad ar draws y Prif Drefi a rhai o’r Aneddiadau Gwledig Eilaidd.
<table>
<tr><th>Cyfeirnod Safle</th><th>Enw/Lleoliad Safle</th><th>Dosbarth Defnydd Safle</th><th>Gweddill tir ar gael (ha)</th></tr>
<tr><td>SAE1a</td><td>Wales One, Magwyr (gorllewin)</td><td>B1</td><td>4.0</td></tr>
<tr><td>SAE1b</td><td>Quay Point, Magwyr</td><td>B1/B2/B8</td><td>13.76</td></tr>
<tr><td>SAE1c</td><td>Gwent Europark, Magwyr</td><td>B8</td><td>13.3</td></tr>
<tr><td>SAE1d</td><td>Westgate, Llan-ffwyst</td><td>B1/B2</td><td>1.3</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Pennawd</th><th>Amcan</th><th>Dangosyddion GC</th><th>Data</th><th>Sylwadau</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>4. Cyfran gweithlu preswyl yn gweithio yn Sir Fynwy (+)<br>5. Nifer pobl yn cymudo i fewn i Sir Fynwy.<br>6. Nifer pobl yn cymudo allan o Sir Fynwy<br>7. Gwariant twristiaeth (+)<br>8. Nifer y cynlluniau arallgyfeirio/ menter gwledig a gymeradwywyd<br>9. Nifer cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd<br>10. Nifer cyfleusterau twristiaeth a gollwyd drwy ddatblygu, newid defnydd neu ddymchwel</td><td>5. 14,300*****<br>6. 17,100*****<br>7. £182.79 miliwn ******<br>8. 7<br>9. 17<br>10. 1</td><td><table>
<tr><td>SAE1e</td><td>Heol Rhosan, Y Fenni</td><td>B1/B2</td><td>1.5</td></tr>
<tr><td>SAE1f</td><td>Newhouse Farm, Cas-gwent</td><td>B2/B8</td><td>4.0</td></tr>
<tr><td>SAE1g</td><td>South Woodside, Brynbuga</td><td>B1</td><td>1.3</td></tr>
<tr><td>SAE1h</td><td>Pill Row, Cil-y-coed</td><td>B1/B8</td><td>1.0</td></tr>
<tr><td>SAE2w</td><td>Wales One, Magwyr</td><td>B1/B2/B8</td><td>0.57</td></tr>
<tr><td>SAH2</td><td>Heol Crug, Porthysgewin</td><td>B1</td><td>1.0</td></tr>
<tr><td>SAH3</td><td>Fairfield Mabey, Cas-gwent</td><td>B1</td><td>0.65</td></tr>
<tr><td>SAH4</td><td>Heol Wonastow, Trefynwy</td><td>B1</td><td>2.78</td></tr>
<tr><td>SAH5</td><td>Rockfield Farm, Gwndy</td><td>B1</td><td>2.0</td></tr>
</table><br>2. Roedd y rhan fwyaf o ganiatâd a roddwyd yn gysylltiedig â chyflogaeth dros y cyfnod monitro yn ardal Glannau Hafren, gan fod yn gyfwerth â 1.69ha. Roedd yr aneddiadau Gwledig Cyffredinol yn dilyn gyda 1.55ha ac yna'r Prif Drefi gyda 0.30ha. Roedd yr Aneddiadau Gwledig Eilaidd yn cyfrif am 0.05ha. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Dadansoddiad Polisi Economi a Menter yn Adran 5.<br>3. Nid yw'r tabl isod ond yn dynodi'r sectorau hynny lle rhoddwyd caniatâd cynllunio dros y cyfnod monitro. Roedd y gyfran fwyaf o ofod llawr cyflogaeth ar gyfer dosbarthiadau defnydd B a ganiatawyd yn cyfeirio at Weithgynhyrchu. Mae rhestr lawn o'r sectorau a gwybodaeth ychwanegol ar gael yn y Polisi Economi a Menter.</td></tr>
</table>

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (see nested table and text below) |

| Sector | Maint (ha) |
|---|---|
| Gweithgynhyrchu | 1.48ha |
| Cyfanwerthu a manwerthu; atgyfweirio moduron a beiciau modur | 0.42ha |
| Cludiant a storio; gwybodaeth a chyfathrebu | 0.87ha |
| Gweithgaredau eiddo tirog; Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; Gweithgareddau gweinyddol a chefnogi | 0.49ha |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 0.14ha |
| Adeiladu | 0.2ha |

**4.** Mae ystadegau teithio i'r gwaith Llywodraeth Cymru yn dynodi fod 61.3% o weithlu Sir Fynwy yn aros yn eu hardaloedd eu hunain ar gyfer gwaith. Cynyddodd y ffigur hwn gan 4.4% ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach ac felly dylid ei drin yn ofalus.

**5 – 6.** Dynododd Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru 2021 fod cyfanswm o 14,300 yn cymudo i Sir Fynwy a 17,100 allan o Sir Fynwy. Bu gostyngiad sylweddol yn lefel y mewn-gymudo ers y cyfnod monitro blaenorol (2020 – 2021: 19,000) gyda lefel all-gymudo yn gostwng (2020 – 2021: 19,600), gan arwain at all-lif net o gymudwyr. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi gormod o bwysau ar y ffigurau hyn gan fod y data yn seiliedig ar arolwg sampl bach. ac felly y dylid bod yn ofalus wrth eu trin. Mae'r Dadansoddiad o Bolisi Economi Menter yn Adran 5 yn rhoi dadansoddiad pellach o'r wybodaeth hon.

| Pennawd | Amcan | Dangosyddion GC | Data | Sylwadau |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | **7.**Mae adroddiad STEAM Sir Fynwy (2021) yn dynodi cyfanswm gwariant twristiaeth blynyddol fel £182.79 Miliwn dros gyfnod 2021. Roedd hyn yn cymharu gyda £81.16 Miliwn dros gyfnod 2020, gan fod yn gyfwerth â chynnydd o 122.2%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y cyfnod blaenorol ac yn dangos yr adferiad ers effaith pandemig Covid-19 ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch.<br><br>**8.** Cymeradwywyd cyfanswm o 7 cais yn ymwneud ag arallgyfeirio/mentrau gwledig yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 2 o'r ceisiadau fel cynlluniau menter gwledig a 5 cais fel arallgyfeiriad gwledig ar ffermydd presennol. Mae manylion llawn hyn ar gael yn y Dadansoddiad Polisi Mentrau Gwledig yn Adran 5.<br><br>**9 – 10.** Cymeradwywyd cyfanswm o 17 cynllun twristiaeth yn ystod y cyfnod monitro, i gyd yn gyfleusterau llety twristiaeth. Roedd hyn yn cynnwys addasu 10 adeilad yn lety gwyliau a 7 safle llety glampio newydd.<br><br>Cymeradwywyd un cais cynllunio oedd yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth dros y cyfnod monitro. Roedd hyn yn cyfeirio at ddymchwel llety gwyliau a gosod garej domestig newydd yn ei le yn Court Windermere, Betws Newydd. Cafodd y cais ei ganiatáu o fewn fframwaith polisi cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Dadansoddiad o Bolisi Economi Ymwelwyr yn Adran 5 yn rhoi manylion llawn y math o gyfleusterau twristiaeth a sicrhawyd dros y cyfnod monitro.<br>**Parhau i fonitro Amcanion y Gwerthusiad Cynaliadwyedd.** |

*Datblygiadau mawr – datblygiad yn cynnwys un neu fwy o'r datblygiadau dilynol o 10 annedd neu fwy neu 0.05ha neu fwy ar gyfer ceisiadau amlinellol a cheisiadau llawn; datblygu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd llawr a gaiff ei greu yn 1000$m^2$ neu fwy, datblygiadau ar safle gydag arwynebedd o 1ha neu fwy, ennill neu weithio mwynau, neu ddefnyddio'r tir ar gyfer adneuon gweithio mwynau, neu ddatblygiad gwastraff.
**Ffigur yn deillio o Gyfrifiad 2011
*** Yn cynnwys gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl
**** StatsCymru Llywodraeth Cymru
*****Ystadegau Cymudo Llywodraeth Cymru (2021)
******Adroddiad STEAM Sir Fynwy (2021)
******Mae hyn yn un o ddau ddangosydd newydd a ychwanegwyd i gymryd lle y dangosydd blaenorol ar gyfer cyflenwad tir tai pum mlynedd, i adlewyrchu gofynion Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2022) yn dilyn diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cyd-Astudiaethau Argaeledd Tir Tai (Ionawr 2015).

# 7 Casgliadau ac Argymhelion

## 7 Casgliad ac Argymhellion

7.1 Hwn yw'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i gael ei baratoi ers mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Fynwy. Gan y bu'r Cynllun Datblygu Lleol yn weithredol am wyth mlynedd, daeth tueddiadau i'r amlwg drwy'r broses fonitro am ba bolisïau sy'n perfformio fel y bwriadwyd iddynt a pha rai sydd ddim. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn dangos y gwneir cynnydd da ar gyflenwi llawer o bolisïau'r Cynllun gyda thargedau a ddynodwyd yn cael eu cyrraedd a bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau'n gadarn. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn dangos fod rhai elfennau o'r Cynllun yn dal heb fod yn datblygu fel y bwriadwyd iddynt.

7.2 Mae Adran 5 yn rhoi asesiad manwl o sut mae polisïau strategol y Cynllun a pholisïau cefnogi cysylltiedig yn perfformio o gymharu â'r targedau monitro allweddol a deilliannau ac os yw strategaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu cyflawni. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ffurfio barn wybodus am gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/deilliannau monitro a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg weledol o effeithlonrwydd polisïau'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn seiliedig ar y graddiad goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad.

7.3 Drwyddi draw, mae'r cynllun yn gweithio'n effeithlon gyda mwyafrif y targedau monitro wedi eu cyflawni, cynnydd bach i 57 o raddiad gwyrdd 54 y llynedd. Bu gostyngiad bach yn nifer y dangosyddion nad ydynt wedi cyrraedd y targed eleni, ond mae cyfiawnhad priodol ac ni chodwyd unrhyw bryderon (26 o gymharu gyda 29 y llynedd). Mae graddiadau 'coch' a gofnodwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol wedi parhau ar 3 am yr ail flwyddyn yn olynol. Rhoddir sylwadau pellach isod.

| | |
|---|---|
| Targedau / deilliannau monitro* yn cael eu cyflawni | **57** |
| Targedau / deilliannau monitro* heb fod yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ond nid oes unrhyw bryderon am weithrediad y polisi | **26** |
| Targedau/deilliannau monitro heb fod yn cael eu cyflawni gyda phryderon dilynol am weithrediad y polisi | **3** |
| Ni fedrir dod i gasgliad oherwydd y data cyfyngedig sydd ar gael neu ddim data perthnasol | **7** |

*Ar gyfer y dangosyddion hynny heb unrhyw darged/sbardun, caiff y deilliannau monitro eu hasesu a'u graddio yn unol â hynny.

## Canfyddiadau Allweddol

7.4 Dengys gwybodaeth a gasglwyd drwy'r broses fonitro fod mwyafrif y targedau dangosydd a'r deilliannau monitro yn cael eu cyflawni (graddiad golau traffig gwyrdd), gan ddangos fod polisïau perthnasol y Cynllun yn perfformio yn ôl y bwriad. Mae'r llwyddiannau mwyaf sylweddol yn cynnwys y dilynol:

**Strategaeth a Thai**

- Mae caniatâd cynllunio gan chwech o'r saith safle tai strategol a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, pedwar ohonynt yn cael eu hadeiladu ar hyn o bryd (Deri Farm, Y Fenni; Fairfield Mabey, Cas-gwent; Rockfield Farm, Gwndy; a Melin Bapur Sudbrook) gyda'r cyfnod sydd ar ôl yn Drewen Farm yn disgwyl datrysiad ffosffadau cyn y gellir symud ymlaen ag ef. Rhoddwyd caniatâd i'r seithfed yn SAH6 Vinegar Hill, Gwndy ym mis Mehefin 2022 a chaiff felly ei gofnodi fel caniatâd yn ystod y cyfnod monitro nesaf.
- Mae cynnydd yn parhau tuag at weithredu dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol, gyda 65% o'r anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd (236 uned). Roedd safleoedd mawr ar hap yn cyfrif am 22% o'r anheddau a gwblhawyd (80 uned)7 a safleoedd bach a gyfrifwyd ar gyfer y 13% arall (45 uned).

**Economi a Menter**

- Mae gan y Sir gyfanswm o 40.16 hectar o dir cyflogaeth ar gael, gan ddangos y cedwir digon o dir cyflogaeth i gyflawni'r gyfradd defnydd a ddynodwyd. Mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn ymchwilio pam nad yw gweddill y safleoedd cyflogaeth wedi dod ymlaen eto ac y bydd yn ystyried os y dylent gael eu dad-ddyrannu neu os y byddai ymyriadau arall yn sicrhau eu cyflenwi.
- Cymeradwywyd un cais cynllunio ar safle SAE1 a ddyrannwyd ym Mharc Beaufort, Cas-gwent yn ymwneud â newid defnydd o warws manwerthu i B1 diwydiannol ysgafn yn cynnwys ehangu'r uned i cynnwys llawr mezzanine.
- Bu cynnydd yn nhermau caniatâd cyflogaeth o fewn y Sir, gyda 19 caniatâd arall wedi ei roi ar gyfer ystod o ddefnyddiau cyflogaeth dosbarth B ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig (SAE2) ac mewn mannau eraill yn y Sir, er enghraifft fel cynlluniau arallgyfeirio gwledig a mentrau gwledig yn rhoi cyfleoedd cyflogaeth mewn amrywiaeth o sectorau.
- Cymeradwywyd saith cais cynllunio ar gyfer cynlluniau arallgyfeirio neu fentrau gwledig. Roedd rhai yn cyfeirio at ddefnyddiau dosbarth defnydd B tebyg i unedau cychwynnol bach B2/B8 hefyd yn cyfrannu at y pwynt uchod ac roedd eraill ar gyfer mentrau gwledig tebyg i fusnes newydd ymarfer cŵn yn Llanelen ac ehangu busnes hedfanneg yn The Byre, y Fenni.
- Cymeradwyodd y Cyngor gynigion ar gyfer 17 cais cysylltiedig â thwristiaeth, yn cyfeirio at 10 cynnig llety gwyliau a saith cyfleuster glampio. Dengys cymhariaeth gydag Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol fod nifer y cynlluniau twristiaeth a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro presennol yn parhau ar lefel gadarnhaol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Lety Twristiaeth Cynaliadwy

(Tachwedd 2017) wedi helpu i egluro ein cefnogaeth gyffredinol i'r sector pwysig hwn o'n heconomi.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Bu gostyngiad mewn cyfraddau unedau gwag mewn pedair ardal siopa ganolog, Y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Brynbuga ac ni fu unrhyw newid mewn dwy, Rhaglan a Magwyr, gyda Magwyr heb unrhyw unedau gwag am yr ail flwyddyn olynol.
- Mae'r gyfran o ddefnyddiau manwerthu A1 o fewn prif ffryntiadau siopa y trefi yn gyffredinol yn cydymffurfio gyda'r trothwyon a ddynodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Prif Ffryntiadau Siopa.
- Cymeradwywyd 13 cais cynllunio ar gyfer defnyddiau cymunedol a hamdden yn ystod y cyfnod monitro. Roedd y rhain yn cynnwys estyniad i Ysgol Gynradd Brynbuga, newid defnydd o annedd i ddeintyddfa, storfa biniau gwyrdd newydd ar Stryd Fawr Cas-gwent, standiau newydd gyda 100 a 50 sedd yng Nghlwb Pêl-droed Tref Cas-gwent a gwelliannau i Glwb Athletig Cas-gwent, Clwb Criced y Fenni a Gerddi Linda Vista, y Fenni. Nodir hefyd, er nid yn enilliad, y gwelliant i'r cyfleuster claddu presennol yn Safle Claddedigaethau Naturiol Brynbuga.

**Yr Amgylchedd**

- Cafodd cyfanswm o 11ha o ddatblygiad ei ganiatáu yn ystod y cyfnod monitro, gyda 3.5ha ar safleoedd tir llwyd. Mae hyn yn gyfwerth â 31.8% o bob datblygiad (yn cynnwys deiliaid tai, addasu adeiladau ac adeiladau amaethyddol) ac mae'n gynnydd ar ffigur y llynedd o 28.3%. Mae'r gymhareb rhwng datblygiad tir glas/tir llwyd yn dangos y tir llwyd cyfyngedig sydd ar gael o fewn y Sir ar gyfer ei ddatblygu.
- Nid oes unrhyw geisiadau newydd wedi arwain at golli gofod amwynder agored.
- Ni chafodd unrhyw geisiadau ganiatâd cynllunio eu rhoi yn groes i ofynion TAN15 yn naill ai orlifdir Parth C1 neu C2 dros y cyfnod monitro.
- Cafodd pump cais eu cymeradwyo yn cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle. Mae'r rhain yn cynnwys dau borth ceir solar yn Ysgol Gyfun Cas-gwent a Thŷ Arloesedd, Wales 1, Magwyr a phaneli solar a phympiau gwres o'r ddaear ar gyfer y 15 tŷ newydd (SAH11(ii) yn Well Lane, Devauden. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw'r monitro yn cynnwys cynlluniau deiliaid tai a bod mwyafrif y cynlluniau ynni adnewyddadwy llai yn dod dan ddatblygiad a ganiateir ac felly nid ydynt yn dod o fewn y system cynllunio.
- Mae digonedd o dir yn parhau i fod ar gael ar gyfer safleoedd posibl ar gyfer rheoli gwastraff ac ni fu unrhyw ostyngiad yn y gronfa tir mwynau.
- Nid oedd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli adeiladau rhestredig na safleoedd hanesyddol ac ni chaniatawyd unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd hanesyddol.

7.5 Dengys hyn fod llawer o'r fframwaith polisi yn gweithredu'n effeithlon gan alluogi datblygiad addas i ddigwydd ac y gwnaed cynnydd da mewn gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol.

7.6 Dengys y dadansoddiad hefyd fod gwahanol ddangosyddion polisi nad ydynt yn cael eu cyflawni ond nad oes unrhyw bryderon cyfatebol am weithredu polisi (graddiad golau traffig oren). Penderfynodd ymchwiliad pellach fod cyfiawnhad dros y rhesymau am y

perfformiad a gofnodwyd ac nad yw hyn yn dangos unrhyw broblem sylfaenol gyda gweithredu'r fframwaith polisi neu'r strategaeth ar hyn o bryd. Mae'r canfyddiadau mwyaf sylweddol yng nghyswllt hyn fel sy'n dilyn:

**Tai**

- Adeiladwyd 361 annedd yn ystod y cyfnod monitro (326 marchnad gyffredinol a 35 fforddiadwy). Er i'r sbardun hwn gael ei gyrraedd gan y bu yr anheddau a gwblhawyd 10% yn llai na cyfradd adeiladu strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol dros ddwy flynedd yn olynol, bu'r nifer a gwblhawyd a gofnodwyd yn ail hanner y cyfnod monitro yn sylweddol uwch na'r rhai a sicrhawyd yn ystod hanner cyntaf cyfnod monitro'r cynllun (cwblhau 1,529 yn 2018-2022 o gymharu â 956 yn 2014-2018).
- Mae nifer yr anheddau a gwblhawyd 19.8% (-89 uned) yn is na'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog o 450 annedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant ar flynyddoedd cynnar cyfnod y Cynllun gyda'r nifer o anheddau a gwblhawyd yn y cyfnodau monitro mwyaf diweddar yn llawer nes at y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog: -7 uned (-1.6%) yn 2018/19, -94 uned (-20.9%) yn 2019/20, a -31 (-6.9%) yn 2020/21. Mae hyn oherwydd pa mor gyflym y daeth safleoedd strategol ar gael.
- Roedd nifer caniatâd ar gyfer anheddau yn ystod 2021/22 yn is nag a gofnodwyd yn unrhyw un o'r cyfnodau monitro blaenorol ar 39 annedd, i gyd yn rhai marchnad gyffredinol. Mae'r gostyngiad hwn oherwydd cyfuniad o ffactorau yn cynnwys fod gan fwyafrif y safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ganiatâd cynllunio eisoes gyda'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cyrraedd diwedd cyfnod y Cynllun, felly pwysigrwydd symud ymlaen yn gyflym gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Yn ychwanegol, mae cyflwyno mesurau yn Ionawr 2021 i reoli lefelau ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy, sy'n cynnwys cyfran fawr o'r Sir, wedi effeithio ar ein gallu i roi caniatâd cynllunio mewn cyfran sylweddol o'r Sir. Mae Swyddogion ac Aelodau Cabinet yn gweithio'n galed i sicrhau datrysiad i'r her hon.
- Mae nifer yr anheddau a ganiatawyd yn y prif drefi yn sylweddol is na'r cyfnodau monitro blaenorol a'r isaf a gofnodwyd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gyfrif am 23.1% o ganiatâd preswyl. Eto, mae hyn yn dangos fod Safleoedd Strategol y Cynllun Datblygu Lleol eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ac effaith y cyfyngiadau ffosffadau ar ddatblygiad.
- Mae cynnydd yn parhau tuag at weithredu strategaeth ofodol y Cynllun gyda 43.5% (157 annedd) o'r cwblhau a gofnodwyd ym mhrif drefi'r Sir. Fodd bynnag, dim ond 2% oedd yn Nhrefynwy gyda chwblhau 3 annedd tra bod Cas-gwent yn cyfrif am 61% (96 uned) a'r Fenni am 37 (58 uned). Gellir priodoli'r rhain i raddau helaeth i SAH3 - Fairfield Mabey, Cas-gwent a SAH1 – Deri Farm, y Fenni sydd â chaniatâd cynllunio ac wrthi'n cael ei adeiladu. Roedd yr anheddau a gwblhawyd o fewn ardal Glannau Hafren, Aneddiadau Gwledig Eilaidd ac Ardaloedd Gwledig Cyffredinol oll o fewn yr ystod derbyniol gan ddangos fod tai yn cyffredinol yn cael eu darparu yn unol â'r strategaeth ofodol.
- Er nad oes unrhyw ganiatâd cynllunio wedi sbarduno darparu tai fforddiadwy ar-safle yn ystod y cyfnod monitro, gwnaed peth cynnydd ar gyflenwi dau Ddyraniad

Prif Bentref. Mae naw annedd fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn SAH11(ii) Well Lane, Devauden a phedair annedd fforddiadwy yn SAH11(ix)(a) Tir tu ôl i'r Carpenters Arms, Llanisien.

**Economi a Menter**

- Cafodd un cais cynllunio ei gymeradwyo yn ymwneud â cholli defnydd dosbarth B ar safle cyflogaeth dyranedig (SAE1) neu warchodedig (SAE2). Fodd bynnag, roedd hyn yn cynnwys 0.03ha o dir yn ymwneud â newid defnydd o tua 176.5 m sg o 353msg presennol o ddefnydd dosbarth B2 i ddosbarth defnydd B2 i roi ystafell tap fach ac ardal eistedd mewn bragdy micro mewn uned ar SAE2p – Pont Hafren, cil-y-coed.
- Caniatawyd un cais yn ystod y cyfnod monitro yn ymwneud â cholli cyfleusterau twristiaeth. Roedd hyn yn cyfeirio at ddymchwel llety gwyliau a chodi garej ddomestig yn Court Windermere, Betws Newydd. Fodd bynnag, ystyrir bod cyfiawnhad gan y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Bu gostyngiad bach o 73% i 72% mewn defnyddiau manwerthu A1 ym mhrif ffryntiad siopa y Fenni a gostyngiad o 80% i 76% ym mhrif ffryntiad siopa Cas-gwent, Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae prif ffryntiadau siopa y trefi yn gweithredu'n dda.
- Caniatawyd dau gais ar gyfer datblygiadau newydd A1 bwyd a manwerthu heb fod yn swmpus yng nghanol trefi/canolfannau lleol y Sir yn ystod y cyfnod a gafodd ei fonitro. Fodd bynnag, caniatawyd tri chais (65% o ddefnyddiau manwerthu newydd) y tu allan i'r canolfannau. O'r rhai a ganiatawyd y tu allan i ganolfannau presennol, roedd un yn ymwneud ag estyniad i'r uned fanwerthu bresennol yng Nghanolfan Arddio Brynbuga, yr ail yn ymwneud â siop cyfleustra newydd ar hen safle Magor Motors ym Magwyr ac roedd y trydydd ar gyfer ystafell tap fach ac ardal eistedd i flasu a gwerthu'r cwrw a wnaed ar y safle yn Stad Ddiwydiannol Pont Hafren. O bwyso a mesur phethau, ystyriwyd bod y ddau yn cyflawni polisi cynllunio a chanllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol ar fanwerthu.
- Cafodd un cyfleuster cymunedol ganiatâd ar gyfer defnydd arall yn ystod y cyfnod monitro, sef newid defnydd Kingdom Hall, Rhaglan, o ystafell gyfarfod nad oedd yn cael ei defnyddio i ddefnydd preswyl. Fodd bynnag, caiff y golled ei cyfiawnhau o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol.

**Amgylchedd**

- Caniatawyd tua 7.5ha o dir ar dir glas heb ei ddyrannu yn ystod y cyfnod monitro. Mae hyn yn ostyngiad ar ffigur y llynedd; fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn uwch na'r targed o ddim colled ar dir glas heb ei ddyrannu. Ym mhob achos, fodd bynnag, ystyriwyd bod cyfiawnhad am y golled o fewn cyd-destun a gofynion fframwaith polisi y Cynllun Datblygu Lleol adeg gwneud penderfyniadau ac mae'n dangos y cyfleoedd cyfyngedig tir llwyd yn y Sir.

7.7 Er yr uchod, mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r broses monitro wedi dynodi tri targed

dangosydd polisi allweddol nad ydynt yn mynd rhagddynt fel y bwriadwyd (graddiad golau traffig coch). Mae'r rhain yn ymwneud â chyfanswm ffigurau anheddau a gwblhawyd, cyfraddau cyflenwi tai fforddiadwy a chyfraddau unedau gwag yn Ardal Siopa Ganolog Trefynwy:

**Strategaeth a Thai**

- Nododd cofnodion cyflenwi tai ar gyfer y cyfnod cynllun 10 mlynedd 2011-2011 fod y Cynllun wedi cyflenwi diffyg o 1,500 cartref (33.3%) o gymharu gyda gofyniad y cynllun 10-mlynedd o 4,500 annedd. Fodd bynnag, mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol mwy diweddar mae'r % a gyflenwir wedi gostwng yn gyson wrth i'r safleoedd strategol ddod ymlaen. Medrir priodoli'r diffyg hwn i raddau helaeth i gyfnod arwain i mewn y safleoedd tai strategol, gyda llawer yn parhau i gyflenwi cartrefi sy'n awr yn cyfrannu at ddarpariaeth tai y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'n werth nodi fod gan 1,263 cartref ganiatâd cynllunio ac y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu yn y dyfodol agos.[12] Mae effeithiau cyfyngiadau ar ffosffadau hefyd yn awr yn effeithio ar y nifer a gaiff eu dechrau ac felly eu cwblhau. Yn ystod y cyfnod monitro, cafodd 361 annedd eu cwblhau. Oherwydd y pwysigrwydd sy'n gysylltiedig â chyflenwi tir tai, dechreuodd adolygiad llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2017 a daeth i ben gyda chyhoeddi'r Adroddiad Adolygu Terfynol ym mis Mawrth 2018. Caiff y sefyllfa ddiweddaraf ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ei drafod isod yn yr adran argymhellion.

**Tai Fforddiadwy**

- Cafodd 35 cartref fforddiadwy eu cwblhau yn ystod y cyfnod monitro yn cyfrif am 9.7% o'r cyfanswm cwblhau a gofnodwyd (361). Mae hyn yn llawer is na tharged y Cynllun Datblygu Lleol o 96 cartref fforddiadwy bob blwyddyn. Nododd cofnodion cyflenwi tai ar gyfer cyfnod y cynllun 10-mlynedd 2011-2021 fod y Cynllun wedi cyflenwi 658 cartref fforddiadwy o gymharu gyda tharged o 960 cartref fforddiadwy (diffyg o 302 cartref fforddiadwy). Yn gymesurol, mae'r diffyg hwn bron yn union yr un fath â'r diffyg mewn cyfanswm cyflenwi tai. Ymhellach, nid oedd unrhyw ganiatâd cynllunio newydd ar gyfer 5 annedd neu fwy yn ystod y cyfnod monitro a wnaeth sbarduno cyflenwi tai fforddiadwy ar y safle. Gellir priodoli'r diffyg hwn i raddau helaeth i gyfnod arweiniol safleoedd tai strategol, gyda llawer ohonynt yn parhau i ddarparu cartrefi yn awr sy'n cyfrannu at ddarpariaeth tai y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae'n werth nodi fod 280 cartref fforddiadwy gyda chaniatâd ac i gael eu hadeiladu yn y dyfodol agos [13].

[12] Mae'r ffigur hwn yn eithrio safleoedd yn nalgylch uchaf yr Afon Gwy sy'n annhebyg o ddod ymlaen yn y dyfodol agos nes y caiff datrysiad ffosffadau ei ddynodi a'i weithredu.
[13] Mae'r ffigur hwn yn eithrio safleoedd yn nalyn uchaf yr Afon Gwy sy'n annhebyg o ddod ymlaen yn y dyfodol agos nes y caiff datrysiad ffosffadau ei ddynodi a'i weithredu.

- Mae effaith cyfyngiadau ffosffadau hefyd yn awr yn effeithio ar ddechreuadau safleoedd ac felly gwblhau. Rhagwelir felly y bydd y tueddiad is hwn mewn darpariaeth tai fforddiadwy yn parhau yn y tymor byr yn disgwyl cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

**Cyfleusterau Manwerthu a Chymunedol**

- Gan fod cyfraddau unedau gwag wedi codi am dair blwyddyn yn olynol yn Ardal Siopa Ganolog Trefynwy, cyrhaeddwyd y sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Er mai dim ond cynnydd bach iawn a fu yng nghyfraddau unedau gwag Trefynwy o 15.4% i 15.5% yn y cyfnod monitro hwn, mae hyn yn gyfanswm gynnydd o 10.1% yng nghyfnod monitro 2018.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

7.8 Bydd paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn gyfyngedig yn y blynyddoedd nesaf gan y caiff adnoddau eu canolbwyntio ar baratoi'r Cynllun Newydd.

**Monitro Gwerthusiad Cynaliadwyedd**

7.9 Mae Adran 6 yn ehangu asesiad perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol o gymharu ag amcanion monitro y Gwerthusiad Cynaliadwyedd. Mae gorgyffwrdd rhwng rhai o ddangosyddion y Cynllun Datblygu Lleol a'r dangosyddion Gwerthusiad Cynaliadwyedd gan helpu i ddangos y cysylltiad rhwng monitro'r Cynllun Datblygu Lleol a monitro'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd.

7.10 Mae rhai o'r canfyddiadau mwyaf nodedig yn benodol i'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol yn cynnwys:

- Ni chafodd lefel amcan blynyddol nitrogen deuocsid ei dorri yn 2021/22. Ni chafodd ei dorri ym Brynbuga am y bumed blwyddyn yn olynol.
- Mae Sir Fynwy o fewn tri chorff dŵr daear, Hen Dywodfaen Coch Defonaidd Brynbuga, Hen Dywodfaen Coch Defonaidd Eilaidd Gwy a Chalchfaen Carbonifferaidd deheuol Wysg a Gwy. Mae gan bob un o'r tri chorff dŵr daear statws da am gyfaint yn unol â data Arsylwi Dŵr Cymru ar gyfer Cylch 3 (2021).
- Disgynnodd lefelau dŵr yn is na lefel llif yr haf mewn dwy o'r tair gorsaf monitro. Yr Afon Gwy am 38 diwrnod a'r Afon Wysg am 38 diwrnod, dros ddau gyfnod. Arhosodd yr Afon Mynwy yn uwch na lefell llif yr haf.
- Mae'r data gwastraff diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2020-201 yn awgrymu y cafodd 62% o gyfanswm gwastraff cartrefi Sir Fynwy ei ailgylchu neu ei gompostio. Mae hyn wedi gostwng ers yr Adroddiad Monitro Blynyddol a ddangosodd fod 64.6% wedi ei ailgylchu neu ei gompostio.
- Ni chafodd unrhyw dir amaethyddol Gradd 3a ac uchod ei golli i ddatblygiad mawr dros y cyfnod monitro.
- Dynododd adroddiad STEAM Sir Fynwy (2021) fod cyfanswm gwariant blynyddol twristiaeth yn £182.79 miliwn dros gyfnod 2021. Roedd hyn yn cymharu gyda £81.16 miliwn dros gyfnod 2020, yn gyfystyr â chynnydd o 122.2%. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers y cyfnod blaenorol ac yn dangos yr adferiad ers effaith pandemig Covid-19 ar y diwydiant twristiaeth a'r diwydiant lletygarwch.

**Casgliadau ac Argymhellion**

7.11 Drwyddi draw, dengys Adroddiad Monitro Blynyddol 2021-22 fod cynnydd da yn parhau

i gael ei wneud wrth weithredu llawer o bolisïau'r Cynllun a bod y strategaeth yn parhau'n gyffredinol gadarn. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yng nghyswllt Safleoedd Tai Strategol y Cynllun, mae cyfraddau cwblhau cronnus ar gyfer cyfnod y Cynllun yn is na gofyniad y Cynllun ac yn parhau'n fater o bryder os yw anghenion tai Sir Fynwy i gael eu diwallu. Fodd bynnag, mae hyn oherwydd bwlch amser mewn cyflenwi safle yn hytrach na phroblem gyda'r safleoedd ddim yn digwydd o gwbl.

7.12 Cyrhaeddodd y Cynllun Datblygu Lleol ddiwedd cyfnod y Cynllun ddiwedd 2021, gyda gwerth 10 mlynedd wedi eu cofnodi fel bod wedi cwblhau yn y cyfnod monitro blaenorol ac er fod gan bob un o'r saith dyraniad tai strategol ganiatâd cynllunio erbyn hyn[14] ac y byddant yn parhau i fod â rhan bwysig mewn cyfraddau cyflenwi a chwblhau tai yn y tymor byr, mae'r gostyngiad mewn anheddau a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blaenorol yn achos consyrn. Dengys dadansoddiad o'r cwblhau disgwyliedig, mewn ymgynghoriad gyda'r diwydiant adeiladu tai, yr amcangyfrifir y bydd cyfraddau cwblhau yn parhau'n sefydlog am ychydig flynyddoedd ac yna rhagwelir y byddant yn gostwng i lefelau is (253 uned – 2025/26 a 166 uned yn 2026/27), gyda dim ond safleoedd strategol a safleoedd bach yn cyfrannu at y rhagolwg yn 2026/27. Fodd bynnag nid yw'r rhagolygon hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad o'r Cynllun Newydd, fydd yn gwella cyflenwad tir tai wrth i'r cynllun symud ymlaen at gael ei fabwysiadu. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae'r bwlch amser rhwng y ddau gynllun yn faes o gonsyrn oherwydd ei oblygiadau ar ddarpariaeth tai yn y Sir.

7.13 Bu nifer yr anheddau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro hefyd yn is nag unrhyw gyfnodau monitro blaenorol ac er fod hyn yn rhannol oherwydd bod caniatâd gan y Safleoedd Strategol, ystyrir bod y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig gyda ffactorau yn ffactor sy'n cyfrannu.

7.14 Mae pryderon tebyg am lefel y tai fforddiadwy a gafodd eu sicrhau a'u cwblhau yn ystod y cyfnod monitro. Unwaith eto, ystyrir bod hyn yn dangos cyfuniad o'r safleoedd strategol yn cael caniatâd adeiladu ac yn cael eu hadeiladu a chyfyngiadau ar ddatblygiad oherwydd cyfyngiadau ffosffadau. Ni chafodd unrhyw ganiatâd cynllunio ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod monitro a wnaeth sbarduno cyflenwi tai fforddiadwy ar-safle. Fodd bynnag, gwnaed peth cynnydd ar gwpl o safleoedd Prif Bentref gyda 9 annedd fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn SAH11(ii) Well Lane, Devauden a 4 annedd fforddiadwy yn SAH11(ix)(a) Tir tu ôl i'r Carpenters Arms, Llanisien.

[14] Cafodd SAH6 Vinegar Hill, Gwndy ganiatâd ym Mehefin 2022 a chaiff felly ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf. Mae SAH4 Heol Wonastow, Trefynwy wedi'i orffen yn rhannol, gyda'r rhan sydd ar ôl yn Drewen Farm yn disgwyl datrysiad ffosffadau cyn y medrir symud ymlaen.

7.15 Fel y gwelir o'r dadansoddiad yn Adran 5, mae'r cyhoeddiad yn ystod y cyfnod monitro diwethaf am broblemau ansawdd dŵr ffosffadau yn nalgylchoedd yr Afon Wysg a'r Afon Gwy yn parhau i fod â goblygiadau ar gyfer datblygiad parhaus yn y Sir. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i geisio datrysiadau i broblem ffosffadau ac mae mewn trafodaethau rhagweithiol gyda'r sefydliadau allweddol, yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Dŵr Cymru a'r diwydiant datblygu i geisio datrysiadau hyfyw ac amserol yn yr aneddiadau yr effeithiwyd arnynt. Nodir i Dŵr Cymru gyhoeddi'n ddiweddar y cynhelir rhaglen buddsoddi i geisio cyfarch lliniaru ffosffadau i alluogi datblygiad yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r goblygiadau tymor byr ar gyflenwi cartrefi newydd yn achosi pryderon. Caiff y sefyllfa hon ei hadolygu ar y cyd gyda Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill.

7.16 Mae'r materion hyn yn cyfnerthu'r angen i symud ymlaen gyda'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd i ddarparu fframwaith polisi parhaus a dull ar gyfer trin materion tai a fforddiadwyedd yn y Sir. Cyrhaeddodd y Cyngor gyfnod Strategaeth a Ffefrir proses y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn Haf 2021, gydag ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid yng Ngorffennaf ac Awst 2021, ynghyd â'r ail alwad am safleoedd ymgeisiol. Cododd nifer o heriau yn dilyn hyn sydd wedi effeithio ar gynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac sydd angen eu hystyried ymhellach, sef gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i Strategaeth a Ffefrir Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth[15] a phroblemau ffosffadau yn ansawdd dŵr yr Afon Gwy a'r Afon Wysg.

7.17 Yng ngoleuni'r pryderon a nodwyd uchod gyda chyflenwi tai a deilliannau cysylltiedig, mae cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn parhau yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor. Ar 27 Medi 2022 cymeradwyodd y Cyngor y cynnig i symud ymlaen gyda'r Cynllun Newydd gyda strategaeth twf a gofodol newydd. Caiff Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ei hadrodd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2022 i'w chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad statudol/ymgysylltu ym mis Rhagfyr 2022 – Ionawr 2023. Bydd y cyfarfod hefyd yn ceisio cytundeb y Cyngor i Gytundeb Cyflenwi Diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, fydd yn diwygio amserlen y prosiect ar gyfer paratoi'r Cynllun, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyaeth y Gweinidog.

[15] Cododd Adran Cynllunio Llywodraeth Cymru bryderon sylweddol am lefel arfaethedig twf y Strategaeth a 'chydymffurfiaeth cyffredinol' gyda pholisïau 1 a 33 Cymru'r Dyfodol 2040, gan awgrymu y byddai twf yn sir Fynwy yn tanseilio twf yn ardal dwf genedlaethol Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd. Yn anarferol, mae llythyr Llywodraeth Cymru yn rhagnodi uchafswm twf o 4,275 annedd yn ystod cyfnod y Cynllun (285 annedd y flwyddyn) sy'n is na gofyniad anheddau blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig o 450 annedd y flwyddyn a ffigur ymgynghoriad anheddau ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir o 508 annedd y flwyddyn.

[16] Adeiladu Lleoedd Gwell – Y System Cynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair: Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 (Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2020) - https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-adferiad-covid-19; llythyr Llywodraeth Cymru am hawliau datblygu a ganiateir mewn canol trefi, 30 Mawrth 2021- https://gov.wales/coronavirus-covid-19-new-temporary-permitted-development-rights-support-economic-recovery-html

7.18 Yng nghyswllt y cynnydd parhaus mewn unedau gwag yn ardal siopa ganolog Trefynwy, dylid nodi mai dim ond mewn prif ffryntiad y gwelwyd y cynnydd mewn cyfraddau unedau gwag, gyda gostyngiad mewn cyfraddau mewn ffryntiadau eilaidd. Gall hyn, yn rhannol, adlewyrchu effaith parhaus pandemig Covid-19 ar y stryd fawr ar draws y Deyrnas Unedig, yn neilltuol o gofio am golli rhai cadwyni cenedlaethol, tebyg i Peacocks, o ganol y dref.

7.19 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[16] a gyhoeddwyd mewn ymateb i bandemig Covid-19 yn cydnabod, er y dylai datblygiadau manwerthu barhau i gael eu canolbwyntio ar ganol trefi, y dylid galluogi canolfannau masnachol i weithredu mor hyblyg ag sydd modd. Bydd hyn yn sicrhau y bydd canolfannau manwerthu a masnachol yn y dyfodol yn hybiau gweithgaredd cymdeithasol ac economaidd ac yn ganolbwynt ystod amrywiol o wasanaethau a gweithgareddau/digwyddiadau diwylliannol, sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Dylai'r dull hwn alluogi'r system cynllunio i fod yn ymatebol, hyblyg a phragmataidd i gynorthwyo gyda'r adferiad o Covid-19. Caiff unrhyw effeithiau o hyn ar ganol trefi y sir ei gofnodi yn y cyfnod monitro nesaf.

7.20 Yn lleol, rhoddodd y Cyngor nifer o fesurau interim ar waith pan oedd pandemig Covid-19 ar ei waethaf, tebyg i drwyddedau caffes stryd a rhoi blaenoriaeth i symudiadau cerddwyr mewn canol trefi, ac mae llawer wedi parhau yn ei lle ers codi cyfyngiadau Covid. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor, drwy ei dîm Adfywio, wedi cyflwyno cais cyllid i sicrhau cyfran o Gronfa 'Codi'r Gwastad' Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i Neuadd y Farchnad a'r Neuadd Sirol, dau adeilad allweddol yng nghanol y dref yn ogystal â gwelliannau i Stryd Mynwy a Stryd Blestium. Cyflwynwyd cais 'Codi'r Gwastad' hefyd ar gyfer caffael 7-43 Heol Casnewydd, Cil-y-coed, gwelliannau mannau agored cyhoeddus yng nghanol tref Cil-y-coed ac adnewyddu Canolfan Llesiant Cil-y-coed.

7.21 Er, ac eithrio Trefynwy, bod cyfraddau unedau gwag ar y stryd fawr yn sefydlog ac yn is na chyfartaledd Prydain Fawr (14.5% Mehefin 2021, Local Data Company), cydnabyddir fod gan fywiogrwydd y stryd fawr rôl allweddol yng nghymeriad ac apêl ein trefi marchnad. Mae cyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn anelu i gefnogi canol trefi ac mae Sir Fynwy wedi cyflwyno cais cynhwysfawr ar gyfer y cyllid grant hwn. Mae'r argyfwng costau byw a'r argyfwng costau ynni yn achosi bygythiadau ychwanegol i fusnesau wrth i gostau gynyddu a gwariant cwsmeriaid ostwng. Bydd y sefyllfa yn parhau i gael ei monitro fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'r arolygon manwerthu blynyddol.

7.22 Felly, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn argymell y dilynol:

1. Parhau'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir ddiwygiedig ar ddiwedd 2022/dechrau 2023.

2. Parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i geisio datrysiadau i faterion

ffosffadau ac ansawdd dŵr yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol yr Wysg a'r Gwy.

3. Parhau i weithio gydag adrannau eraill y Cyngor a rhanddeiliaid perthnasol i ymchwilio opsiynau ar gyfer cynyddu darpariaeth tai fforddiadwy .

4. Cyflwyno'r wythfed Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2022 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar wefan y Cyngor.

5. Parhau i fonitro'r Cynllun drwy baratoi Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol.

**Atodiad 1 – Amseriad a Datblygu Safleoedd fesul Cyfnod**

**Dyraniadau**

| **Haen Anheddiad / Anheddiad** | **Enw a roddwyd i'r Safle** | **Cyfanswm capasiti 'r safle** | **Cynnydd Datblygu** | | **Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun*** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfanswm cwblhau ar y safle | U/C | 2022-2023 | 2023-2024 | 2024-2025 | 2025-2026 | 2026-2027 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Deri Farm (DC/2014/01360) | 250 | 234 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Coed Glas (DC/2015/01587) | 51 | 51 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Fairfield Mabey (DM/2019/00001, DM/2019/01960 (AH) & DM/2019/01961) | 373 | 106 | 69 | 22 | 100 | 76 | 0 | 0 |
| Trefynwy | Heol Wonastow (DC/2015/00390 & DC/2015/00392) | 340 | 340 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Wonastow (gweddill y safle | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol Tudur, Wyesham | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | |
| Porthysgewin | Heol Crug (DM/2019/01041) | 269 | 0 | 0 | 0 | 50 | 50 | 50 | 50 |

| Haen Anheddiad / Anheddiad | Enw a roddwyd i'r Safle | Cyfanswm capasiti'r safle | Cynnydd Datblygu | | Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Magwyr Gwndy | Rockfield Farm (Cam 1)(DM/2018/01606)** | 144 | 106 | 37 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Rockfield Farm (gweddill y safle) (DM/2016/00883(O/L)) | 122 | 0 | 0 | 0 | 30 | 35 | 35 | 22 |
| | Tir yn Vinegar Hill (DM/2019/01937)*** | 155 | 0 | 0 | 0 | 50 | 55 | 50 | 0 |
| | Tir yn Vinegar Hill (gweddill y safle) | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sudbrook | Hen Felin Bapur (DC/2015/01184) | 210 | 165 | 33 | 7 | 5 | 0 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | |
| Penperllenni | Tir i'r de o Heol Brynbuga (DC/2013/01001) | 40 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhaglan | Tir yn Heol Casgwent (DM/2018/00769)(O/L) | 45 | 0 | 0 | 0 | 5 | 30 | 10 | 0 |
| Brynbuga | Cwrt Burrium**** | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Prif Bentrefi** | | | | | | | | | |
| Cross Ash | Tir ger Garej Cross Ash (DM/2017/01335) | 6 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | 0 | 0 |
| | Tir ger Neuadd y Pentref | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Devauden | Tir yn Well Lane (DM/2018/01741 | 15 | 0 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llanddingad | Tir i'r De Orllewin (DM/2018/01404) | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grysmwnt | Tir i'r gorllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Haen Anheddiad / Anheddiad | Enw a roddwyd i'r Safle | Cyfanswm capasiti'r safle | Cynnydd Datblygu | | Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Felin Fach | Tir i'r gogledd | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 |
| Llanddewi Rhydderch | Tir tu ôl i Neuadd y Pentref | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llanelen | Tir i'r gogledd orllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llanfair Cilgedin | Tir i'r gogledd (DM/2018/02001(O/L)) | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Llangybi | Tir yn Heol Ton | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llanisien | Tir tu ôl i'r Carpenters Arms (DM/2019/02053(RM)) | 8 | 4 | 0 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol yr Eglwys | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Mathern | Tir i'r gorllewin | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penallt | Tir i'r de orllewin (DM/2015/00606) | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 0 |
| Pwllmeurig | Hill Farm | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Drenewydd Gellifarch | Tir i'r dwyrain (i'r de o fân ffordd) (DM/2018/02066(O/L)) | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 |
| Werngifford Pandy | Tir ger | 15 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15 | 0 |

* Mae cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn rhedeg i fis Rhagfyr 2021 – ar gyfer cysondeb gyda gwaith monitro hir-sefydlog, defnyddiwyd blynyddoedd ariannol ar gyfer gwir nifer a rhagolwg cwblhau.
** Caniatâd amlinellol gwreiddiol ar gyfer 266 annedd. Mae cam 1 y datblygiad yn 144 annedd.
*** Cais hybrid ar gyfer 155 annedd – 72 fel yn y cais llawn, 83 amlinellol yn unig.
**** Cymeradwywyd 23.04.20 am 7 annedd.

**Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio**

| Haen Anheddiad / Anheddiad | Enw'r Safle | Cyfanswm capasiti'r safle | Cynnydd Datblygu | | Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfanswm cwblhau ar y safle | U/C | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
| **Prif Drefi** | | | | | | | | | |
| Y Fenni | Heol Rhosan (DC/2007/01679) (DM/2020/1787) | 9 | 0 | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Mulberry House (DM/2014/01015) | 25 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Llys Ynadon (DM/2018/00007) | 47 | 47 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 17-25 Heol Aberhonddu (DM/2018/00156) | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cas-gwent | Osborn International (DC/2009/00910) | 169 | 44 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trefynwy | Heol Hillcrest, Wyesham (DM/2019/02054) | 11 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | 0 | 0 |
| | Tir gorll Heol Rockfield (DM/2017/00539(O/L)) | 70 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Glannau Hafren** | | | | | | | | | |
| Cil-y-coed | HenWhite Hart Inn (DC/2013/00796) | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Heol yr Eglwys (DM/2019/01761) | 130 | 44 | 23 | 17 | 43 | 3 | 0 | 0 |

| Haen Anheddiad / Anheddiad | Enw'r Safle | Cyfanswm capasiti'r safle | Cynnydd Datblygu | | Unedau tu hwnt i gyfnod y cynllun* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rogiet | Green Farm (DC/2015/01328) | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | 0 |
| | Ifton Manor Farm (DC/2015/00095) | 14 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sudbrook | Hen Iard Longau (DM/2018/01828) | 46 | 46 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Aneddiadau Gwledig Eilaidd** | | | | | | | | | |
| Llan-ffwyst | Tir yn Grove Farm (DM/2019/00346) | 106 | 6 | 37 | 4 | 59 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwledig** | | | | | | | | | |
| Llanelen | Llanellen Court Farm (DC/2015/00474) | 14 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Llanellen Court Farm (DC/2015/00983) | 14 | 0 | 0 | 0 | 14 | 0 | 0 | 0 |

* Mae cyfnod y Cynllun Datbygu Lleol yn rhedeg i fis Rhagfyr 2021 – ar gyfer cysondeb gyda gwaith monitro hir-sefydlog, defnyddiwyd blynyddoedd ariannol ar gyfer gwir nifer a rhagolwg cwblhau.

.